



Cyfarfod

PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dyddiad ac Amser

1.00 y.h., DYDD LLUN, 18FED MAI, 2026

NODER

BYDD Y CYFARFOD YN CAEL EI WEDDARLLEDU

https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home

Lleoliad

**Hybrid - Siambr Dafydd Orwig, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon LL55 1SH
ac yn rhithiol drwy Zoom**

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679 878

lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 11 Mai 2026)

PWYLLGOR CYNLLUNIO

Aelodaeth (15)

Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Dafydd Meurig
Delyth Lloyd Griffiths
Gareth Tudor Jones
Edgar Wyn Owen
Berwyn Parry Jones

Elwyn Edwards
Elin Hywel
Olaf Cai Larsen
Huw Rowlands
Sedd wag

Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

Louise Hughes
John Pughe Roberts

Anne Lloyd-Jones
Gruffydd Williams

Gwynedd yn Gyntaf (1)

Y Cynghorydd Gareth Coj Parry

TREFN SIARAD AR GEISIADAU CYNLLUNIO YN Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

Mae'r Cyngor wedi penderfynu rhoddi'r hawl i 3ydd parti siarad ar geisiadau cynllunio yn y Pwyllgor Cynllunio. Mae'r daflen hon yn amlinellu'r trefniadau gweithredol arferol ar gyfer siarad yn y pwyllgor.

1.	Adroddiad y Gwasanaeth Cynllunio ar y cais cynllunio yn cynnwys argymhelliad.	
2.	Os oes cais wedi ei dderbyn gan 3ydd parti i siarad, bydd y Cadeirydd yn gwahodd y siaradwr ymlaen	
3.	Gwrthwynebydd, neu gynrychiolydd o'r gwrthwynebwyr yn cael annerch y pwyllgor	3 munud
4.	Ymgeisydd, gynrychiolydd yr ymgeisydd(wyr) neu Asiant yn cael annerch y pwyllgor	3 munud
5.	Aelod(au) Lleol yn cael annerch y pwyllgor	10 munud
6.	Cadeirydd y pwyllgor yn gofyn am gynigydd ac eilydd i'r cais cynllunio	
7.	Y pwyllgor yn trafod y cais cynllunio.	

RHAGLEN

1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2026 / 2027

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2026 / 2027

3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol ac i nodi materion protocol.

5. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

6. COFNODION

6 - 19

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 27ain o Ebrill 2026 fel rhai cywir

7. CEISIADAU AM GANIATÂD CYNLLUNIO

Cyflwyno adroddiad Pennaeth Adran Amgylchedd.

7.1 CAIS RHIF C25/0949/36/EIA TIR I'R DE O'R A487, GLAN DWYFACH, GARDOLBENMAEN, LL51 9PQ 20 - 53

Cais ar gyfer darparu is-orsaf newydd ynghyd a seilwaith a gwaith cysylltiol i gynnwys ffordd mynediad newydd o'r A487 ac uwchraddio ffordd mynediad amaethyddol a gosod ceblau tanddaearol 132 kV newydd er mwyn cysylltu gyda'r llinell Rhwydwaith Trydan presennol uwchben.

AELODAU LLEOL: Cynghorydd Stephen Churchman a'r Cynghorydd Rhys Tudur

[Dolen i'r dogfennau cefndirol perthnasol](#)

**7.2 CAIS RHIF C22/0977/36/AC LLECHEIDDIOR UCHAF, BRYNCIR, 54 - 74
GARNDOLBENMAEN, GWYNEDD, LL51 9EZ**

Cais o dan Adran 73 i amrywio amodau 2, 5 a 37 o ganiatâd cynllunio C12/0495/36/MW er mwyn ymestyn yr amser ar gyfer cloddio a gweithio deunydd hyd at 31/12/2030 ac adfer y safle erbyn 31/12/2031, cynyddu allbwn blynyddol o ddeunydd o'r safle i 100,000 tonnell ar gyfradd gyfartalog o 14 llwyth y diwrnod a defnyddio deunydd sydd heb ddeillio o'r gweithgareddau sydd wedi eu caniatáu o fewn cynllun adfer

AELOD LLEOL: Cynghorydd Stephen Churchman

[Dolen i'r dogfennau cefndir perthnasol](#)

**7.3 CAIS RHIF C24/1050/19/LL CYNGOR GWYNEDD, YSGOL 75 - 118
GYNRADD BONTNEWYDD, BONTNEWYDD, CAERNARFON,
GWYNEDD, LL55 2UF**

Dymchwel adeiladau presennol yr ysgol ac adeiladu ysgol a chanolfan gymunedol newydd ynghyd â'r holl dirlunio allanol, ffordd fynediad a maes parcio. Gosod strwythurau ategol gan gynnwys canopïau sy'n sefyll yn rhydd, llochesi beicio, ardal ysbwriel a thanciau chwistrellu a'r holl offer chwarae allanol yn ôl yr angen i gefnogi adeilad newydd yr ysgol.

AELOD LLEOL: Cynghorydd Menna Trenholme

[Dolen i'r dogfennau cefndir perthnasol](#)

PWYLLGOR CYNLLUNIO 27ain o Ebrill 2026

Cadeirydd: Cynghorydd Elwyn Edwards
Is-gadeirydd: Cynghorydd Huw Rowlands

Y Cynghorwyr:

Delyth Lloyd Griffiths, Louise Hughes, Elin Hywel, Berwyn Parry Jones, Gareth T Jones, Anne Lloyd Jones, Cai Larsen, Gareth Coj Parry, Edgar Owen, Gareth Anthony Roberts, John Pughe Roberts a Gruffydd Williams

Aelodau Lleol: Cynghorwyr John Pughe, Elin Walker Jones a Rhys Tudur

Swyddogion: Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol - Swyddog Monitro), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd), Gwawr Hughes (Rheolwr Cynllunio), Elan Mared Lloyd (Swyddog Cynllunio), a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Dafydd Meurig

Bu i'r Cyng. Gareth Coj Parry golli cysylltiad yn ystod eitem 5.1 ac ni fu modd iddo ail ymuno â'r cyfarfod

Croesawyd y Cyng. Louise Hughes yn ôl i'r Pwyllgor wedi cyfnod o waeledd.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL

a) Datganodd yr Aelodau canlynol eu bod yn Aelodau Lleol mewn perthynas â'r eitem a nodir:

Y Cynghorydd John Pughe (ward Morfa Tywyn - nad oedd yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5.1 C25/0403/09/CR ar y rhaglen

Y Cynghorydd Elin Walker Jones (nad oedd yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitemau 5.2 C25/0705/11/LL a 5.3 C25/0706/11/LL ar y rhaglen

Y Cynghorydd Rhys Tudur (nad oedd yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn eitem 5.4 C25/0710/41/LL ar y rhaglen

Er bod enw'r Cynghorydd Anne Lloyd Jones (oedd yn Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio hwn), yn ymddangos fel Aelod Lleol ar gais 5.1 ar y rhaglen, cadarnhaodd y Swyddog Monitro nad oedd Gwesty'r Corbett Arms (C25/0403/09/CR) o fewn ward y Cynghorydd (Gorllewin Tywyn), ac felly roedd hawl ganddi i gymryd rhan yn y drafodaeth.

3. MATERION BRYD

Fel mater o drefn, adroddwyd, gyda'r Cadeirydd yn ymuno yn rhithiol, mai'r Swyddog Monitro fyddai'n cyhoeddi canlyniad pleidleisiau'r ceisiadau.

4. COFNODION

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd 23ain o Fawrth 2026 fel rhai cywir

5. CEISIADAU CYNLLUNIO

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r ceisiadau canlynol i'w datblygu. Ymhelaethwyd ar fanylion y ceisiadau ac ymatebwyd i gwestiynau mewn perthynas â'r cynlluniau ac agweddau o'r polisïau.

5.1 CAIS RHIF: C25/0403/09/CR

Gwesty Corbett Arms, Sgwâr Corbett, Tywyn, Gwynedd, LL36 9DG

Cais am ganiatâd adeilad rhestredig [LBC] ar gyfer gwaith dad-adeiladu a dymchwel rhannol yr adeilad yn raddol, a'r gwaith cynhaliaeth sydd ei angen i sefydlogi'r strwythur sydd yn weddill

- a) Amlygodd y Rheolwr Cynllunio, wedi derbyn rhagor o wybodaeth, bod cyfanswm y gwaith dymchwel wedi'i leihau a'i fod bellach ond yn berthnasol i ran gefn yr adeilad yn unig.

Eglurwyd bod adeilad yn hen westy, sydd wedi ei restru gradd II, ac o fewn ffin datblygu Tywyn, yn strwythur sylweddol sy'n wynebu Sgwâr Corbett, gyda thalcen sy'n wynebu Stryd Maengwyn ac ychwanegiadau diweddarach i ochr chwith yr adeilad ac i'r cefn. Nodwyd hefyd bod eiddo preswyl cyfagos a'r dalcen yr adeilad ar Stryd Maengwyn. Ystyriwyd bod yr adeilad mewn perygl yn unol â chofrestr Adeiladau Rhestredig sydd Mewn Perygl, a gedwir gan Cadw.

Daeth defnydd o'r adeilad fel gwesty i ben tua 2009, a bu fawr ddim cynnal a chadw ar yr adeilad yn y blynyddoedd wedi hynny. Erbyn hyn, mae'r adeilad yn mynd â'i ben iddo, gyda rhannau o gefn yr adeilad wedi disgyn yn Ionawr a Chwefror 2025.

Cyflwynwyd gyda'r cais adroddiad arolwg strwythurol, methodoleg dymchwel a dadosod yn ogystal ag Aseiad Effaith Treftadaeth. Cyfeiriwyd at ôl troed yr adeilad cyfan oedd wedi'i rannu'n 8 parth er mwyn cyfeirio atynt yn haws. Adroddwyd bod bwriad dymchwel parthau 1-5 yn seiliedig ar sefydlogrwydd strwythurol yr adeilad oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch yn dilyn cwmp diweddar, gyda pharthau 2 a 4 yn ardaloedd a gwmpodd ym mis Ionawr a Chwefror 2025.

Nodwyd bod y cynnig diwygiedig yn gofyn am ganiatâd adeilad rhestredig ar gyfer dymchwel Parthau 1, 2, 4 a rhan o Barth 5 (a nodwyd fel 5A), ynghyd â gwaith cysylltiedig i sefydlogi'r strwythur sy'n weddill a'i ddiogelu rhag y tywydd. Ategwyd bod y cynllun presennol yn cynrychioli gostyngiad sylweddol yng ngraddfa'r gwaith dymchwel a fwriadwyd yn wreiddiol, yn dilyn ymatebion i'r ymgynghoriad a chyflwyno rhagor o wybodaeth strwythurol.

Amlygwyd, wrth benderfynu ar y cais, roedd angen ystyried yn ofalus a fyddai'n ddymunol gwarchod yr adeilad rhestredig, ei leoliad ac unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig sydd gan yr adeilad, yn unol ag adran 96(2) Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023. Ategwyd nad oedd cadw adeilad neu ased hanesyddol yn golygu bod rhaid ei gynnal yn ddigyfnewid, ond bod ei arwyddocâd yn cael ei gynnal ar gyfer y dyfodol; y dyletswydd statudol wedi derbyn cryn bwysigrwydd a phwysau wrth gyrraedd yr argymhelliad.

Mynegwyd y byddai'r gwaith arfaethedig yn arwain at golli ffabrig hanesyddol o fewn y parthau a nodwyd gan achosi niwed i arwyddocâd yr adeilad rhestredig. Fodd bynnag, atgoffwyd yr Aelodau bod Parthau 2 a 4 eisoes wedi disgyn yn rhannol, bod Parth 1 yn cynnwys ystafell haul cyfoes o werth treftadaeth ddibwys, a bod Parth 5A wedi'i gyfaddawdu'n strwythurol ac yn uniongyrchol gysylltiedig â'r ardaloedd sydd wedi cwmpo. Bydd y bwriad yn cadw'r prif ddrychiadau a rhan fwyaf o'r ffabrig hanesyddol sy'n diffinio cymeriad ac arwyddocâd yr adeilad, ac mae'r niwed sy'n deillio o'r cynigion yn cael ei asesu fel llai na sylweddol.

Mynnai bolisi cenedlaethol y dylai dymchwel adeilad rhestredig fod yn rhywbeth eithriadol, a bod y penderfyniad wedi'i gefnogi gan gyfiawnhad clir ac argyhoeddedig; yn cael ei wneud fel dewis olaf yn unig. Cefnogwyd y cais gan wybodaeth arolwg strwythurol, tystiolaeth o gwmpadau diweddar Ionawr a Chwefror 2025, a phryderon parhaus ynghylch ansefydlogrwydd strwythurol a pherygl i ddiogelwch y cyhoedd (yn enwedig o ystyried lleoliad yr adeilad ger priffordd). Ategwyd bod data monitro ac ailasesu dilynol wedi llywio dull diwygiedig sy'n lleihau maint y gwaith dymchwel yn sylweddol ac yn canolbwyntio ar yr ardaloedd hynny sydd eisoes wedi disgyn neu sy'n amlwg yn ansefydlog.

Adroddwyd bod yr Awdurdod wedi ystyried yn ofalus a ellid sefydlogi ac atgyweirio'r adeilad heb waith dymchwel, neu a fyddai llai o ymyrraeth yn ddigonol. Er bod ymgynghorwyr wedi codi pryderon ynghylch digonoldeb sail y dystiolaeth a chwestiynu os oedd y dewisiadau amgen wedi cael eu hystyried yn ddigonol, ystyriwyd bod y cynnig diwygiedig yn adlewyrchu ymateb mwy cymesurol fyddai'n targedu'r elfennau hynny lle nad oes modd eu cadw heb risg annerbyniol. Ar y sail yma, daethpwyd i'r casgliad bod y gwaith arfaethedig yn cynrychioli lleiafswm yr ymyrraeth sy'n angenrheidiol i ddiogelu'r adeilad a bod y prawf "dewis olaf" wedi'i fodloni.

Byddai'r gwaith arfaethedig yn darparu buddion cyhoeddus sylweddol a chdir ac yn yr achos hwn, ystyriwyd bod buddion sefydlogi'r adeilad, mynd i'r afael â phryderon diogelwch ar unwaith gan sicrhau cadw prif ffabrig hanesyddol yr adeilad yn yr hirdymor yn gorbwysu'r niwed sy'n deillio o golli'r ardaloedd sydd wedi'u heffeithio. Ategwyd, fel ystyriaeth berthnasol, heb ymyrraeth, byddai dirywiad a chwymp pellach yn debygol o ddigwydd, gan arwain at niwed sylweddol fwy, gan gynnwys colli'r adeilad yn gyfan gwbl.

Cydnabuwyd bod y porth blaen wedi cael ei dynnu heb ganiatâd adeilad rhestredig ac amlygwyd bod ystyriaeth i'r gwaith anawdurdodedig hwn yn yr asesiad; byddai'n angenrheidiol gosod amod sy'n gofyn am fanylion ar gyfer adfer y porth a'r nodweddion cysylltiedig er mwyn mynd i'r afael â'r niwed.

Roedd y swyddogion yn ystyried bod y bwriad yn cydymffurfio â pholisi cynllunio lleol a chenedlaethol ac yn argymhell caniatáu'r cais gydag amodau.

- b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd gwrthwynebydd i'r cais y sylwadau canlynol:
- Ei fod yn Beiriannydd Strwythurol Siartredig, yn aelod llawn o'r Institute of Historic Building Conservation (IHBC) a'r Conservation Accreditation register for Engineers (CARE). Yn aelod o banel cynghori arbenigol yr Ymddiriedolaeth Cenedlaethol, yn gyfarwyddwr peirianwyr ymgynghorol i gwmni Mann Williams a chanddo dros 30 mlynedd o brofiad o asesu, gofalu ac atgyweirio adeiladau hanesyddol.
 - Ei fod wedi bod yn darparu cyngor cadwraeth strwythurol i SAVE Britains Heritage mewn perthynas â'r Corbett Arms, a'i fod yn siarad ar ran SAVE.

- Ei fod wedi gweithio ar nifer o adeiladau rhestredig mewn gwahanol gyflyrau atgyweirio, ac yn cydnabod yn llawn yr heriau sy'n wynebu'r Corbett Arms. Nid yw'r heriau'n anarferol a gellid mynd i'r afael â hwy. Gellid achub a diogelu'r adeilad.
- Er bod SAVE yn cefnogi'r cynnig arfaethedig gydag amodau, maent yn teimlo bod yr amodau yn agored i ddehongliad ac felly bod angen eglurhad llawnach er mwyn sicrhau bod yr amodau yn gadarn a digonol.
- Tynnwyd sylw at yr amod oedd yn nodi y dylid cyflogi gweithiwr proffesiynol sydd yn gymwys mewn cadwraeth i gyflwyno a chytuno ar fethodoleg fanwl a chynllun graddol o'r gwaith dymchwel, i gynnwys manylion ar gyfer diogelu a gwarchod yr adeilad cyn dechrau'r gwaith.
Nododd bod gan gyrff proffesiynol gymwysterau a chynlluniau achredu sy'n canolbwyntio ar waith adeiladu hanesyddol. I beirianwyr, y cymhwyster yw CARE, sydd yn cael ei weinyddu gan IStructE, ICE ac Engineers Ireland. Fe awgrymwyd bod gan gynghorwyr cyfredol yr achos hwn brofiad 'cyfwerth' - mae hyn yn parhau yn fater o farn ddadleuol. Tybiwyd bod yr amod yn ei gwneud yn ofynnol i beiriannydd cofrestredig CARE gael ei gyflogi gan yr ymgeisydd i gyflawni gofynion methodoleg fanwl sy'n gysylltiedig â pheirianneg. Dylid egluro'r geiriad 'yn addas' er mwyn osgoi amwysedd, dryswch neu gamddealltwriaeth ac ystyriwyd yn hanfodol gosod amod bod peiriannydd cofrestredig CARE yn cael ei gyflogi.
- Yn croesawu bod yr amodau arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol cael methodoleg fanwl a chynllun graddol ar gyfer y gwaith dymchwel, ac i gyflwyno a chytuno ar fanylion diogelu ac amddiffyn yr adeilad cyn i'r gwaith ddechrau. Dylai'r manylion hefyd gynnwys cynllun i adfer y porth a'r ardd o fewn y wal, ynghyd â manylion am ddeunyddiau i'w hadfer.
- Yn cwestiynu er hynny, sut y gellid asesu unrhyw fethodoleg sydd i'w gymeradwyo pan mae'r ymgeisydd yn parhau i wrthod mynediad ar gyfer craffu annibynnol. Dylai gwiriadau priodol i'r fethodoleg gael eu gwirio i sicrhau mai dim ond y gwaith lleiaf angenrheidiol sy'n digwydd.
- Bod SAVE yn ceisio amddiffyn Gwesty'r Corbett Arms.
- Bod cefnogaeth i'r cais i ddatgymalu cyfyngedig hanfodol yn seiliedig ar well eglurhad o'r ymrwymiad cadarn sydd gan yr ymgeisydd i atgyweirio ac amddiffyn yr adeilad.
- Gan weithredu ar ran SAVE, roedd wedi ceisio ymgysylltu'n adeiladol ac yn rhagweithiol gydag ymgynghorwyr y Cyngor, gan gydnabod bod angen gweithredu ar frys i amddiffyn yr adeilad.
- Bod ceisiadau i gael mynediad i adolygu'r adeilad wedi cael eu gwrthod dro ar ôl tro gan yr ymgeisydd a bod unrhyw awgrymiadau oedd wedi eu cynnig i'r ymgynghorwyr wedi cael eu gwrthod. Bod gwrthod ymgysylltu neu ganiatáu mynediad yn diystyru craffu rhesymol.
- Yn nodi bod y porth a'r ardd o fewn y wal wedi cael eu tynnu heb ganiatâd adeilad rhestredig ac felly yn croesawu bod amodau yn ei gwneud yn ofynnol i'w hadfer yn llawn. Fodd bynnag, mae amheuaeth bod tynnu'r elfennau hyn wedi bod yn angenrheidiol, ac ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth i gyfiawnhau'r gwaith anawdurdodedig.
- Byddai darparu manylion yr adferiad yn cael ei ystyried yn amod rhesymol i gymeradwyo'r cais cyfredol

c) Yn manteisio ar yr hawl i siarad nododd yr Aelod Lleol y sylwadau canlynol;

- Bod yr adeilad a'r sefyllfa bresennol gyda sgaffaldiau o gwmpas y safle yn creu aflonyddwch i drigolion y dref
- Bod gwiriadau traffig ar lonydd cul yn creu anrhefn yng nghanol y dref.
- Bod busnesau lleol, yn cynnwys y sinema a'r golchdy, yn colli referniw

- Gyda malurion yn cwmpo, rhaid oedd diogelu'r eiddo, diogelu bythynnod drws nesaf i'r adeilad a diogelu'r cyhoedd. Rhaid gwneud ardal y safle yn ddiogel ac osgoi sefyllfa fyddai yn mynd o ddrwg i waeth - dyma'r flaenoriaeth
- Er bod sgaffaldau i fyny ers 12 mis, trigolion y dref yn deall bod diogelwch yn angenrheidiol
- Wedi cael mynediad i'r adeilad gyda'r Heddlu a'r Gwasanaeth Tân, y difrod yn sylweddol. Difrod dŵr wedi gwneud rhai rhannau yn ansefydlog iawn
- Bod perchennog yr eiddo yn anhysbys
- Bod yr adeilad yn hardd ac eiconig – yr eiddo yn llawn atgofion da
- Bod angen gofal yn ystod y gwaith dymchwel – cais am luniau a diweddariadau cyson
- Dim profeb, felly pwy fydd yn talu am y gwaith adluniad?

ch) Cynigiwyd ac eiliwyd caniatáu y cais

d) Cynigwyd ac eiliwyd cynnal ymweliad safle.

Trafodwyd y cynnig gan amlygu y byddai ymweld â'r safle yn gyfle gwerthfawr i'r holl Aelodau weld yr effaith y mae'r adeilad yn ei ffurf bresennol yn ei gael ar fusnesau ac isadeiledd y dref, ac i gael gwell eglurhad o'r sefyllfa; pa werth fydd dymchwel rhannau o'r adeilad yn ei gael ar y sefyllfa a pha bosibiliadau eraill y gellid eu hystyried.

Mewn ymateb i'r cynnig nododd y Pennaeth Cynorthwyol bod manylion y cais yn seiliedig ar dystiolaeth gan arbenigwyr a pheirianwyr strwythurol. Eglurodd bod y cais yn un anarferol, oherwydd bod sefyllfa wedi codi lle bu rhaid i'r Cyngor gamu i mewn a chymryd cyfrifoldeb dros yr adeilad i sicrhau diogelwch y cyhoedd. Er yn derbyn bod y sefyllfa yn creu aflonyddwch yn y dref, bod hyn o ganlyniad i ymateb ar frys i faterion iechyd a diogelwch. Os bydd y cais yn cael ei ganiatáu yna bydd modd symud ymlaen gan ail ymweld ag ail asesu'r sefyllfa.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chostau sgaffaldau i drethdalwyr, nodwyd nad oedd costau yn ystyriaeth cynllunio ond bod y Cabinet wedi cymeradwyo arian o Gronfa Strategaeth Ariannol y Cyngor i gyllido gwaith i ddiogelu'r adeilad.

Mewn ymateb i sylw a wnaed gan y gwrthwynebydd, bod 'diffyg archwilio i ddewisiadau amgen' a bod angen ymrwymiad i gydweithio gyda SAVE a thynhau amodau i sicrhau'r weithred orau, nodwyd bod barn a sylwadau cyrff allanol wedi eu hystyried a bod y bwriad terfynol wedi ei ddiwygio mewn ymateb i'r sylwadau hynny. Ategodd nad y Cyngor oedd perchennog yr adeilad a bod yr ymateb yn unol â gofyn statudol adeilad rhestredig.

dd) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau;

- Diogelwch pobl Tywyn yw'r flaenoriaeth - rhaid gwneud y safle yn ddiogel
- Ar ôl dymchwel, gellid ailasesu'r sefyllfa ac ystyried y camau nesaf
- Byddai ymweld â'r safle ac ail gyflwyno cais yn oediad pellach i'r broses

e) Pleidleisiwyd ar y cynnig i gynnal ymweliad safle. Disgynnodd y cynnig.

Yn unol â'r drefn, gofynnwyd i'r cynigydd a'r eilydd oedd wedi argymhell caniatáu y cais gadarnhau eu cynnig

f) Gofynnwyd am gadarnhad gan y swyddogion os mai sylwadau Cyngor Tref Tywyn yntau Cyngor Tref Aberdyfi oedd wedi eu cyflwyno 08-07-25 - cadarnhawyd mai sylwadau Cyngor Tref Aberdyfi oedd y rhai a gyflwynwyd.

- ff) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau;
- Mai trist yw gweld bod rhan o'r adeilad yn cael ei ddymchwel, yn enwedig rhan 5A
 - Bod angen symud ymlaen - byddai hyn o leiaf yn ddechrau i'r broses

PENDERFYNWYD: Caniatáu gydag amodau

1. 5 mlynedd
2. Yn unol â'r cynlluniau
3. Cyflwyno a chytuno ar fethodoleg fanwl a chynllun graddol o'r gwaith dymchwel, i gynnwys manylion ar gyfer diogelu a gwarchod yr adeilad cyn dechrau'r gwaith. Dylai'r manylion hefyd gynnwys cynllun i adfer y porth a'r ardd ynghyd â manylion achub deunyddiau.
4. Dylid cyflogi gweithiwr cadwraeth broffesiynol gymwysedig i oruchwylio a chytuno ar y fethodoleg a'r gwaith dymchwel wrth iddynt ddechrau, ac i gael ei gytuno gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) cyn i'r gwaith ddechrau
5. Dylai'r ACLI gytuno yn ysgrifenedig ar fanylion y bolltau angori neu'r angorau pinio cyn iddynt gael eu gosod
6. Cwblhau cofnod adeilad hanesyddol Lefel 3 o Westy'r Corbett Arms. Yn amodol ar uniondeb strwythurol gyda'r adeilad wedi'i wneud yn ddiogel ac yn saff, dylid cynnwys cofnod ffotograffig o'r tu mewn yn y cofnod hwn.

5.2 CAIS RHIF C25/0706/11/CR

Coleg Menai, Adeilad Friars, Coleg Menai, Ffordd Ffriddoedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2TS

Dymchwel estyniadau cefn a chodi estyniad deulawr newydd ynghyd a gwaith tirlunio, codi adeilad beics a sbwriel ac ail-osod y maes parcio.

Tynnwyd sylw at y Ffurflen Sylwadau Hwyr (sylwadau gan Uned Draenio Tir)

- a) Amlygodd y Swyddog Cynllunio mai cais llawn ydoedd gyda bwriad o ddymchwel rhan ddeulawr cefn o'r adeilad a chodi estyniad deulawr newydd modern i alluogi cael ystafelloedd dysgu i fyny at safonau modern. Byddai'r estyniad newydd yn gymysg o frics llwyd golau / coch a chladin alwminiwm coch i gynnwys dwy neuadd darlithio fawr, ystafell ddysgu cyffredinol, toiledau ac ardaloedd eistedd ynghyd a choridorau, grisiau a drysau allanol a lifft newydd. Ar ail lawr yr estyniad bydd gofod o'r ddwy neuadd darlithio ynghyd ag ardaloedd eistedd, toiledau, ystafelloedd offer a storfeydd - i gyd yn cysylltu yn ôl gyda'r prif adeilad. Eglurwyd bod rhan gwaith adfer mewnol o fewn y prif adeilad hefyd yn rhan o'r cais, ond nad oedd angen hawl cynllunio ffurfiol ar gyfer y gwaith, ond ei fod wedi ei asesu o fewn y cais adeilad rhestredig cysylltiedig (C25/0706/11/CR). Ategwyd bod asesiad adeilad rhestredig wedi ei gwblhau ar y gwaith dymchwel ac adeiladau'r estyniadau

Adroddwyd bod yr adeilad yn un sylweddol a thrawiadol iawn, gyda phwyslais ar ei edrychiad blaen. Ni fydd newid i'r edrychiad blaen gan fydd y gwaith dymchwel i gefn yr adeilad yn golygu dymchwel estyniad sylweddol o'r 1930au; fodd bynnag bydd y gwaith dymchwel yn golygu bod modd codi estyniad sy'n darparu gofod pwrpasol ar gyfer sicrhau defnydd hirdymor o'r adeilad gan Brifysgol Bangor fel rhan o'u campws presennol. Nodwyd bod gwaith tirlunio,

ail-osod y ddarpariaeth parcio a chreu mannau beics hefyd yn ffurfio rhan o'r cais gyda bwriad i hwyluso'r cysylltiad drwy greu llwybr newydd i gysylltu safleoedd y Brifysgol.

Saif y safle o fewn ffin ddatblygu Dinas Bangor ond tu allan i'r ardal ganolig. Amlygwyd bod safleoedd y Brifysgol ger y safle ynghyd a thair preswyl cyfagos. Yr adeilad yn adeilad rhestredig gradd II.

O ystyried defnydd blaenorol y safle fel ysgol a choleg, y polisi perthnasol oedd Polisi ISA 3 sy'n datgan y caniateir cynigion ar gyfer cyfleusterau newydd neu estyniadau i adeiladau presennol ar gyfer dibenion academiaidd neu gefnogol cyn belled bod ystyriaeth i raddfa, lleoliad, dyluniad, mwynderau a chluant.

O ran materion dyluniad, ystyriwyd bod yr estyniad wedi ei ddylunio o gwmpas nodweddion presennol yr adeilad oedd yn cynnwys defnydd lliw coch sydd o gwmpas y ffenestri; yn ddyluniad modern cyfoes wedi ei leoli i gefn y prif adeilad fel estyniad atodol. Ategwyd mai'r prif adeilad fyddai'n parhau i fod y prif ffocws, a chyda nodweddion megis y to brig ar yr estyniad yn cyd-fynd a'r hen adeilad, ystyriwyd fod y dyluniad yn dderbyniol ac yn cydymffurfio gyda pholisïau PCYFF 2, PCYFF 3 a PS 20.

Yng nghyd-destun materion trafndiaeth a mynediad, nodwyd bod datganiad trafndiaeth wedi ei gyflwyno gyda'r cais yn mynegi nad oedd bwriad newid nag addasu'r mynediad cerbydol presennol, ond i ail-osod y llecynnau parcio presennol o fewn y safle - nid oedd gan yr Uned Drafnidiaeth unrhyw wrthwynebiad i'r bwriad. Ategwyd, er bod gwasanaethau cludiant cyhoeddus yn pasio'r safle yn aml a bod llwybrau ar gyfer gerddwyr a beicwyr, fodd bynnag, ystyriwyd mai rhesymol fyddai cynnwys amod i gytuno i greu llwybr diogel i feicwyr er mwyn gwella'r sefyllfa gyfredol. Roedd y bwriad yn cyfarch gofynion polisïau TRA 2 a TRA 4 o'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI).

Yng nghyd-destun materion Bioamrywiaeth, nid oedd gan yr Uned Bioamrywiaeth unrhyw wrthwynebiad i'r bwriad wedi iddynt dderbyn a chymeradwyo cynllun yn arddangos lleoliadau'r blychau nythu adar ac ystlumod. Fodd bynnag, amlygwyd pryder dros osodiad dau o'r blychau ar flaen y prif adeilad ac er bod cytundeb gyda'r Uned Bioamrywiaeth i'w hail-leoli, ystyriwyd y byddai gosod amod i gytuno'r lleoliad newydd cyn eu gosod yn dderbyniol. Cyfeiriwyd at sylwadau gan Cyfoeth Naturiol Cymru oedd yn cyd-fynd a hyn, ond yn cynnig amodau perthnasol er mwyn dilyn y mesurau priodol.

Yng nghyd-destun materion Archeolegol, cyfeiriwyd at sylwadau Heneb oedd yn awgrymu, oherwydd gwaith dymchwel ar y safle, gosod amod ar gyfer sicrhau cynllun gweithredu addas o flaen llaw. Ystyriwyd bod hyn yn rhesymol a'r bwriad felly yn cydymffurfio gyda gofynion polisi PS20 o'r CDLI.

Wrth drafod materion Draenio, nodwyd bod bwriad cychwynnol ar gyfer cysylltu'r dŵr wyneb i'r brif garthffos, ond amlygwyd bod Dwr Cymru wedi nodi nad yw hyn yn dderbyniol. Roedd yr Uned Draenio Tir wedi cadarnhau bod y datblygwr bellach wedi cyflwyno cais SAB ar gyfer y datblygiad ond nad oeddynt mewn sefyllfa i gymeradwyo'r cais gan fod angen ymchwiliad pellach. O dderbyn sylwadau newydd gan yr Uned Draenio Tir (ffurflen sylwadau hwyr) oedd yn nodi na ellid sicrhau bod modd delio gyda'r dŵr wyneb o'r safle mewn ffordd dderbyniol,

ac yn unol â gofynion Nodyn Cyngor Technegol 15 heb wybodaeth bellach a chymeradwyaeth Corff Cymeradwyo SDC, diwygiwyd yr argymhelliad.

Tynnwyd sylw at y datganiad iaith oedd wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais gyda'r Uned Iaith wedi darparu sylwadau cadarnhaol. Ystyriwyd mai priodol fyddai gosod amodau i sicrhau bod arwyddion sy'n hyrwyddo'r datblygiad yn ddwyieithog, ac felly yn cydymffurfio gyda pholisi PS 1 a'r CCA perthnasol.

Roedd y Swyddogion yn argymhell caniatáu'r cais gydag amodau yn ddarostyngedig i dderbyn gwybodaeth bellach a sylwadau cadarnhaol gan yr Uned Draenio.

- b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd yr Aelod Lleol y sylwadau canlynol;
- Yn croesawu'r syniad o adeiladu Ysgol Fusnes Albert Gubay, ac yn dymuno pob lwc i Brifysgol Bangor efo'r fenter. Y Brifysgol yn sicr o elwa a rhoi budd i Fangor. Gwych.
 - Serch hynny, nifer o bryderon wedi codi, ac felly'n hoffi gweld amodau pellach ar y cais wrth ei ganiatáu.
 - Yn llwyr gytuno gyda phryderon yr Uned Draenio - angen eu cyfarch cyn symud ymlaen
 - Ei bod wedi ymgynghori'n bersonol a threfnu cyfarfod penodol gyda'i chyd-gynghorwyr ward a swyddogion y Brifysgol, lle mynegwyd pryderon am draffig, dŵr, effeithiau ecolegol ac amgylcheddol, asbestos, aflonyddwch ar drigolion lleol a diffygion y broses ymgynghori'n lleol. Er bod cyfarfod wedi ei gynnal ym Mhontio yn ystod yr haf, ystyriwyd nad oedd hyn yn ddigonol fel ymgynghoriad lleol, a bod angen cyfarch pryderon cymuned Maestryfan sydd wedi ei leoli gyferbyn a'r safle (llythyrwyd holl drigolion Maestryfan yn dilyn y cyfarfod efo'r swyddogion).
 - Gan dynnu sylw at fap o'r safle nodwyd bod y darn tir gyferbyn a hen ysgol Friars yn llecyn o dir a roddwyd i bobl Bangor, mewn ewyllys gan ddoctor lleol. Nodwyd bod cyfamod ar y tir fel na all neb adeiladu arno (y doctor yn gredwr cryf fod angen manau gwyrdd ar drigolion). Hyd 2021, roedd yn ddarn o dir diffaith, lle'r oedd cŵn yn baw a phobl yn defnyddio cyffuriau. Yn 2021, sefydlwyd Grŵp Cymunedol Maestryfan, ac o dderbyn grant, gweithiodd y gymuned yn galed i greu gardd gymunedol, hardd allan o racsyn o dir. Byddai chwalu'r ardd yn chwalu calon y gymuned ac felly angen gofalu nad yw'r holl adeiladu, y baw a'r llwch, yn amharu ar yr ardd.
 - Er nad yn siŵr os oedd ystlumod yn byw yn y coed gerllaw, yn sicr bod adar yn nythu yn y coed ac yn y bocsys nythu sydd o gwmpas yr ardd, ac felly dim eisiau gweld y rhain yn cael eu hamharu.
 - Naratif y gymuned wedi newid ers creu'r ardd - o fod yn gymuned oedd yn teimlo bod pawb wedi anghofio amdani, i fod yn gymuned bositif, obeithiol, yn llawn brwdfrydedd a gofal am ei gilydd. Yr ardd yn symbol o'r gwaith cymunedol dwys sydd wedi, ac yn digwydd yn ddyddiol yng nghymuned Maestryfan; yn symbol o lwyddiant menter gymunedol ac y bydd effeithiau o'i cholli yn bellgyrhaeddol, ac yn ddinistriol i enaid y gymuned.
 - Gwaredu asbestos – yn disgwyl bydd y Brifysgol yn sicrhau nad yw clirio'r asbestos yn cael effeithiau niweidiol ar y gymuned gyfagos.
 - Yn croesawu'r sicrhau nad oedd cynlluniau i ddatblygu'r cae gwyrdd sydd agosaf at yr adeiladwaith.
 - Bod Ffordd Ffriddoedd yn brif ffordd mewn i ddinas Bangor, yn goridor strategol dinesig; yn cynnwys llwybr bysiau penodol mewn ac allan o'r ddinas. Ar oriau brig,

defnyddir y ffordd gan dros 2000 o ddisgyblion ysgol a'u rhieni a'r staff, sydd yn mynd a dod o ddwy ysgol uwchradd, ysgol gynradd, ac ysgol annibynnol - i gyd o fewn tafliad carreg i'r datblygiad. Rhaid, wrth greu Cynllun Rheoli Traffig mewn ac allan o'r safle, ystyried diogelwch plant, ac oedolion, yn gerddwyr, seiclwyr, a gyrrwyr ceir

- Bod nant danddaearol o dan Rhodfa Belmont sy'n rhedeg lawr am y cae chwarae wrth ymyl hen ysgol Friars. Rhaid ystyried hyn wrth gynllunio unrhyw beth yn y cyffiniau ac unrhyw newidiadau yn y llif dwr tanddaearol, dadleoli dŵr wyneb a risgiau llifogydd o ganlyniad i aflonyddu'r tir.
- Yn tynnu sylw bod yr Uned Ddraenio yn cynnig gwrthod y cais tan fod archwiliadau pellach wedi eu cwblhau a'r argymhelliad wedi ei ddiwygio
- Gofynnwyd am yr effaith benodol ar Coed Menai. Er bod sylwadau wedi eu nodi am ystlumod ac adar, nid oedd unrhyw sylwadau tuag at wiwerod a thylluanod gwynion. Angen ystyriaeth i'r rhywogaethau hyn hefyd.
- Mewn egwyddor, o'r farn bod modd cefnogi'r datblygiad, ond bod angen amodau pendant ar nifer o faterion. Yn gofyn i'r Pwyllgor Cynllunio oedi ar wneud penderfyniad, er mwyn caniatáu amser i gyfarch y materion yn llawn neu osod amodau tynn wrth ganiatáu - amodau fydd yn ystyried diogelwch y cyhoedd, effeithiau andwyol ar ecoleg, amgylchedd a'r gymuned leol ac eiddo cyfagos;
 - Cyfarch pryderon yr adran ddraenio'n llawn, gan ystyried y nant danddaearol, patrymau llif dwr yn yr ardal ac ati,
 - gwaredu asbestos yn ddiogel
 - Ystyried a rhoi cynlluniau manwl gerbron i osgoi niweidio'r amgylchedd presennol fyddai'n cynnwys yr ardd gymunedol, adar gerddi cyfagos ac unrhyw rywogaethau gwyllt eraill
 - Diogelwch y Cyhoedd. Bod angen rhoi cynllun gerbron sy'n ystyried dwysedd traffig yn gyffredinol ar Ffordd Ffriddoedd, yn enwedig ar oriau brig
 - Ystyried budd cymunedol teilwng i'r gymuned leol ddifreintiedig hon
 - Gwneud yn iawn / digolledu'r gymuned am unrhyw ddifrod i'r ardd.

c) Cynigiwyd ac eiliwyd caniatáu y cais yn ddarostyngedig i gynnwys amod ychwanegol am gynllun rheoli amgylcheddol cyn dechrau'r gwaith - i gynnwys oriau gwaith, sŵn a llwch

ch) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:

- Bod y buddsoddiad yn un sylweddol i Fangor
- Yn croesawu bod yr adeilad at bwrpas addysg
- Angen sicrhau bod yr ychwanegiadau modern yn gweddu a'r hen adeiladau
- Angen cadw urddas yr adeilad a pheidio tynnu oddi ar yr olwg drawiadol
- Dim eisiau gweld dirywiad pellach i'r adeilad fyddai yn arwain at ei ddymchwel

PENDERFYNWYD caniatáu gydag amodau yn ddarostyngedig i dderbyn gwybodaeth bellach a sylwadau cadarnhaol gan yr Uned Draenio

1. **5 mlynedd**
2. **Unol a'r cynlluniau.**
3. **Amod archeolegol**
4. **Manylion gwydriad eilradd i'w gytuno o flaen llaw.**
5. **Cytuno i ail-ddefnyddio deunyddiau o'r adeilad i'w ddymchwel**
6. **Nwyddau dwr glaw alwminiwm**

7. **Manylion manwl y paneli solar**
8. **Manylion unrhyw oleuadau i'w gytuno**
9. **Manylion unrhyw arwyddion i'w gytuno**
10. **Rhaid cyflwyno manylion y sgrin wrth y grisiau cyn eu gosod**
11. **Rhaid cyflwyno manylion o sut i gofnodi hoel y gampfa cyn eu dymchwel**
12. **Cyflwyno samplau o'r deunyddiau**
13. **Defnyddio calch gydag unrhyw waith pwyntio / render**
14. **Amod priffyrdd**
15. **Amodau Dwr Cymru**
16. **Amodau Iaith**
17. **Amodau Bioamrywiaeth gan gynnwys cytuno mesurau lliniaru a chwblhau'r gwelliannau**
18. **Cytuno Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) cyn cychwyn gwaith – i gynnwys oriau gwaith**

5.3 CAIS RHIF C25/0706/11/CR

Coleg Menai, Adeilad Friars, Coleg Menai, Ffordd Ffriddoedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2TS

Cais adeilad rhestredig i ddymchwel estyniadau cefn a chodi estyniad deulawr newydd ag addasiadau mewnol i'r prif adeilad

- a) Amlygodd y Rheolwr Cynllunio bod rhan o'r prif adeilad, sy'n weladwy o Ffordd Ffriddoedd, yn adeilad deulawr trawiadol iawn o garreg ac wedi ei godi oddeutu 1899. Adroddwyd bod tystiolaeth yn bodoli yn dangos fod yr ysgol wedi esblygu a datblygu dros amser, ac erbyn y 1940au dyma'r adeilad sydd mewn bodolaeth - adeilad wedi ei restru gradd II. Nodwyd bod dau adeilad arall ar wahân yn ffurfio rhan o'r safle, ond nid ydynt yn ffurfio rhan o'r cais.

Y bwriad yw dymchwel y rhan deulawr cefn a ychwanegwyd yn y 1930au a chodi estyniad deulawr newydd, modern er galluogi cael ystafelloedd dysgu i fyny at safonau modern. Byddai'r estyniad wedi ei orffen yn gymysg o bric llwyd golau / coch a chladin alwminiwm coch. Bydd yr edrychiad blaen, sef yr edrychiad deheuol sydd yn wynebu Ffordd Ffriddoedd yn parhau fel y mae, gan mai hwn yw'r darn gwreiddiol. Ar ochr orllewinol y prif adeilad, bwriedir tynnu'r porth ceir presennol ynghyd a thynnu offer peirianyddol awyru oddi ar y to a gosod awyrellau newydd.

Yng nghyd-destun addasiadau mewnol, bwriedir tynnu llawer o waith modern sydd wedi ychwanegu dros amser, cau agoriadau presennol ac agor rhai newydd, tynnu nenfydau ffug, gosod waliau rhannol newydd, tynnu wal fewnol ond cadw'r rhannau ar yr ochr, atgyweirio'r ffenestri ynghyd â thynnu plaster modern oddi ar y waliau. Mae sawl drws gwreiddiol hefyd yn bodoli a bwriedir eu cadw a'i ail-ddefnyddio.

Cyflwynwyd gwybodaeth fel rhan o'r cais oedd yn amlygu bod rhan o'r adeilad a fwriedir ei ddymchwel yn eithaf cyfoes efo'r prif adeilad, fodd bynnag, oherwydd diffyg sylweddol o ran gwaith cynnal a chadw dros amser, nodwyd bod y rhan yma mewn cyflwr gwael ac nid yw maint a gofod yr ystafelloedd yn addas i ofynion y Brifysgol fel neuadd ddarlithio. Ategwyd er bod cofnod helaeth wedi ei wneud o'r adeilad, gyda rhannau cefn yn bwysig o ran datblygiad a hanes y safle, nid yw'n bosib trosi'r rhain i ddefnydd darlithio ac ystyriwyd y byddai eu dymchwel a darparu gofod mwy addas yn darparu dyfodol hir dymor i'r safle. Nodwyd hefyd bod ymdrech wedi ei wneud i ail-ddefnyddio'r deunyddiau o'r rhan sydd i'w

ddymchwel a chadw hoel siâp y gampfa ar y llawr o fewn yr estyniad newydd i gadw tystiolaeth o'r lleoliad. Bydd y gwaith mewnol yn golygu dileu nodweddion anaddas modern ac adfer elfennau hanesyddol a nodweddiadol yr adeilad.

Eglurwyd bod yr estyniad o ddyluniad modern sy'n gweddu nodweddion dyluniad a lliwiau gorffeniad y prif adeilad; y cynllun o'r edrychiad blaen yn dangos rhannau o'r estyniad newydd yn weladwy, ac yn dilyn derbyn gwybodaeth ychwanegol sy'n rhoi ystyriaeth i natur y tir sydd yn codi oddi ar y brif ffordd, ni fydd yr estyniad yn weladwy o'r blaen. Er yn weladwy o'r ochrau eraill, ystyriwyd y byddai hyn yn dderbyniol o ran gweld yr adeilad yn ei gyfanrwydd ac ni fyddai'r estyniad yn tynnu oddi ar edrychiad na phwysigrwydd y prif adeilad, ond yn hytrach yn dangos esblygiad yr adeilad dros amser, fel sydd wedi digwydd gydag estyniadau hanesyddol i'r adeilad.

Wedi ystyried pwysigrwydd a rhoi pwysau sylweddol i'r ddyletswydd statudol i gadw'r adeilad rhestredig, arwyddocâd yr ased, maint y niwed, cyfiawnhad dros y gwaith, a'r buddion cyhoeddus, roedd y Swyddogion yn nodi bod y datblygiad arfaethedig yn cynrychioli ymyrraeth gyfiawn a chymesur ac yn cydymffurfio â pholisïau cynllunio cenedlaethol a lleol. Roedd ynt yn argymhell caniatáu'r cais gydag amodau.

- b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd yr Aelod Lleol ei bod yn gefnogol i'r cais
- c) Cynigiwyd ac eiliwyd caniatáu y cais

PENDERFYNWYD Caniatáu'r cais yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol :

1. **5 mlynedd**
2. **Unol â'r cynlluniau.**
3. **Amodau heneb**
4. **Manylion gwydriad eilradd i'w cytuno o flaen llaw.**
5. **Cytuno i ail-ddefnyddio deunyddiau o'r adeilad i'w ddymchwel**
6. **Nwyddau dŵr glaw alwminiwm**
7. **Manylion manwl y paneli solar**
8. **Manylion unrhyw oleuadau i'w cytuno**
9. **Manylion unrhyw arwyddion i'w cytuno**
10. **Rhaid cyflwyno manylion i sgrin wrth y grisiau cyn eu gosod**
11. **Rhaid cyflwyno manylion o sut i gofnodi hoel y gampfa cyn eu dymchwel**
12. **Cyflwyno samples o'r deunyddiau**
13. **Defnyddio calch gydag unrhyw waith pwyntio / render**

5.4 CAIS RHIF C25/0710/41/LL

Tir cyfochrog â Brynhyfryd / Cae Capel, Chwilog, LL53 6SF

Codi 25 o dai fforddiadwy, creu mynedfa newydd i gerbydau o'r B4354 ynghyd â gwaith cysylltiedig

- a) Amlygodd y Rheolwr Cynllunio bod mwyafrif o ardal y cais llawn yma o fewn safle oedd wedi ei dderbyn a'i glustnodi fel un addas ar gyfer datblygiad preswyl trwy ei ddynodiad ffurfiol yn y CDLI ar gyfer y bwriad penodol yma. Nodwyd bod statws pentref Chwilog (pentref a ddiffinnir fel Pentref Gwasanaeth o fewn y CDLI) yn golygu mai tai newydd ar gyfer gwasanaethu Gwynedd yn ei gyfarwydd sydd yn ddisgwyliedig ar gyfer y safle fel yn achosion safleoedd

cyffelyb eraill sydd wedi eu dynodi trwy'r Sir. Tynnwyd sylw at y ffaith bod rhan yng ngogledd orllewin y safle y tu allan i ddynodiad y ffin datblygu ei hun ac felly ystyriwyd y rhan yma fel safle eithrio.

Eglurwyd bod ffordd gyhoeddus dosbarth 2 y B4354 yn rhedeg yn gyfochrog gyda ffin ogleddol y safle; bod tai preswyl yn ymylu yn uniongyrchol gyda ffin ddwyreiniol y safle, a thai preswyl hefyd yr ochr arall i'r ffordd i'r gogledd. Nodwyd bod rhan o'r safle sydd y tu allan i'r ffin datblygu yn ymylu gyda rhan gogledd orllewin y prif safle ac yn bresennol yn ffurfio rhan o gwrtil eiddo preswyl cyfochrog - fferm Brynhyfryd.

Bydd y cynnig, yn benodol, yn cynnwys 6 fflat un ystafell wely, 9 tŷ dwy ystafell wely, 8 tŷ tair ystafell wely a 2 byngalo dwy ystafell wely – y datblygiad arfaethedig yn cynnig tai 100% o dai fforddiadwy gyda chymysgedd o ran deiliadaeth yn cael ei ddarparu. O ran edrychiad, bydd y tai wedi'u gorffen mewn cymysgedd o ddeunyddiau i gyfleu gwahanol arddulliau ac i amrywio'r edrychiad ar y safle.

Adroddwyd bod y Pwyllgor Cynllunio eisoes wedi cymeradwyo'r egwyddor o ddatblygiad preswyl ar y safle dynodedig yma ar dri achlysur yn y gorffennol, ac fe amlygwyd bod yr ystyriaethau polisi a wnaed i'r ddau gais ddiweddar yn parhau yr un fath – ystyriwyd bod cyfiawnhad ac angen ar gyfer y bwriad, a'i fod yn parhau i gyfarch anghenion y gymuned leol. Cyflwynwyd gwybodaeth fel rhan o'r cais gan yr Uned Strategol Tai yn dangos yr angen yn glir.

Yng nghyd-destun y tir sydd y tu allan i'r ffin datblygu a'r dynodiad sy'n ffurfio safle eithrio, eglurwyd mai gofynion polisi TAI 16 oedd yn berthnasol i'r elfen yma o leoli 4 tŷ yn y rhan yma o'r safle (2 dŷ tair ystafell wely, 1 tŷ dwy ystafell wely ac 1 byngalo dwy ystafell wely). Ategwyd, o ran ystyriaeth i'r galw am y 4 tŷ, mae diffiniad lleol ar eu cyfer sy'n cynnwys pentref Chwilog ei hun ynghyd a'r ardal wledig gyfagos (sef pellter o 6km o safle'r cais a holl ardal unrhyw Gyngor Cymuned sy'n cael ei rhannu gan y pellter 6km, gan eithrio eiddo o fewn ffin ddatblygu unrhyw anheddiad oni bai am yr anheddiad hwnnw lle mae'r cais wedi'i leoli). Amlygwyd bod gwybodaeth ar gyfer yr angen am dai fforddiadwy wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais cynllunio ac y byddant yn cael eu darparu fel tai ar rent canolraddol a chymdeithasol - byddai 2 uned dwy ystafell wely ar gyfer rhent cymdeithasol ar gyfer angen lleol yn Chwilog.

Nodwyd bod ffigurau angen ar gyfer Chwilog (rhent cymdeithasol) yn dangos rhai sydd a chysylltiad lleol gyda 7 ar y rhestr sydd angen ty 2 ystafell wely a gyda chysylltiad lleol. Yng nghyd-destun y 2 dŷ fyddai'n cael eu gosod ar rent canolraddol, mae gwybodaeth oddi ar restr Tai Teg yn cadarnhau bod 3 ar y rhestr yn byw yn Chwilog a gyda chysylltiad lleol, ac felly yn gymwys ar gyfer yr unedau. Ar sail y wybodaeth sydd wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais, ystyriwyd bod angen addas wedi ei gadarnhau ar gyfer y datblygiad, a bod y rhan o'r bwriad sydd wedi ei leoli y tu allan i'r ffin, yn ffurfio estyniad rhesymegol i'r pentref.

Yng nghyd-destun yr Iaith Gymraeg, roedd yr Uned Iaith yn eu hymateb i'r ymgynghoriad, yn datgan fod yr asesiad ieithyddol a gyflwynwyd yn gynhwysfawr, gan edrych ar hanes datblygiadau yn yr ardal, ardal astudiaeth gynhwysfawr a dadansoddiad o'r sefyllfa ieithyddol gyfredol. Roeddynt hefyd yn nodi fod y datganiad yn cynnwys rhagdybiaethau rhuglder darpar denantiaid, a'r effaith ieithyddol posib, a bod yr asesiad wedi cadarnhau'r angen yn lleol. Cydnabuwyd bod pryderon wedi eu codi ynglŷn â'r bwriad, ond nad oedd tystiolaeth anatebol wedi ei gyflwyno i ddangos y byddai'r bwriad yn cael effaith niweidiol ar yr iaith. O ganlyniad, ystyriwyd bod y bwriad yn dderbyniol o ran polisi PS1 a'r canllaw cynllunio atodol perthnasol.

Yng ngyd-destun mwynderau cyffredinol a phreswyl, nodwyd bod y safle wedi ei leoli ar gyrion y pentref a ni ystyriwyd y byddai'n cael effaith weledol sylweddol ar y dirwedd ac y byddai yn ffitio o fewn cyd-destun adeiledig yr ardal bresennol a chydweddu gyda gweddill y pentref. Roedd y adroddiad hefyd yn cynnwys asesiad llawn o'r bwriad diwygiedig ar fwynderau cyffredinol a phreswyl, ac ni ystyriwyd fod y bwriad yn debygol o gael effaith andwyol sylweddol ar y trigolion cyfagos.

Ategwyd bod materion trafndiaeth, bioamrywiaeth, isadeiledd ac archeolegol, wedi derbyn sylw ac asesiad llawn ac ystyriwyd fod y materion yn dderbyniol yn ddarostyngedig i amodau cynllunio.

Yng nghyd-destun llecynnau agored, cyferiwyd at y cynllun arfaethedig oedd yn cynnwys darparu man agored cyhoeddus yng nghornel de dwyreiniol y safle fyddai hefyd yn cynnwys ardal draenio gynaliadwy. Eglurwyd, gan nad oedd posib darparu cyfarpar chwarae ar y rhan yma, bydd cyfraniad ar gyfer darparu cyfarpar mewn lleoliad arall yn berthnasol.

Yng nghyd-destun materion addysgol, nodwyd bod capasiti ar gael o fewn yr Ysgol leol mewn cyswllt a'r datblygiad yma, ond fel sydd wedi digwydd ar gyfer y safleoedd eraill a ddynodwyd o fewn pentref Chwilog fe'i hystyriwyd yn hanfodol fod y tri safle a ddynodwyd yn cael ystyriaeth o ran yr effaith ar addysg yn lleol. O ganlyniad, amhosib fyddai darogan pa safle fyddai'n cael ei ddatblygu yn gyntaf ac na fyddai'n rhesymol i'r datblygwr cyntaf dalu cyfraniad uwch. Felly er tegwch, penderfynwyd y byddai'r cyfraniadau yn cael eu rhannu yn gyfartal fel y byddai'r tri safle dynodedig yn wynebu'r un costau, ac i'r perwyl hyn roedd angen cyfraniad addysgol ar gyfer y cais.

Ystyriwyd fod y bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion polisïau lleol a chenedlaethol ac felly roedd y swyddogion yn argymhell caniatáu'r cais yn ddarostyngedig i gytundeb 106 neu unochrog ar gyfer cyfraniad llecyn agored ac addysgol ac i amodau perthnasol.

- b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd gwrthwynebydd i'r cais y sylwadau canlynol;
- Bod mwyafrif o bobl Chwilog yn erbyn y cais
 - Bod llawer o stadau wedi eu hadeiladu'n barod yn y pentref yn y blynyddoedd diwethaf ac y byddai adeiladu mwy yn cael effaith negyddol ar y gymuned, yn cynnwys yr ysgol a'r iaith Gymraeg
 - Nad oedd digon o gyfleusterau yn y pentref i ganiatáu mwy o bobl yn y pentref - dim siop, swyddfa bost na gwasanaeth bws rheolaidd
 - Pryderon iechyd a diogelwch am asesiad risg y safle - bod y palmant o'r fynedfa yn gorffen ar ffin clawdd y 'telephone exchange'. Golygai hyn bydd trigolion fydd yn defnyddio'r palmant yn gorfod camu allan i'r ffordd i barhau a'u siwrne - peryg iawn i'r henoed, yr anabl a phlant
 - Ar ran Cadnant, bod cwmni o'r enw SAP Transport Planning wedi gwneud arolwg o ran nifer, maint a chyflymdra cerbydau sydd yn mynd i fyny a lawr y pentref - y data yn amlygu, o gyfeiriad Y Ffor, ymddengys bod 85% o gerbydau yn gwneud mwy na 20mya ac o gyfeiriad Cricieth, bod 60% yn gwneud dros 20mya - hyn angen sylw Uned Priffyrdd y Cyngor. Yr arolwg wedi ei gwblhau ym mis Chwefror, mis distawaf y flwyddyn, a phetai wedi ei gynnal ym misoedd prysuraf yr Haf, byddai hyn yn cyflwyno casgliadau gwahanol iawn ac yn amlygu bod y datblygiad wedi ei leoli ar ochr ffordd brysur iawn
 - Bod y Cyngor wedi altro'r twmpathau cyflymder yn y pentref a bod angen arolwg pellach i brofi bod y twmpathau wedi gwneud gwahaniaeth i arafu cyflymder traffig.
- c) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd yr asiant y sylwadau canlynol:

- Bod y cais yn cael ei gyflwyno ar y cyd rhwng Grŵp Cynefin a Williams Homes Y Bala i gyfarch yr angen cynyddol am dai fforddiadwy.
- Bydd y datblygiad yn cael ei arwain gan Grŵp Cynefin gyda chefnogaeth Grant Tai Llywodraeth Cymru o dan reolaeth Cyngor Gwynedd drwy raglen datblygu - y grant wedi ei glustnodi i ddatblygu'r cynllun o fewn y flwyddyn ariannol yma
- Bod rhan fwyaf o'r safle o fewn dyraniad tai'r CDLI ac wedi ei ddynodi ar gyfer 20 o dai
- Bod caniatâd cynllunio ar gyfer 21 o dai, i gynnwys 7 tŷ fforddiadwy ar y safle ers 2017, sydd wedi ei adnewyddu yn 2022 ac yn parhau'n ddilys a gall ei weithredu - y caniatâd wedi ei gymeradwyo yn unol â'r CDLI sydd yn parhau yn weithredol ac felly'r sefyllfa rhwng y caniatâd cyfredol a'r cais dan sylw yn gymharol ac yn fater cynllunio perthnasol i'w ystyried gan y pwyllgor
- Bod Cynefin wedi cydweithio'n agos gyda'r Adran Tai i sicrhau bod y math a'r cymysgedd tai yn cefnogi'r Strategaeth Tai ac yn ymateb i'r argyfwng tai
- Bod yr Uned Strategol Tai wedi cadarnhau bod y bwriad yn cyfarch yr angen am dai
- Bod ymgynghori helaeth wedi bod yn gyhoeddus; wedi cyfarfod gyda'r Cyngor Cymuned a'r Aelod Lleol cyn cyflwyno cais; wedi trafod gyda'r Adran Cynllunio ac ymgynghorwyr statudol
- Bod trafodaethau gyda'r Adran Priffyrdd wedi arwain at newidiadau megis gwella diogelwch ffyrdd drwy uwchraddio 'speed cushion' gerllaw i fod yn 'raised table' a gosod man croesi ffurfiol i gerddwyr
- Bod asesiad ieithyddol cynhwysfawr wedi ei gyflwyno ac nad oedd tystiolaeth y byddai'r bwriad yn cael effaith niweidiol ar yr Iaith – yn cyfarch Polisi PS1
- Bod y Polisi Gosod yn cyfarch cysylltiadau lleol a chanran uchel o siaradwyr Cymraeg - y polisi wedi derbyn ystyriaeth gan Comisiynydd yr Iaith oedd wedi nodi bod y polisi yn gwbl briodol
- Byddai'r bwriad yn darparu tai i bobl leol.

ch) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd yr Aelod Lleol y sylwadau canlynol:

- Ei fod yn gwrthwynebu'r cais
- Bod y Cyngor Cymuned yn unfrydol wedi gwrthod y cais
- Bod bron pawb o'r pentref yn erbyn y datblygiad - deiseb wedi ei llofnodi gan 160 o drigolion mewn byr amser (nifer sylweddol mewn pentref o faint Chwilog). Bod seiliau clir, priodol dros wrthwynebu ar y ddeiseb - y bwriad yn ddatblygiad mawr; nad oedd tystiolaeth o'r angen lleol o'r raddfa yma; byddai'n newid cymeriad y pentref; yn arwain at effaith ieithyddol andwyol; yn cael effaith ar draffig ac isadeiledd
- Dim e-bost yn nodi sylwadau llawn y Cyngor Cymuned wedi ei gynnwys yn yr adroddiad, ond gwybodaeth y datblygwr yn cael ei gynnwys yn llawn - dim chwarae teg i lais y gymuned leol - hyn yn sail ynddo'i hun i wrthod
- Bod sawl sail gwrthod:
- Twf nas rhagwelwyd yn iawn ac yn anghydnaws a Polisi TAI3 - hwn yn ddatblygiad o raddfa fawr ac yn mynd i newid y pentref
- Yn groes i bolisi ISA2 ac ISA 1 - nid oes isadeiledd priodol yn ei le, dim llawer o wasanethau a dim lle digonol yn yr ysgol leol. Bod lefelau traffig yn uchel a dim llwybrau addas allan o'r pentref i fannau eraill
- Dynodiad tai Chwilog yn y CDLI yw 38, ond bod 36 eisoes wedi eu hadeiladu yn ystod bywyd y CDLI cyfredol. Byddai 25 ychwanegol ymhell dros y dynodiad o 38 fyddai'n arwain at or-ddatblygu - cynnydd o 10% yn stoc tai y pentref a bron yn dyblu'r stoc tai cymdeithasol mewn un cais
- Methiant bodloni Polisi PS1 a TAN 20 - angen asesiad trylwyr ac ystyrion o'r effaith ieithyddol - dim modelu meintiol effaith 25 uned na mesurau lliniaru yn cael eu hargymell e.e., polisi gosod lleol. Yn ogystal, nid oedd cynllun gweithredu ar gyfer y

datblygiad gyda'r Gymraeg na thystiolaeth sut caiff cymeriad ieithyddol Chwilog ei ddiogelu. Hyn yn gwneud y datblygiad yn groes i PSI, TAI 3 ac egwyddorion TAN 20. Dim ystyriaeth i ostyngiad canran siaradwyr dros amser gyda throsiant tai nac ystyriaeth i drigolion y tai newydd (yn fwy na thebyg, nid yw'r rhain wedi eu dilysu yn llwyr gan y Cyngor Sir). Nid yw'r data chwaith yn dilysu iaith aelwydydd na defnydd iaith y pentref. Chwilog ymysg yr uchaf yn Nwyfor gyda 80% o siaradwyr Cymraeg - y cais yn groes i PS 1 is-gymal 4. Ni ddylid caniatáu ceisiadau fydd yn gwneud niwed ieithyddol - hwn yn ddatblygiad rhy fawr, yn rhy fuan sydd yn bygwth capasiti ieithyddol y pentref

- Yn groes i Polisi TA1 8 is-gymal 4 - lle dylid sicrhau cymysgedd cywir o dai a deiliadaeth i ddiwallu anghenion cymunedol presennol yr ardal - does dim cymysgedd o ddeiliadaeth - yn dyblu'r stoc tai cymdeithasol mewn un cais
- Bod y data yn groes i'r hyn sy'n cael ei argymhell gan Polisi Cynllunio Cymru – sef yr angen am ddata lleol wedi ei berthnasu yn lleol - yma ceir data o ddiddordeb rhanbarthol eang sydd yn rhoi cam argraff o wir angen y pentref
- Y tai tu allan i'r ffin datblygu - Polisi TAI 16 yn nodi bod rhaid iddynt fod yn ddarostyngedig i gymal preswylfa leol. Addewid sydd yma - addewid gwag? Angen amod lleol 106 i sicrhau bod y 4 tŷ i bobl leol
- Bod sawl sail i wrthod y cais ac felly'n annog y Pwyllgor i'w wrthod

d) Cynigiwyd ac eiliwyd caniatáu y cais

dd) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:

- Bod y bwriad yn rhan o Strategaeth Tai Gwynedd
- Mwyafrif o'r safle o fewn y ffin datblygu
- Bod caniatâd eisoes yn bodoli ar y safle ar gyfer 21 o dai
- Bod 79 o enwau ar y rhestr tai
- Y bwriad yn cynnig 100% o dai fforddiadwy
- Cymysgedd priodol o dai
- Bod angen asesiad iaith gadarn a thrylwyr. Y datganiad ieithyddol wedi ei gyflwyno gan y datblygwr - sut felly gellid dod i gasgliad pendant?
- Pryder am yr effaith ar yr iaith Gymraeg. Gall dyfodiad eraill i'r pentref danseilio'r boblogaeth Gymraeg sydd eisoes yn y pentref
- Bod methiant i gydymffurfio gyda Polisi TAI 3 - bod angen i'r datblygiad fod yn gymesur a graddfa'r pentref
- Bod rhai unedau tu allan i'r ffin datblygu - angen mecanwaith yn ei le i sicrhau bod cytundeb 106 arnynt
- Yn groes i Bolisi PCYFF 2 – yn creu effaith andwyol ar y gymuned leol
- Bod 36 tŷ eisoes wedi eu hadeiladu. Capasiti y pentref, yn unol ar CDLI, oedd 38. Byddai unrhyw beth yn fwy na 38 yn ormod ac ni fydd Chwilog yn gallu cefnogi'r gymuned
- Bod unrhyw ddatblygiadau tai angen ffitio yn rhesymol i'r pentref - 25 yn ormod yn rhy sydyn
- Bod angen edrych ar Bolisi Gosod Tai Gwynedd
- Byddai'r caniatâd cyfredol o 7 tŷ fforddiadwy wedi bod yn dderbyniol - pam dim parhau gyda hyn?
- Sut mae tystiolaethu'r angen lleol? Angen asesiad manwl lleol wedi ei gefnogi gan ymchwil eang - pam nad oes sylwadau gan yr Hwylusydd Tai Lleol?
- Yn gyffredinol, nid yw unedau ar gyfer 1 person yn hawdd i'w llenwi
- Nid yw'r cyfraniad addysgol yn ddigonol

- Bod y tai wedi eu gwasgu at ei gilydd – hyn yn debygol o arwain at anghydfod rhwng tenantiaid
- Nad oedd sicrwydd o'r cyfiawnhad i dai lleol yn y safle eithriedig
- Bod y Cyngor Cymuned wedi gwrthod y cais yn unfrydol
- Amheuaeth am y 'galw lleol' am dai
- Nad oedd lle digonol yn yr ysgol
- Bod Cymdeithasau Tai yn 'arwain' ar yr hyn sydd orau - onid y farn leol sydd bwysicaf? Y farn leol yn yr achos yma yn hollol glir - 25 o anheddau yn ormod i bentref o faint Chwilog. Angen gwrandao ar lais y gymuned leol – deiseb wedi ei chyflwyno
- Bod Chwilog yn ardal o arwyddocâd ieithyddol Gymraeg
- Tai cywir yn y lle anghywir. Newid rhy fawr yn rhy gyflym fydd yn cael effaith ar gymeriad y pentref

- e) Mewn ymateb i'r sylwadau nododd y Pennaeth Cynorthwyol bod gwybodaeth am gyflenwad dangosol Chwilog wedi ei egluro yn glir yn yr adroddiad ynghyd â thystiolaeth am yr angen - bod cyfiawnhad penodol am yr angen sirol wedi ei dystiolaethau a'r rhesymeg dros y 4 tŷ (sydd wedi eu lleoli tu allan i'r ffin datblygu) fydd yn gyfyngedig i'r angen lleol. Ategodd bod sylwadau'r Uned Iaith yn nodi bod y datganiad ieithyddol a gyflwynwyd yn un manwl.

Ategodd y Swyddog Monitro mai rôl statudol y Pwyllgor oedd gwneud penderfyniadau gwrthrychol ar sail tystiolaeth. Nododd y byddai'r 4 tŷ ar y safle eithrio gydag amodau penodol yn unol â gofynion; bod hanes cynllunio yn amlygu bod caniatâd eisoes wedi ei roi ar gyfer 20 o dai ar y safle dynodedig fyddai'n cynnwys 7 tŷ fforddiadwy. Gyda thystiolaeth am yr angen a barn wedi ei fynegi am effaith ar yr iaith, rhaid i'r pwyllgor gyflwyno tystiolaeth i'r gwrthwyneb os am wrthod y cais.

- f) Gwnaed cynnig am bleidlais gofrestredig:

Yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn, cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y cynnig i ganiatáu'r cais:-

O blaid: 3 - Cyngorwyr Elwyn Edwards, Edgar Owen, Anne Lloyd Jones

Yn erbyn: 10 - Cyngorwyr Elin Hywel, Cai Larsen, Gareth A Roberts, Berwyn Parry Jones, Delyth Lloyd Griffiths, Gareth Tudor Jones, Huw Rowlands, Louise Hughes, John Pughe Roberts a Gruffydd Williams

Yn atal: 0

Disgynnodd y cynnig.

Cynigwyd ac eiliwyd gwrthod y cais ar sail diffyg angen am y tai fforddiadwy sydd wedi eu lleoli ar y rhan o'r safle sy'n ffurfio safle eithrio

Mewn ymateb nododd y Pennaeth Cynorthwyol, petai'r cais yn cael ei wrthod byddai yn cyfeirio'r cais i gyfnod o gnoi cil.

PENDERFYNWYD Gwrthod y cais yn groes i'r argymhelliad

Rheswm: Ar sail diffyg angen am y tai fforddiadwy sydd wedi eu lleoli ar y rhan o'r safle sy'n ffurfio safle eithrio

O ganlyniad, bydd y cais yn cael ei gyfeirio at gyfnod cnoi cil ac yn dychwelyd i'r Pwyllgor ar ddyddiad arall gydag adroddiad yn amlygu risgiau sydd yn codi o'r rheswm gwrthod yma a'r rhesymau a nodwyd gan yr Aelod Lleol yn ystod y Pwyllgor.

5.5 CAIS RHIF C25/0947/25/EIA

Is-orsaf Pentir, Bangor, LL57 4ED

Amnewid ceblau tanddaearol presennol a gosod ceblau tanddaearol traws-safle newydd yn is-orsaf bresennol Pentir yn ogystal â gwaith cysylltiol

Tynnwyd sylw at y ffurflen sylwadau hwyr - cyfarwyddyd i osod amod gan Uned Trafnidiaeth Y Cynulliad

- a) Amlygodd y Swyddog Cynllunio bod y bwriad yn rhan o brosiect ehangach ar gyfer atgyfnerthu llinellau uwchben a cheblau ar y cylchedau presennol rhwng is-orsafoedd Pentir a Thrawsfynydd; y Prosiect yn rhan o'r uwchraddiadau trawsyrru rhwydwaith ehangach sydd eu hangen i hwyluso'r gwaith o gysylltu 50 Gigawat o ynni gwynt ar y môr erbyn 2030.

Eglurwyd y byddai'r gwaith arfaethedig yn cael ei gynnwys yn llwyr o fewn ôl-troed presennol Is-orsaf Pentir ac yn defnyddio'r ffordd fynediad presennol, yr ardaloedd storio, y cyfleusterau lles, ystafelloedd swyddfa, a'r maes parcio staff. Cyfeiriwyd at y Datganiad Amgylcheddol oedd yn darparu trosolwg o'r Prosiect, y prif ddewisiadau amgen a gafodd eu hystyried wrth ddatblygu'r Prosiect (lle bo'n briodol), gwybodaeth am yr amgylchedd presennol, ac asesiad o effeithiau arwyddocaol tebygol y Prosiect. Lle bo'n briodol, nodwyd bod mesurau lliniaru wedi cael eu cynnwys i osgoi, atal, lleihau neu wrth bwysio effeithiau amgylcheddol niweidiol arwyddocaol.

Bydd cynyddu capasiti ar y llinell drawsyrru bresennol rhwng is-orsafoedd Pentir a Thrawsfynydd yn cael ei nodi fel cam y mae angen ei gymryd ar frys i ddarparu mwy o gapasiti trawsyrru, ac yn cael ei gydnabod gan Ofgem

Cyfeiriwyd at bolisi ISA 1 sydd yn gefnogol i gynigion am wasanaethau dŵr, trydan, nwy ac ati i wella'r ddarpariaeth leol, yn amodol ar ystyriaethau cynllunio manwl. Yng nghyd-destun polisi ADN 3, er nad yw'r datblygiad yn gynllun ynni adnewyddadwy ynddo'i hun, byddai'n ffurfio rhan o'r rhwydwaith cefnogol a ellid ei ddefnyddio wrth reoli'r cyflenwad adnewyddadwy. I'r perwyl hynny gellid ei ystyried yn rhan o'r rhwydwaith ynni adnewyddadwy. Gwnaed asesiad trylwyr o'r meini prawf perthnasol ac ystyriwyd bod y cynnig yn dderbyniol o ran egwyddor ac yn cydymffurfio gyda Maen Prawf 1 Polisi ADN3 o safbwynt bod yr holl effeithiau wedi eu lliniaru yn ddigonol. Yn yr un modd nodwyd bod polisiâu PCYFF 5, PS 5, PS 6 a PS 7 yn gefnogol o gynlluniau i ddatblygu technolegau adnewyddadwy sy'n cyfrannu tuag at amddiffyn yr amgylchedd a lliniaru newid hinsawdd a'r cynllun yma felly yn cwrdd gydag amcanion y polisiâu hyn.

Yng nghyd-destun materion trafndiaeth a mynediad, unwaith y bydd yn weithredol weithredol, ni fydd unrhyw alw am fynediad cerbydol ychwanegol i'r safle ac ni fydd unrhyw effeithiau hirdymor ar ddiogelwch y briffordd yn deillio o'r datblygiad. Nodwyd bod Uned Trafnidiaeth Y Cynulliad yn fodlon gyda'r datblygiad yn ddarostyngedig i amodau ac o ganlyniad ystyriwyd

fod y bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion Polisi TRA 2 a TRA 4 o'r CDLI o safbwynt diogelwch a hwylustod y briffordd.

O ran materion treftadaeth ac archaeoleg, amlygwyd bod nifer o Henebion Rhestredig yng nghyffiniau'r safle. Nododd Heneb bod yr asesiad desg yn un trylwyr iawn ac wedi'i ysgrifennu'n dda ac roeddynt yn cytuno a chasgliad yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA); y cais felly yn dderbyniol o dan bolisiau PS 20 - effaith ar nodweddion treftadaeth ac AT 4 y CDLI - amddiffyn safleoedd o bwysigrwydd archeolegol rhag niwed.

Cyflwynwyd Datganiad Iaith Gymraeg fel rhan o'r cais oedd wedi ystyried effeithiau posibl gwaith arfaethedig Pentir ar y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned leol. Er na nodwyd unrhyw effeithiau andwyol yn yr asesiad, cynigiwyd mesurau i sicrhau bod y defnydd o'r Gymraeg yn cael ei gynnal. Cyflwynwyd hefyd Ddatganiad Amgylcheddol oedd wedi asesu'r effaith ar yr amgylchedd, a daethpwyd i'r casgliad, gydag amodau cynllunio, y byddai modd lliniaru yn erbyn effeithiau'r datblygiad yn foddhaol, ac y gellir gwarchod nodweddion amgylcheddol.

Ystyriwyd bod yr effeithiau gweledol a thirwedd yn dderbyniol oherwydd bod y gwaith o fewn safle sydd wedi ei ddatblygu eisoes a bod y datblygiad yn diogelu mwynderau eiddo preswyl o amgylch y safle yn foddhaol.

Adroddwyd y byddai'r datblygiad arfaethedig yn ymestyn ac yn gwella cysylltiadau trydan ar draws Gogledd Cymru gyda'r buddion economaidd wedi'u cydnabod. Wedi ystyried yr holl faterion cynllunio perthnasol, gan gynnwys polisiau a chanllawiau lleol a chenedlaethol, roedd y swyddogion yn argymhell caniatáu'r cais gydag amodau

- b) Yn manteisio ar yr hawl i siarad, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd y sylwadau canlynol:
- Bod y cais yn cynnwys gwaith fydd yn digwydd o fewn Is-orsaf bresennol Pentir National Grid ac yn rhan o'r Prosiect Pentir i Trawsfynydd fydd yn atgyfnerthu ac adnewyddu'r llinell bresennol rhwng Pentir a Thrawsfynydd.
 - Bydd y gwaith yn darparu mwy o gapasiti yn y rhwydwaith, ac yn caniatáu i'r rhwydwaith fod yn fwy diogel drwy alluogi mwy o ynni glân i gyflenwi cartrefi a busnesau.
 - Bydd y gwaith sydd yn ffurfio rhan o'r cais fel arfer yn cael ei ystyried fel 'datblygiad a ganiateir'. Fodd bynnag, oherwydd bod y gwaith yn ffurfio rhan o'r Prosiect Pentir i Trawsfynydd, gyda cheisiadau cynllunio i ddod gerbron y Pwyllgor Cynllunio yn y misoedd nesaf, mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith.
 - Bydd y gwaith sydd yn cael ei gynnis fel rhan o'r cais yn digwydd o fewn ffiniau presennol safle Is-orsaf Pentir ac yn cynnwys amnewid y ceblau dan ddaear presennol ynghyd a gosod ceblau dan ddaear newydd ar draws y safle.
 - Bod y swyddogion cynllunio yn mynegi bod y gwaith yn dderbyniol ac yn argymhell caniatáu gydag amodau.
 - Ei fod yn gofyn yn garedig i'r Pwyllgor gefnogi'r cais, sydd yn ffurfio rhan allweddol o'r gwaith i atgyfnerthu'r rhwydwaith rhwng Pentir a Thrawsfynydd
- c) Nododd y Swyddog Monitro bod yr Aelod Lleol (y Cynghorydd Menna Baines) wedi nodi mewn e-bost nad oedd ganddi wrthwynebiad i'r argymhelliad.
- ch) Cynigiwyd ac eiliwyd caniatáu y cais

PENDERFYNWYD Caniatáu gydag amodau

1. 5 mlynedd
2. Yn unol â'r cynlluniau, hol argymhellion y dogfennau ac asesiadau, a'r Datganiad Amgylcheddol a gymeradwywyd
3. Amodau Gwarchod y Cyhoedd
4. Amodau Cefnffyrdd
5. Cydymffurfio â'r Datganiad Seilwaith Gwyrdd ynghyd a gwaith cynnal a chadw i'r dyfodol.
6. Sicrhau arwyddion dwyieithog gyda'r flaenoriaeth i'r Gymraeg.
7. Rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol Gynllun Rheoli Traffig Adeiladu (CTMP) fydd yn bodloni Llywodraeth Cymru, fel Sefydliad Goruchwylio ar gyfer y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (SRN).

Dechreuodd y cyfarfod am 13.00 a daeth i ben am 15:50

CADEIRYDD

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

Rhif: 1

Rhif y Cais: C25/0949/36/EIA

Dyddiad 24/12/2025

Cofrestru:

Math y Cais: Asesiad Effaith Amgylcheddol

Cymuned: Garndolbenmaen

Ward: Dolbenmaen

Bwriad: Cais ar gyfer darparu is-orsaf newydd ynghyd â seilwaith a gwaith cysylltiol i gynnwys ffordd mynediad newydd o'r A487 ac uwchraddio ffordd mynediad amaethyddol a gosod ceblau tanddaearol 132 kV newydd er mwyn cysylltu gyda'r llinell Rhwydwaith Trydan presennol uwchben.

Lleoliad: Tir i'r de o'r A487, Glan Dwyfach, Garndolbenmaen, LL51 9PQ

Crynodeb o'r Argymhelliad: DIRPRWYO'R HAWL I GANIATÁU GYDA AMODAU YN DDAROSTYNEG I DDERBYN YMATEB CADARNHAOL GAN YR UNED CEFNFFYRDD

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

1. Disgrifiad:

- 1.1 Cais yw hwn am is-orsaf newydd arfaethedig ynghyd â seilwaith a gwaith cysylltiol i gynnwys ffordd mynediad newydd o'r A487 ac uwchraddio ffordd mynediad amaethyddol a gosod ceblau tanddaearol 132kV newydd er mwyn cysylltu gyda'r llinell Rhwydwaith Trydan presennol uwchben.
- 1.2 Mae'r bwriad hwn yn rhan o brosiect ehangach sy'n cwmpasu atgyfnerthu llinellau a cheblau uwchben ar y cylchedau presennol rhwng is-orsafoedd Pentir a Thrawsfynydd yng ngogledd-orllewin Cymru. Mae'r Prosiect yn rhan o'r uwchraddiadau trawsyrru rhwydwaith ehangach sydd eu hangen i hwyluso'r gwaith o gysylltu 50 Gigawat (GW) o ynni gwynt ar y môr erbyn 2030. Mae cynyddu capasiti ar y llinell drawsyrro bresennol rhwng is-orsafoedd Pentir a Thrawsfynydd wedi cael ei nodi fel cam y mae angen ei gymryd ar frys i ddarparu mwy o gapasiti trawsyrro. Mae hyn yn cael ei gydnabod gan Ofgem (rheoleiddiwr ynni Prydain Fawr), sydd wedi nodi bod y gwaith angenrheidiol yn Fuddsoddiad Trawsyrru Strategol Cyflym (ASTI).
- 1.3 Mae angen caniatâd cynllunio llawn gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol perthnasol ar gyfer:
- Pentir – Amnewid ceblau tanddaearol presennol; gosod ceblau tanddaearol traws-safle newydd yn is-orsaf bresennol Pentir; a gwaith ategol. Cyflwynwyd cais cynllunio o dan gyfeirnod C25/0947/25/EIA.
- Ceblau Glaslyn – estyniad i Gompownd Selio Pennau Ceblau presennol Wern (CSEC) gan gynnwys mynediad parhaol newydd; CSEC a Thŷ Pen Twannel (THH) newydd Minffordd gyda mynediad parhaol; tynnu CSEC presennol Garth; gosod ceblau 400 kV newydd i ddisodli ceblau 400 cilofolt (kV) a 132 kV diangen; a gwaith seilwaith a gwaith ategol cysylltiedig arall. Cyflwynwyd cais cynllunio o dan gyfeirnod C25/0947/25/EIA.
- Trawsfynydd – Gosod ceblau tanddaearol newydd a phennau selio ceblau, adweithydd siynt a nenbontydd a lledu rhan o'r ffordd fynediad bresennol yn y compownd sydd wedi'i ffensio yn is-orsaf Trawsfynydd a gwaith ategol. Mae'r safle hwn yn perthyn i ardal Parc Cenedlaethol Eryri ac mae cais cynllunio wedi'i gyflwyno i Awdurdod y Parc.
- Bydd angen caniatâd Adran 37 o dan Ddeddf Trydan 1989 ar gyfer yr isod (ni fydd y rhain yn destun cais cynllunio):
- Bryncir – Ailosod Tŵr 4ZC067 a gwifrau yn Is-orsaf arfaethedig Bryncir. Gosod cebl ffibr optig.
- Bryncir – Gosod llinell uwchben 132 kV newydd (ar gyfer rhan o'r llwybr) i gysylltu llwybr DB presennol SPEN ag Is-orsaf Bryncir a thynnu rhan segur o lwybr DB SPEN.
- Trawsfynydd – Diwygio gwifrau presennol Tŵr 4ZC005, creu nenbont newydd yn yr is-orsaf, a gwneud newidiadau i aliniad ffens ffin de-orllewinol caeadle'r is-orsaf. (Mae'r safle hwn yn dod o dan awdurdodaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)
- 1.4 Mae'r safle sy'n destun y cais hwn wedi'i leoli i'r de-ddwyrain o Fryncir (1km), i'r de o'r A487 ac i'r dwyrain o'r gyffordd â'r B4411 ac 1.2km i'r de-orllewin o Garndolbenmaen. Mae'r safle datblygu arfaethedig wedi'i leoli ar dir cymharol wastad ac mae'n cynnwys caeau pori yn bennaf, gydag ardal o laswelltir corsiog i'r de-orllewin. Mae'r safle wedi'i amgáu gan amrywiaeth o fathau o ffiniau caeau, waliau cerrig sych a ffensys postyn a gwifren yn bennaf, gyda gwrychoedd wedi gordyfu a choed gwrychoedd ar hyd ffiniau deheuol a gogledd-ddwyreiniol. Mae gwrychoedd a reolir hefyd yn bresennol ar hyd ochr ddeheuol yr A487.
- 1.5 Bydd y gwaith arfaethedig yn cwmpasu cyfanswm o 12.4 hectar (ha) gyda chompownd yr is-orsaf yn mesur 1ha gyda'r tir sy'n weddill yn cynnwys y llwybro ceblau, y ffyrdd mynediad a'r compowndiau adeiladu. Nodir bod cynnig tebyg wedi'i gymeradwyo o'r blaen o dan gyfeirnod

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

C17/0772/36/LL (a chaniatâd dilynol i ymestyn y cyfnod amser ar gyfer dechrau gwaith o dan C22/1102/36/AC), fodd bynnag, nid yw'r caniatâd hwn bellach yn diwallu anghenion y prosiect.

Bydd y datblygiad yn cynnwys;

- Adeiladu is-orsaf 400 kV newydd, gan gynnwys ffordd fynediad barhaol.
- Gosod adran newydd o gebl tanddaearol 132 kV a dau gebl ffibr optig i ddarparu cyfathrebiadau is-orsaf, sy'n cynnwys un wedi'i lwybro o dan y ddaear o Dŵr 4ZC068 ac un wedi'i lwybro'n uniongyrchol o Dŵr newydd 4ZC067.
- Dargyfeirio Hawl Tramwy Cyhoeddus Dolbenmaen Rhif 18 yn barhaol ac adeiladu trac mynediad tîrfeddiannwr newydd.
- Gosod ciosg bach i gyflenwi trydan foltedd isel i'r is-orsaf.

Byddai'r is-orsaf arfaethedig yn cynnwys yr offer a'r seilwaith a ganlyn:

- Un Uwch Drawsnewidydd Grid (400/132 kV).
- Adeiladau ategol, gan gynnwys: Adeilad amwynder unllawr bach yn mesur tua 38m o hyd a hyd at 5m o uchder; ac adeilad unllawr bach ar wahân yn gartref i'r prif systemau rheoli.
- 'Busbars' a 'Switchgear' wedi'i Inswleiddio ag Aer (AIS), yn cynnwys un gosodiad 400 kV; ac un gosodiad 132 kV.
- Switshis daear (Chwech ar 400 kV a thri ar 132 kV).
- Datgysylltwyr (Pedwar ar 400 kV ac un ar 132 kV).
- Torwyr cylchedau dau ar 400 kV ac un ar 132 kV.
- Tri pennau selio cebl.
- Deuddeg trawsnewidydd cerrynt.
- Tair uned fesur anheddiad.
- Un generadur diesel.
- Strwythur gantri gydag uchafswm uchder o hyd at 10.5m.
- Un trawsnewidydd cerrynt eilaidd foltedd isel (LVAC).
- Atalydd ymchwydd (Tri ar 400 kV a thri ar 132 kV).
- Trawsnewidwyr foltedd (Tri ar 400 kV a phedwar ar 132 kV).
- Un tanc dŵr.
- Un cyfarpar rhyng-gipio olew.

1.6 Byddai llwybr Ffin Ddosbarthu (DB) Scottish Power Energy Networks (SPEN) yn cysylltu ag is-orsaf arfaethedig Bryncir drwy gyfuniad o geblau tanddaearol a llinell uwchben. Byddai'r llwybr cysylltu DB yn gadael Is-orsaf arfaethedig Bryncir i'r dwyrain fel tua 600m o gebl tanddaearol 132 kV, wedi'i osod ar ffurf meillionen, yn croesi o dan linell uwchben 400 kV Pentir i Drawsfynydd cyn llwybro i'r gogledd trwy ddau gae a throi i'r gorllewin i strwythur terfynell cebl. O'r pwynt hwn, byddai'r llwybr yn parhau fel tua 250m o linell uwchben, a byddai'n ddarostyngedig i adran 37 ar wahân o ganiatâd y Ddeddf Trydan.

1.7 Ffordd fynediad barhaol yn darparu mynediad i'r safle gwaith arfaethedig o'r A487 drwy drac mynediad presennol wedi'i uwchraddio gyferbyn â Bryn-yr-Efail-Uchaf. Byddai'r llwybr mynediad yn dilyn ffiniau'r cae i gompownd yr is-orsaf. Byddai'r ffordd fynediad barhaol tua 250 i 300m o hyd, byddai ganddi uchafswm lled o 6m, a byddai'n cynnwys arwyneb tarmacadam. Byddai manau croesi yn cael eu darparu i alluogi mynediad i dirfeddianwyr ar draws y ffordd.

1.8 Byddai compownd adeiladu dros dro wedi'i leoli ger y fynedfa cerbydau o'r A487, gydag ardal adeiladu eilaidd wedi'i lleoli ger compownd arfaethedig yr is-orsaf.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

- 1.9 Mae Hawl Tramwy Cyhoeddus (PRoW) Dolbenmaen Rhif 18 yn croesi'r safle arfaethedig a byddai'n cael ei ddargyfeirio'n barhaol i hwyluso is-orsaf Bryncir. Byddai'r llwybr wedi'i wyro yn rhedeg ger trac mynediad yr is-orsaf, yn dilyn ffin ddeheuol y pwll draenio, ac yn ailgysylltu â'r llwybr presennol i'r gorllewin. Bydd angen cyflwyno cais ar wahân o dan Adran 257 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i ddargyfeirio'r llwybr troed yn ffurfiol.
- 1.10 Mae'r gwaith arfaethedig yn rhan o'r Prosiect ehangach, ac mae rhan ohono (sef ailosod ceblau trydan foltedd uchel o dan Glaslyn) wedi'i gadarnhau fel datblygiad sy'n gofyn am Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA) fel y cadarnhawyd yn y farn sgrinio a ddarparwyd o dan gyfeirnod C24/0806/08/SC dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017. Mae Datganiad Amgylcheddol (ES) wedi'i baratoi ar gyfer y prosiect cyfan. Mae Cyfrol 3 y Datganiad Amgylcheddol yn ymwneud yn benodol â datblygiad is-orsaf Bryncir ac fe'i cefnogir gan Gyfrol 6 (Gwaith Ehangach), Cyfrol 7 (Y prosiect a'r effeithiau cronrus) a Chyfrol 8 (Atodiadau Technegol).
- 1.11 Oherwydd maint y safle, diffinnir y cais hwn fel datblygiad mawr. Fel rhan o'r cais, yn unol â gofynion y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Cymru), derbyniwyd adroddiad ymgynghori cyn gwneud cais fel rhan o'r cais (PAC). Mae'r adroddiad yn dangos bod y datblygwr wedi hysbysu'r cyhoedd a'r ymgynghorai statudol am y bwriad cyn cyflwyno cais cynllunio ffurfiol. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod y saith ymateb ffurfiol o ymgynghoriadau statudol a dderbyniwyd wedi'u hystyried.

2. Polisiâu perthnasol:

- 2.1 Mae Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys y Polisi Cynllunio Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Lleol.
- 2.2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r saith nod llesiant sydd yn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel sydd wedi'i nodi yn Neddf 2015. Wrth lunio'r argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.
- 2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2011-2026 a fabwysiadwyd ar 31 Gorffennaf 2017**
 PS 1: Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig
 PS 4: Trafnidiaeth gynaliadwy, datblygiad a hygyrchedd
 PS 5: Datblygu Cynaliadwy
 PS 13: Darparu cyfleoedd ar gyfer economi ffyniannus
 PS 19: Cadw a lle bo'n briodol gwella'r amgylchedd naturiol.
 PS 20: Cadw a lle bo'n briodol gwella asedau treftadaeth
 TRA 4: Rheoli ardrawiadau cludiant
 PCYFF 2: Meini prawf datblygu
 PCYFF 3: Dylunio a siapio lle
 PCYFF 4: Dylunio a thirweddu
 PCYFF 6: Cadwraeth Dŵr
 AMG 3: Gwarchod a gwella nodweddion a rhinweddau sydd yn unigryw i gymeriad y dirwedd leol
 AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol
 AT 1: Ardaloedd cadwraeth, safleoedd treftadaeth y byd a thirweddau hanesyddol cofrestredig, parciau a gerddi

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

AT 4: Diogelu safleoedd archeolegol nad ydynt wedi'u dynodi a'u gosodiad
Canllaw Cynllunio Atodol - Cynnal a Chreu Cymunedau Unigryw a Chynaliadwy 2019

2.4 Polisiâu Cenedlaethol:

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Polisi Cynllunio Cymru (Fersiwn 12 – Chwefror 2025)

Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio

Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio

Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu, llifogydd ac erydiad arfordirol

Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth

Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygiad Economaidd

Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr amgylchedd hanesyddol

3. Hanes Cynllunio Perthnasol:

C22/1102/36/AC 'Diwygio amod 1 (cyfnod cychwyn gwaith) ar ganiatâd cynllunio C17/0772/36/LL er mwyn ymestyn y cyfnod i ddechrau'r gwaith am 5 mlynedd bellach' - caniatáu gydag amodau ar 27/02/2023.

C18/0168/36/LL 'Cais i newid amod 2 o ganiatâd cynllunio C17/0772/36/LL er mwyn gallu diwygio llwybr gwyrho llwybr cyhoeddus rhif 18' - caniatáu gydag amodau ar 18/05/2018.

C17/0772/36/LL 'Is-bwerdy newydd, cyfarpar cysylltiol, tirweddu a ffordd mynediad newydd' - caniatáu gydag amodau ar 12/1/2017.

C17/0063/36/SC 'Barn sgrinio ar gyfer is-orsaf 400kv newydd arfaethedig' - penderfyniad ddim angen AEA, dyddiedig 08/02/2026.

4. Ymgynghoriadau:

Cyngor Cymuned: Heb dderbyn ymateb.

Yr Uned Drafnidiaeth: Heb dderbyn ymateb.

Uned Hawliau Tramwy
Cyhoeddus

Derbyniwyd ymateb ar 05/01/2026:

Mae hawl tramwy cyhoeddus (Llwybr Troed) rhif 18 yng nghymuned Dolbenmaen yn cael ei effeithio gan y datblygiad yma (gweler y cynllun atodol). Mae'r ymgeisydd wedi nodi llwybr arfaethedig y gwyrriad.

Ni ddylid symud llwybr hawl tramwy cyhoeddus oni bai bod y newid wedi'i awdurdodi gyntaf gan Orchymyn cyfreithiol, a elwir yn Orchymyn Gwyrho. Bydd angen i'r ymgeisydd gysylltu â Thîm Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd cyn cyflwyno cais ffurfiol i wro'r llwybr dan adran 257 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Cysylltwch â:- Llwybrau@gwynedd.llyw.cymru. Mae Tîm Hawliau Tramwy'r Cyngor yn gofyn bod hwn yn amod yn y caniatâd cynllunio.

Cyn cychwyn ar unrhyw drefn wro, bydd angen i'r ymgeisydd a'r Cyngor gytuno ar gyfeiriad gwyrriad y llwybr, safon y llwybr newydd o ran arwyneb ac unrhyw ddodrefn fel giatia. Disgwylir

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

hefyd y bydd yr ymgeisydd yn cytuno i gyfarfod â'r holl gostau perthnasol o ran gwyro'r llwybr.

Cyfoeth Naturiol Cymru:

Derbyniwyd ymateb ar 26/01/2026:

Diolch am ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ynglŷn â'r uchod, a dderbyniwyd gennym ar 5 Ionawr 2026.

Sylwer, at ddibenion y cais hwn, dim ond o fewn ffin y llinell goch yr ydym wedi ystyried y datblygiad arfaethedig.

Mae gennym bryderon am y cais fel y'i cyflwynwyd. Fodd bynnag, rydym yn fodlon y gellir goresgyn y pryderon hyn os yw'r ddogfen a nodwyd isod wedi'i chynnwys yn yr amod cynlluniau a dogfennau cymeradwy ar yr hysbysiad penderfynu:

Dogfen - Cynllun Rheoli Amgylcheddol Amlinellol Adeiladu, Grid Cenedlaethol, Rhagfyr 2025

Sylwer, heb gynnwys y ddogfen hon, byddem yn gwrthwynebu'r cais cynllunio hwn. Ceir rhagor o fanylion isod.
Rheolaeth Amgylcheddol

Mae Afon Dwyfach yn agos iawn at y trac mynediad a'r is-orsaf arfaethedig. Oherwydd agosrwydd Afon Dwyfach mae angen lleihau'r risg o lygredd a ellir ei achosi wrth adeiladu'r datblygiad arfaethedig. Os na chaiff ei reoli'n iawn, efallai y bydd risg uchel o lygredd dyfroedd a reolir.

Rydym yn nodi bod Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu Amlinellol, Grid Cenedlaethol wedi cael ei gyflwyno ym mis Rhagfyr 2025. Mae'r mesurau lliniaru a gynigir yn y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu Amlinellol (CEMP) a'r dogfennau ategol yn gynhwysfawr ac yn briodol i ddiogelu'r amgylchedd, ar yr amod eu bod yn cael eu gweithredu'n drylwyr a'u monitro'n effeithiol.

Felly, rydym yn cynghori bod eich Awdurdod yn cynnwys y ddogfen ganlynol yn yr amod cynlluniau a'r dogfennau sydd wedi eu cymeradwyo ar yr hysbysiad penderfyniad.

•Cynllun Rheoli Amgylcheddol Amlinellol Adeiladu, Grid Cenedlaethol, Rhagfyr 2025

Rhywogaethau a Warchodir

Ystumod

Nodwn y wybodaeth a gyflwynwyd i gefnogi'r cais uchod (Adroddiad Arolwg Ystumod Bryncir, Grid Cenedlaethol, Datganiad Amgylcheddol Atodiad 3.5F).

Mae ystumod a'u manau magu a gorffwys yn cael eu gwarchod dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Pan fo ystumod yn bresennol a bod cynnig datblygu yn debygol o fynd yn groes i'r amddiffyniad cyfreithiol a roddir iddynt, dim ond o dan drwydded a roddir gan Gyfoeth Naturiol Cymru y gall y datblygiad fynd rhagddo, ar ôl bodloni'r tri phrawf a nodir yn y Rheoliadau (cyfeiriwch hefyd at Baragraff 6.3.7 o Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio). Sylwch, at ddibenion darparu cyngor yn ystod y cam cais cynllunio, mae ein sylwadau wedi'u cyfyngu i'r prawf sy'n ymwneud ag "arddangos dim niwed i gynnal

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

statws cadwraeth ffafriol rhywogaethau a warchodir gan Ewrop".

Oherwydd bod hwn yn achos o risg is i ystumod, ystyriwn nad yw'r datblygiad yn debygol o fod yn andwyol i gynnal poblogaeth y rhywogaeth dan sylw ar statws cadwraeth ffafriol yn ei ystod naturiol. Rydym yn argymhell eich bod yn trafod yr angen i sicrhau unrhyw fesurau osgoi neu liniaru (gan gynnwys rheolaethau goleuadau priodol) gyda'ch ymgynghorydd ecolegol mewnol.

Nodwn nad oedd unrhyw rywogaethau eraill a warchodir (wedi'u gwarchod yn llawn o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) na rhywogaethau a warchodir Ewropeaidd) wedi'u nodi o fewn y safle ac felly nid oes gennym unrhyw sylwadau pellach i'w gwneud ar Rywogaethau a warchodir.

Perygl Llifogydd

Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn nodi bod safle y cais o fewn Parth Llifogydd 1, ac felly mewn perygl isel o lifogydd. Nid oes gennym unrhyw sylwadau pellach am berygl llifogydd. Rydym yn argymhell eich bod yn cysylltu â'ch cydweithwyr yn Adran Draenio'r Awdurdod Lleol am gyngor pellach mewn perthynas â'r draeniad ar y safle arfaethedig. Rydym yn cynghori y dylai unrhyw gynllun draenio dŵr wyneb arfaethedig sicrhau bod dŵr ffo o'r datblygiad arfaethedig yn cael ei leihau neu na fydd yn fwy na'r cyfraddau dŵr ffo presennol. Dylid cyflwyno manylion mabwysiadu a rheoli hefyd i sicrhau bod y cynllun/systemau yn parhau i fod yn effeithiol am oes y datblygiad.

Tirwedd Cenedlaethol

Oherwydd y pellter a'r ymdeimlad o arwahanrwydd o Barc Cenedlaethol Eryri, ni ragwelir y bydd effaith uniongyrchol nodedig ar y Parc Cenedlaethol neu ei osodiad yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu. Ystyrir bod yr effeithiau amgylcheddol yn ddibwys ac nid ydynt yn arwyddocaol.

Oherwydd y pellter gwahanu oddi wrth Dirwedd Genedlaethol Llŷn / Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Llŷn, ystyriwn na fyddai unrhyw effeithiau sylweddol ar yr AHNE.

Materion Eraill

Mae'r cyngor yn y llythyr hwn yn ymwneud â materion sydd wedi'u cynnwys yn ein rhestr pynciau ymgynghoriad. Nid ydym yn diystyru'r potensial ar gyfer y datblygiad arfaethedig i effeithio buddion amgylcheddol eraill sydd heb eu cynnwys ar y rhestr hon.

Dŵr Cymru:

Derbyniwyd ymateb ar 21/01/2026:

Cyfeiriwn at eich ymgynghoriad cynllunio ynghylch y safle uchod, ac fe allwn ddarparu'r sylwadau a ganlyn mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig.

Yn gyntaf, byddem yn cynghori bod ein hymateb yn seiliedig ar dir sydd wedi'i gynnwys o fewn ffin y llinell goch ar y Cynllun Lleoliad Safle (TCPA) a gyflwynwyd i gefnogi'r cais. Mewn perthynas â'r ffurflen gais a gyflwynwyd, rydym yn cydnabod bod y datblygiad yn bwriadu gwaredu llif dŵr budr ac wyneb i garthbwll a system ddraenio gynaliadwy, yn y drefn honno.

DŴR AFLAN

Gan fod y datblygiad yn bwriadu defnyddio dull gwahanol i'r brif system ddraenio ar gyfer dŵr aflan, byddem yn cynghori'r ymgeisydd i ofyn am gyngor gan Gyfoeth Naturiol Cymru a/neu'r Adran Rheolaeth Adeiladu fel y corff rheoleiddio ar gyfer y dull hwn o ddraenio. Pe byddai amgylchiadau'n newid a bod cysylltu â'r system garthffosiaeth gyhoeddus yn cael ei ffafrio, byddai'n rhaid ail-ymgynghori â ni ynghylch y cais hwn.

DŴR WYNEB

Gan droi at ddraenio dŵr wyneb, ers 7 Ionawr 2019, gallai'r datblygiad arfaethedig fod yn destun Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Pan fydd y datblygiad arfaethedig hwn yn arwain at gyfanswm ardal anhydraidd o 100 metr sgwâr neu fwy, bydd angen cymeradwyaeth i Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) yn unol â'r 'Safonau Statudol ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy - dylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw systemau draenio dŵr wyneb'. Yn yr achos hwn, nid ydym yn cynnig unrhyw wrthwynebiad i gynigion i waredu llif dŵr wyneb i system ddraenio gynaliadwy, mewn egwyddor, yn amodol ar ymgynghori a chytundeb â'r corff rheoleiddio neu berchennog torlannol y system hon.

GWARCHOD ASEDAU

Yn ogystal, byddem yn cynghori ei bod yn gyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i sicrhau nad yw unrhyw waith arfaethedig yn gwrthdaro ag unrhyw wasanaethau tanddaearol. Ar gyfer Carthffosydd neu Brif Gyflenwad Dŵr a allai fod yn bresennol a chael eu heffeithio gan eich cynigion, fe'ch cynghorir i gysylltu â Dŵr Cymru a fydd yn gallu esbonio a oes angen unrhyw ganiatâd ar gyfer eich gwaith arfaethedig. Cyn dechrau ar y gwaith, rydym yn argymhell eich bod yn adolygu'r wybodaeth a'r canllawiau sydd ar gael ar wefan Dŵr Cymru yn <https://developers.dwrcymru.com/en/applications/planning/asset-location-and-cctv-surveys>

CYFLENWAD DŴR

Rydym yn nodi fel rhan o'r bwriad bod tanc dŵr yn cael ei gynnig. Byddem yn ddiolchgar i dderbyn amcangyfrif o'r defnydd dyddiol a blynyddol o ddŵr er mwyn asesu a chynghori ymhellach.

Cofiwch nad yw Dŵr Cymru yn gyfrifol am amddiffyn tân nac am ddarparu llif tân addas. Cyfrifoldeb y Gwasanaethau Tân rhanbarthol priodol yw darparu llif tân ac amddiffyniad tân. Rydym yn eich cyfeirio at y 3ydd Argraffiad o'r Ddogfen Ganllaw Genedlaethol ar Ddarparu Dŵr ar gyfer Ymladd Tân a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol a Water UK.

Yn unol â hynny, am y rhesymau a amlinellir uchod, rydym yn cynnig Ymateb Dros Dro nes y bydd gwybodaeth ychwanegol wedi'i chyflwyno a gofynnwn i chi ail-ymgynghori â ni ar ôl derbyn y wybodaeth hon.

Mae ein hymateb yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd gan eich cais. Gofynnwn yn garedig, pe bai'r bwriad yn newid yn ystod proses y cais, i chi ail-ymgynghori gyda ni a chadwn yr hawl i gyflwyno sylwadau o'r newydd.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r is-lofnodedig ar

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

0800 917 2652 neu dros e-bost ar developer.services@dwrcymru.com
 Dyfynnwch ein rhif cyfeirnod ym mhob cyfathrebu a gohebiaeth.

Uned Gwarchod y Cyhoedd: Derbyniwyd ymateb ar 29/01/2026:

Mae'r Gwasanaeth wedi asesu'r Datganiad Amgylcheddol a'r dogfennau cysylltiedig mewn perthynas â sŵn ac ansawdd aer ar gyfer y datblygiad uchod, sef;

- Adroddiad Datganiad Amgylcheddol (ES), cyfrol 3: Gwaith Bryncir, Tachwedd 2025
- Aseiad Sŵn Gweithredol (ES Cyfrol 3 – Atodiad 3.11.B ac A Aseiad Sŵn Gweithredol)
- Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu Amlinellol
- Adroddiad ES, cyfrol 3, Pennod 10: Ansawdd Aer ac Allyriadau

Sŵn gweithredu

Mae'r aseiad sŵn a dirgryniad a gyflwynwyd wedi'i adolygu o ran yr effeithiau posibl ar amwynder preswyl sy'n deillio o weithgareddau adeiladu, traffig adeiladu, dirgryniad a gludir ar y ddaear, a sŵn gweithredu o'r is-orsaf arfaethedig a'r offer cysylltiedig. Mae'r lleoliad wedi'i amgylchynu'n bennaf gan gaeau amaethyddol ac mewn ardal wledig. Mae'r eiddo agosaf sy'n sensitif i sŵn 105m i'r gogledd o'r safle, a 175m i'r de o'r safle. Bydd yr is-orsaf arfaethedig yn gweithredu ar folteddau hyd at 400kV, gydag offer gan gynnwys un Trawsnewidydd Supergrid (SGTs), gwaith oeri, offer cymorth a thrydanol, adeiladau ategol, ffordd fynediad a ffens ddiogelwch. Mae'r aseiad sŵn wedi'i wneud ar gyfer y SGT a'r gwaith oeri fel y brif ffynhonnell sŵn o'r safle. Deallir y bydd mwy o drawsnewidyddion ar y safle, pennau selio ceblau a generadur disel. A all y Gwasanaeth gael esboniad pam fod y rhain wedi'u heithrio o'r aseiad sŵn; a fyddai offer arall ar y safle yn cynyddu lefel y sŵn pan fyddant i gyd yn gweithredu ar yr un pryd? A allai'r ymgeisydd egluro?

Mae'r lefel sŵn penodol a ddefnyddir yn yr aseiad hwn ar gyfer y SGT yn seiliedig ar foltedd o 102.5% a llwyth o 50%. Mae potensial i'r llwyth hwn fod yn fwy mewn argyfyngau/amgylchiadau eithriadol. Byddai'r Gwasanaeth wedi disgwyl gweld y senario gwaethaf pan fydd y trawsnewidyddion a'r ffannau oeri yn gweithredu ar 100%. A all yr ymgeisydd gyflwyno rhagor o wybodaeth yn dangos beth fyddai'r lefelau sŵn a ragwelir yn ystod y nos pan fydd y safle'n gweithredu o dan amodau llwyth uchaf, gyda'r holl beiriannau ac offer ar y safle ar waith?

Nid oes unrhyw ddata pŵer sain wedi'i ddarparu ar gyfer bandiau amledd isel ar gyfer SGT, ac felly mae'r aseiad wedi'i foddelu ar 100Hz ar gyfer y prif danc SGT a'i osod o fewn lloc a oedd yn darparu o leiaf 20dB o wanhad sain ar 100Hz.

Mae cosb nodwedd acwstig sefydlog o +3 dB wedi'i chymhwyso ar gyfer tonalrwydd. Gall trawsnewidyddion arddangos cydrannau tonaidd a all warantu cosbau o +4 i +6 dB, yn enwedig yn y nos pan fydd lefelau cefndir yn isel. Gan nad yw'r data amledd isel ar gael, a gallai fod risg o broblemau/hwmian tonalrwydd, byddai'r Gwasanaeth yn cynghori mabwysiadu'r gosb uchaf fel y senario gwaethaf posibl. Pe bai hyn yn wir, byddai sŵn o'r is-orsaf yn cael effaith ar drigolion

sy'n sensitif i sŵn yn ystod y nos. A all yr ymgeisydd egluro pam nad yw'r achos gwaethaf posibl mewn perthynas â sŵn/tonalrwydd amledd isel wedi'i ystyried?

Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad bod effaith sŵn yn "isel"; fodd bynnag, mae elfennau allweddol yr asesiad yn seiliedig ar ddata ffynhonnell generig, perfformiad lliniaru amledd isel tybiedig. Hyd yn oed gyda lefelau bychan o sŵn cefndir isel, mae pryderon gan y Gwasanaeth y gall sŵn tonaidd fod yn aflonyddgar i drigolion. Yn dilyn adolygiad o'r Asesiad Sŵn Gweithredol a gyflwynwyd (ES Gyfrol 8 - Atodiad 3.11.B

Asesiad Sŵn Gweithredol), nid yw'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn gallu cefnogi'r cynnig ar hyn o bryd. Er bod y ddogfen yn dilyn methodoleg BS 4142 yn fras, mae sawl ansicrwydd, rhagdybiaethau a bylchau data perthnasol sy'n atal yr awdurdod rhag dod i'r casgliad na fydd y datblygiad yn arwain at effeithiau sŵn andwyol, yn enwedig yn ystod y cyfnodau nos tawelaf. Byddai'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn gofyn i'r ymgeisydd egluro'r materion a godwyd uchod.

Os rhoddir cymeradwyaeth cyn derbyn y wybodaeth/eglhurhad ychwanegol, byddai'r Gwasanaeth yn argymhell bod y canlynol yn cael ei amodi: Sŵn gweithredu:

- Ni ddylai'r lefel graddio (LAr,Tr) o sŵn cyfunol yr holl beiriannau a chyfarpar sefydlog yn yr is-orsaf fod yn fwy na'r lefel gefndir nosol cynrychioliadol (23 dB LA90) mewn unrhyw dderbynnydd sy'n sensitif i sŵn. Dylai lefelau graddio yn ystod y dydd fod o leiaf 5 dB islaw'r LA90 yn ystod y dydd.
- Dylid cynnal a chadw'r holl beiriannau, peiriannau ac offer sefydlog a leolir ar y safle ar ôl eu gosod a thrwy gydol oes y caniatâd. Dylid cynnal arolwg sŵn comisiynu o fewn 3 mis i weithredu i sicrhau cydymffurfiaeth â'r amod sŵn uchod, a dylid asesu sŵn amledd isel.
- Dylid amgáu'r Trawsnewidyddion Supergrid mewn lloc acwstig a oedd yn darparu o leiaf 20dB o wanhad ar 100Hz. Dylid dilysu perfformiad y lloc cyn gweithredu.
- Mae angen dangos lefelau sŵn sbectrol cyfartal neu is ar gyfer unrhyw amnewidiad i beiriannau ac offer ar y safle.
- Os bydd unrhyw ormodedd neu effaith andwyol, dylid gweithredu mesurau lliniaru pellach o fewn 8 wythnos, ac yna ailbrofi.
- Lle mae Cyngor Gwynedd yn derbyn cwyn wedi'i gwirio sy'n awgrymu bod Lefel y Sŵn o'r holl beiriannau ac offer sefydlog sydd wedi'u lleoli ar y safle yn uwch na lefel y sŵn cefndirol wrth y derbynnydd a nodwyd yn yr adroddiad sŵn, bydd gweithredwr y safle yn cwblhau asesiad yn unol â'r fethodoleg a'r egwyddorion a nodir yn BS 4142:2014+A1:2019, i ddangos nad yw Lefel y Sŵn yn uwch na lefel y sŵn cefndirol. Dylai Lefel y Sŵn cyfunol o'r holl beiriannau a'r offer sefydlog sydd wedi'u lleoli ar y safle ystyried unrhyw gywiriadau cymeriad rhesymol, h.y., tonalrwydd, ysbeidiolrwydd, ysgogiad, a nodweddion sain eraill. Bydd yr asesiad yn cael ei gwblhau gan berson

cymwys y cytunwyd arno'n ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn yr asesiad. Os yw Lefel y Sŵn yn uwch na lefel y sŵn cefndirol, bydd cynllun pellach sy'n ymgorffori mesurau pellach i gyflawni Lefel y Sŵn yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w gymeradwyo. Bydd yr holl waith sydd wedi'i gynnwys o fewn y mesurau cymeradwy pellach hynny wedi'i gwblhau.

Sŵn adeiladu

Mae sŵn adeiladu wedi'i asesu ym Mhennod 11 o'r Datganiad Amgylcheddol. Mae'r Gwasanaeth yn cytuno â'r fethodoleg a ddefnyddir i asesu'r lefelau sŵn adeiladu a ragwelir yn yr eiddo sy'n sensitif i sŵn. Mae'r rhain yn seiliedig ar categori A a B. Byddai'r Gwasanaeth yn argymhell bod y canlynol yn cael ei amodi os caniateir y cais:

- trothwy sŵn yn ystod y dydd LAeq,T yn cael ei amodi ar gyfer pob derbynydd a nodwyd yn y tabl isod.

Table 11-4 – Predicted daytime construction noise levels

Receptor ID	ABC category	Daytime significance threshold LAeq,T dB	Predicted daytime construction noise level LAeq,T dB					
			NGA1	NGA2	NGA3	NGA4	NGA5	NGA6
R01	B	70	45	52	44	54	61	43
R02	B	70	48	52	44	50	57	46
R03	B	70	48	55	48	53	59	46
R04	A	65	51	58	39	43	57	49
R05	A	65	50	55	41	38	54	48
R06	A	65	43	51	45	44	56	41
R07	B	70	43	51	46	63	66	41

- Dylid cynnal monitro sŵn ar ffin yr eiddo preswyl agosaf; er mwyn sicrhau nad yw'r trothwy sŵn yn cael ei ragori.
- Dylid hysbysu tai sy'n sensitif i sŵn drwy llythyr neu daflen yn rhoi gwybod am y rhaglen waith gyda dyddiadau cychwyn a chwblhau arfaethedig. Dylai'r hysbysiad hefyd gynnwys enwau a rhifau ffôn cysylltiadau'r safle i ddelio ag ymholiadau. Dylid anfon y daflen/llythyr hysbysu hefyd at yr Awdurdod Cynllunio a'r Adran Gwarchod y Cyhoedd.
- Bydd y datblygwr yn gyfrifol am ymateb i gwynion o fewn amserlen ddigonol a lle bo'n briodol darparu manylion am y camau cywirol a gymerwyd. Dylid cofnodi pob cwyn a hysbysu'r Awdurdod Lleol.

Os bydd gwaith stancio yn digwydd, argymhellir bod y canlynol yn amodol: -

- Rhaid i'r dull gwaith stancio a ddefnyddir fod yn un nad yw'n taro. Dim ond rhwng 9:00 a 17:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener y dylid gwneud y gwaith stancio, ni chaniateir ar ddydd Sadwrn, dydd Sul na gŵyl banc.

Dirgryniadau: Adeiladu

O fewn canllawiau BS5228-2, gall lefelau uwchlaw 1.00mms-1 - 10.0mms-1 achosi cwyn ond gellir eu goddef os rhoddir rhybudd ac esboniad ymlaen llaw i drigolion. Mae'r gwaith datblygu arfaethedig wedi rhagweld y bydd dirgryniad yn ddibwys yn y tai sy'n sensitif i sŵn gan nad oes unrhyw dai preswyl o fewn 50m i'r datblygiad.

Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu Amlinellol (OCEMP)

Mae'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu Amlinellol yn rhoi

manyllion am yr hyn sydd angen ei ystyried a'i gynnwys mewn Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) manwl a fydd yn cael ei ddatblygu cyn i'r gwaith ddechrau. Yr oriau gwaith arfaethedig yn ystod y gwaith adeiladu yw 07:00-19:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener, dim gwaith dros y penwythnos a gwyliau banc. Mae Cyngor Gwynedd yn nodi y dylai'r holl sŵn Adeiladu fod rhwng 08:00 a 18:00 yn ystod yr wythnos, a 08:00-13:00 ar ddydd Sadwrn, heb unrhyw waith ar ddydd Sul na Gwyliau Banc. Rhaid i unrhyw waith y tu allan i'r oriau arfaethedig gael caniatâd gan yr Awdurdod Lleol. Ar gyfer unrhyw waith yn ystod y nos, dylai'r datblygwr wneud cais am ganiatâd adran 61 Deddf Rheoli Llygredd, ynghyd ag adroddiad sŵn ar gyfer unrhyw waith yn ystod y nos.

- Dim ond rhwng 08:00 a 18:00 yn ystod yr wythnos Dydd Llun- Dydd Gwener, a 08:00-13:00 ar ddydd Sadwrn, heb unrhyw waith ar ddydd Sul na Gwyliau Banc.

Mae'r Gwasanaeth yn cytuno â'r mesurau i reoli sŵn o fewn y Cynllun Rheoli Sŵn (OCEMP). Nododd y rhan hon y bydd y contractwr yn monitro sŵn. Bydd person cymwys yn monitro sŵn yn ystod y cyfnod adeiladu. Rhaid cofnodi canlyniadau'r monitro sŵn, ynghyd â'r amser, yr hyd, y lleoliad a'r amodau tywydd. Bydd y cofnodion ar gael i swyddogion yr Awdurdod Lleol. Mae Tabl 4.1 Rheoli Adeiladu a Lliniaru yn nodi o dan B-BW-004, ar gyfer lefelau sŵn gwaith adeiladu cyffredinol, na ddylai lefel y sŵn cefndir fod yn fwy na 70 desibel (dB), neu'n uwch na hynny o lefelau a geir o briffordd yr A487. Rhaid i'r lefelau sŵn llynu wrth y terfynau sŵn a gytunwyd gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol, ac mae wedi'i nodi y dylai'r terfynau sŵn mewn rhai eiddo fod yn 65dB, nid 70dB. Felly, nid yw'r adran hon yn cyfateb i'r manyllion ym mhennod 11 ar sŵn ar derfynau sŵn a ragwelir.

Bydd angen sicrhau bod y CEMP yn cyd-fynd efo'r lefelau sŵn sydd yn yr asesiad sŵn. Ansawdd Aer: rydym yn cytuno â'r arfer gweithio gorau arfaethedig i leihau allyriadau llwch yn ystod y cyfnod Adeiladu. - Cynghorir bod y manyllion yn yr OCEMP yn cael eu gweithredu yn y CEMP terfynol cyn penderfynu ar y datblygiad arfaethedig.

Ansawdd Aer

Mae'r asesiad effaith llwch yn dilyn canllawiau IAQM 2024.

Mae'r Bennod yn nodi y bydd allyriadau llwch mawr ar gyfer gwaith cloddio, adeiladu a thracio, sensitifrwydd cyffredinol isel oherwydd Dosbarthiad derbynyddion a chanlyniadau risg isel ar gyfer derbynyddion amwynder, iechyd ac ecolegol gyda mesurau lliniaru wedi'u cymhwysu.

Mae defnyddio generaduron trydan yn hytrach na disel yn cael ei ffafrio ar gyfer manteision sŵn ac ansawdd aer. Dylai'r mesurau lliniaru a amlinellir yn y OCEMP gael eu gweithredu mewn Cynllun Rheoli Adeiladu (CEMP). Gyda'r mesurau lliniaru a gynnigir yn yr OCEMP, nid oes gan y Gwasanaeth unrhyw sylwadau ychwanegol i'w gwneud ar y bennod hon.

Goleuadau

Ni ddarparwyd unrhyw fanyllion yn y cais ynghylch a fydd goleuadau allanol yn cael eu gweithredu yn yr is-orsaf. Os bydd goleuadau allanol yn cael eu gosod, rhaid cynnal asesiad goleuo. Rhaid i'r holl oleuadau fod ar ongl addas ac, os oes angen, wedi'u cysgodi (fel y penderfynir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol) er

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

mwyn atal llewyrch a thresbas golau y tu hwnt i ffin y safle yn unol â'r canllawiau a ddarperir gan Ganllawiau y Sefydliad Goleuadau Proffesiynol – Nodyn Canllaw Lleihau Golau Ymwithiol 01/21. Rhaid cynnal y goleuadau ar ôl eu gosod a thrwy gydol oes y caniatâd.

Tir llygredig

Dylid cynnal ymarfer pen desg i sicrhau nad yw tir wedi'i halogi. Os bydd halogiad annisgwyl yn cael ei ganfod yn ystod y gwaith, rhaid atal y datblygiad ar unwaith. Rhaid hysbysu'r Awdurdod Cynllunio o fewn 48 awr a chyflwyno strategaeth ymchwilio/lliniaru priodol i'w chymeradwyo. Ni chaiff gwaith ailddechrau nes derbyn cymeradwyaeth ysgrifenedig.

Casgliad

Mae potensial am aflonyddwch sŵn amledd isel o'r datblygiad i dderbynyddion sensitif cyfagos gan nad yw'r data ar gael, ac nid yw asesiad wedi'i wneud pan fydd yr is-orsaf yn rhedeg ar ei capiaist mwyaf. Mae gan y Gwasanaeth faterion sydd angen eglurhad neu wybodaeth ychwanegol i gefnogi'r cais. Os ystyrir cymeradwyaeth, mae'r Gwasanaeth yn argymhell bod yr amodau a grybwyllir uchod yn cael eu cymhwyso i ddiogelu amwynder preswyl.

Uned Bioamrywiaeth:

Yn dilyn ymweliad safle ar 18 Mawrth 2026, gallaf gadarnhau bod llawer o'r safle hwn ar gaeau amaethyddol sydd wedi'u gwella sy'n cael eu dominyddu gan rygwelld parhaol gyda bioamrywiaeth isel a dim diddordeb rhywogaethau.

Yn ystod yr ymweliad safle, fe wnaethom gyfarfod â rheolwr prosiect Morgan Sindal ar gyfer y gwaith adeiladu.

Mae'r clawdd ar hyd y briffordd, lle bwriedir creu mynediad ehangach, ar lan uchel ac mae'r glaswelltir yma wedi'i wella'n rhannol gyda mwsoglau a milfyw (*Luzula campestris*). Mae potensial gan y lan hon ar gyfer ffyngau glaswelltir ac rwy'n argymhell bod y 'turves' yn cael eu tynnu a'u trawsblannu i ardal a fydd yn cael ei hamddiffyn rhag gweithrediadau amaethyddol. Mewn cyfarfodydd Teams (1 a 7 Ebrill 2026) gyda'r ymgeisydd (TACP) a'u hecologydd (Donna Hall), cytunwyd y byddai 'turve' y lan yn cael ei drawsleoli. Rwy'n argymhell bod manylion y cynllun yn profi hyn ynghyd â map sy'n dangos ble fydd y safle derbyn ar gyfer y 'turve'. Bydd hefyd angen ei fonitro am bum mlynedd.

Gwaith Dros Dro ac Afon Dwyfach

Mae'r gwaith mynediad dros dro, wedi'i nodi mewn coch isod, ar hyd Afon Dwyfach. Er bod yr ardal hon y tu allan i ffin llinell goch y cais cynllunio, mae'r gwaith yn rhan annatod o'r cais am ddatblygiad, ac mae gan waith yn yr ardal hon y potensial i effeithio ar loynnod byw Brith y Gors sy'n gysylltiedig â'r ACA gerllaw. Mae'r ardal hon yn gynefin tir gwlyb gyda mwsoglau glaswellt y gweunydd, y migwyn (*Sphagnum*), mewn llefydd mae'n gorsiog a gwlyb iawn. Mae'r cynefin hwn yn sensitif i newidiadau mewn hydroleg fel draenio neu gall sianeli neu dyllau hefyd arwain at ddraenio. Mae'r cynefin hwn yn sensitif i gywasgu. Mae cynefin glaswellt y gweunydd yn gynefin bioamrywiaeth â blaenoriaeth a restrir gan Lywodraeth Cymru o dan Ddeddf yr Amgylchedd 2016. Mae gan yr ymgeisydd ddyletswydd i leihau difrod i'r cynefin hwn a'i adfer. Gall mynediad dros dro yn

defnyddio matiau cors a cherbydau gyda thraciau leihau cywasgu a difrod.

Mae gan ran ohono goed gwasgaredig ac mae hwn yn goetir gwlyb, sy'n gynefin bioamrywiaeth â blaenoriaeth. Bydd rhaid croesi Afon Dwyfach. Tra bod gwaith yn digwydd, rhaid i ecolegydd fod yn bresennol bob amser. Mae'r cynefinoedd yma yn debygol o gefnogi ymlusgiaid, felly rhaid dilyn mesurau i osgoi niwed i ymlusgiaid.

Mae angen ymchwiliad pellach i asesu potensial yr afon i gefnogi y fisglen berlog (*fresh water pearl mussel*).



Rhywogaethau estron goresgynnol (INNS)

Mae Jac y Neidiwr yn bresennol ar hyd Afon Dwyfach ac mae'n rhaid i raglen ddifa fod ar waith cyn gynted â phosibl i reoli'r rhywogaeth ymledol hon.

Sylwadau 28/04/2026

Mae'r cynllun ar gyfer draenio dŵr yn iawn.

Swyddog Coed Awdurdod
Lleol:

Derbyniwyd ymateb ar 18/03/2026:

Mae'r gwaith arfaethedig yn lliniaru unrhyw golled gwerth coedwigaeth yn ddigonol. Dim gwrthwynebiad.

Corff Cymeradwyo SuDS:

Derbyniwyd ymateb ar 07/04/2026:

Cawsom gyfarfod ar y safle gyda'r asiant wythnos diwethaf ac fe wnaethom gytuno ar gynllun. Ar gyfer cais C25/0949/36/EIA, nid oes gennym unrhyw wrthwynebiadau.

Derbyniwyd ymateb ar 28/01/2026:

Yn dilyn ein hadolygiad o'r cyflwyniad, nid ydym yn gallu penderfynu a yw'r cynnig yn foddhaol oherwydd diffyg tystiolaeth sy'n dangos bod hierarchaeth cyrchfannau dŵr wyneb wedi'i dilyn. Amlinellir manylion pellach isod.

Blaenoriaeth 1: Casglu Dŵr Glaw

- Oherwydd natur y datblygiad, rydym yn derbyn na fyddai casglu dŵr glaw yn addas.

Blaenoriaeth 2: Treiddiad

- Rhaid cynnal profion treiddio yn unol â BRE365. Mae angen adroddiad prawf treiddiad arnom sy'n dangos stampiau amser ar gyfer tri phrawf a gynhaliwyd mewn pwll prawf wedi'i leoli lle bydd y ffos socian arfaethedig. Rhaid i ddyfnder y pwll adlewyrchu'r ffos socian arfaethedig a'i lenwi â digon o ddŵr i adlewyrchu amodau. Dylid cynnal y tri phrawf yn agos at ei gilydd.
- Yna dylid defnyddio'r gyfradd ymdreiddiad arafaf i gyfrifo maint y ffos socian.
- Yn ogystal, mae angen monitro dŵr daear. Rhaid cynnal cliriad o leiaf 1 metr rhwng gwaelod y ffos socian a'r lefel dŵr daear uchaf i atal mynediad, a allai leihau capasiti'r system.

Blaenoriaeth 3: Cwrs dŵr

- Os profir nad yw ymdreiddiad yn ymarferol, gellir ystyried rhyddhau i gwrs dŵr. Rhaid i hyn fod ar gyfraddau dŵr ffo tir glas, gan olygu bod angen mesurau gwanhau a rheoli llif. Dylai cyfraddau tir glas ddeillio o'r ardal sy'n cyfrannu at y system dŵr wyneb. Er enghraifft, mae'r model wedi'i osod ar gyfer 1.4ha, a fyddai'n rhoi cyfradd ryddhau is na'r hyn a gynigir. Os nad oes cwrs dŵr yn rhesymol hygyrch, ewch ymlaen i Flaenoriaeth 4.

Blaenoriaeth 4: System Dŵr Wyneb

- Rhaid cytuno ar gyfraddau rhyddhau gyda pherchennog y system. Os nad oes system dŵr wyneb o fewn pellter rhesymol, ewch ymlaen i Flaenoriaeth 5.

Blaenoriaeth 5: Carthffos Gyfun

- Rhaid darparu tystiolaeth gynhwysfawr i gyfiawnhau gwrthod pob opsiwn blaenoriaeth uwch. Oherwydd cyfyngiadau capasiti, mae Dŵr Cymru yn amharod i dderbyn cysylltiadau dŵr wyneb.
- Os oes cysylltiad presennol (e.e., mae eiddo yn cael ei ddymchwel a'i ailadeiladu), rhaid i'r ymgeisydd ddangos y bydd y datblygiad newydd yn gwella cyfradd llif a chyfaint.

- Os nad oes cysylltiad presennol, mae'n annhebygol y bydd Dŵr Cymru yn derbyn un newydd.
- Os yw'r cynnig yn cynnwys cysylltu â system Dŵr Cymru, rydym yn cynghori'n gryf i gysylltu â nhw cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi oedi wrth brosesu'r cais.

Oherwydd y diffyg tystiolaeth a ddarparwyd, rydym yn annog yr ymgeisydd yn gryf i gysylltu gyda'r CCS i gael trafodaeth cyn ymgeisio. Hyd nes y darperir mwy o wybodaeth a thystiolaeth, rydym yn cynnig gwrthwynebiad dros dro.

Mae rhagor o fanylion ynghylch y broses ymgeisio CCS ar gael drwy'r ddolen ganlynol

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Cynllunio-a-rheolaeth-adeiladu/Cynllunio/Systemau-Draenio-Cynaliadwy.aspx>

Asiant Cefnffyrdd Gogledd a
Chanolbarth Cymru:

Derbyniwyd ymateb ar 26/02/2026:

Cyfeiriaf at eich ymgynghoriad dyddiedig 5 Ionawr 2026 ynglŷn â'r cais uchod, a chynghoraf fod Llywodraeth Cymru, fel awdurdod priffyrdd ar gyfer cefnffordd yr A487, yn cyfarwyddo na roddir

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

caniatâd cynllunio ar hyn o bryd gan nad yw'r ymgeisydd wedi darparu digon o wybodaeth i benderfynu ar y cais.

Rhaid i'r ymgeisydd ddarparu'r wybodaeth a ganlyn i gefnogi'r cais hwn neu ailgyflwyno'r cais gyda'r manylion a ganlyn;

1) Gofynnir i'r ymgeisydd gyflwyno cyfres lawn o Lawlyfr Dylunio ar gyfer Ffyrdd a Phontydd (DMRB) - manylion peirianeg sy'n cydymffurfio mewn perthynas â'r mynediad arfaethedig i'r safle o'r A487. Mae unrhyw elfennau nad ydynt yn cydymffurfio i'w cofnodi fel Gwriad oddi wrth Safonau a'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) i'w hadolygu gan Lywodraeth Cymru, fel y Sefydliad Goruchwylio ar gyfer y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (SRN).

2) Gofynnir i'r ymgeisydd gyflwyno gwybodaeth fanwl am welededd yn y plân llorweddol (cynllun) a fertigol (traws-doriad) yn unol â gofynion CD 109 a CD 123 y DMRB.

3) Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd gyflwyno i'r ACLI, y cam priodol (Dyluniad Rhagarweiniol/Manwl) o Archwiliad Diogelwch ar y Ffyrdd, yn unol â gofynion GG119 y DMRB.

4) Gofynnir i'r ymgeisydd gyflwyno dadansoddiad asesiad llwybr cerbydol o'r mynediad arfaethedig i'r safle i gadarnhau y gall y cerbyd mwyaf a ragwelir fynd i mewn ac allan o'r safle o'r A487 yn ddiogel.

5) Cynlluniau dylunio priffyrdd mynediad i'r safle, gan gynnwys digon o led yn y ffordd fynediad i ddau gerbyd basio ei gilydd am bellter penodol (15m mun.) o ymyl y gefnffordd yn amodol ar y dadansoddiad asesiad llwybr cerbydol.

6) Hawl Tramwy Cyhoeddus, y ddarpariaeth a'r arwyddion diwygiedig sy'n ofynnol i'w cynnal (PRow). Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu a Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin

7) Rydym yn eich cyfeirio at ac yn gofyn i chi gyflwyno dogfennaeth i egluro cydymffurfiaeth â gofynion y ddogfen Ganllawiau Gweithdrefn a Chyngor (PAG) "Pulling Together, Best Practice for Transporting Abnormal Loads in Wales," gweler y copi atodol. Noder Adran 5 ynglŷn â "Llwythi Annormal a Rheoli Datblygiad" gan gynnwys darparu: -.

- a. Manylion llawn y llwybr
- b. Pwysau, hyd, lled ac uchder y cerbyd
- c. Dadansoddiad Llwybr Cerbydol o holl gyffyrdd y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol

Dylid dwyn y pwyntiau isod i sylw'r ymgeisydd:

1) Bydd yn ofynnol i'r datblygwr ymrwmo i Gytundeb Adran 278 dan Ddeddf Priffyrdd gyda Gweinidogion Cymru cyn adeiladu'r mynedfeydd arfaethedig ar y safle ac unrhyw waith lliniaru cefnffyrdd arall.

2) Rhaid cyflwyno unrhyw Orchmynion Traffig Dros Dro, sy'n ofynnol i hwyluso symudiad AILs, newidiadau terfynau cyflymder, ac ati ar y rhwydwaith cefnffyrdd, i Lywodraeth Cymru a gallant gymryd hyd at 12 wythnos i'w cymeradwyo.

3) Dylai'r datblygwr ymgynghori â Thîm Gwaith Stryd Asiant

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (ACGCC) i sicrhau bod cyfyngiadau ar symudiadau cerbydau megis cyfnodau embargo, sensitifrwydd traffig llwybrau, gwaith ffordd dros dro, a chyfyngiadau priffyrdd eraill i gyd yn cael eu cynnwys yn y CTMP.

4) Ymgynghorir â Llywodraeth Cymru ynglŷn ag effeithiau amgylcheddol ar y rhwydwaith Ffyrdd Strategol (SRN) a'r ystâd feddal gysylltiedig yn ystod y cam datblygu dylunio a'r Datganiad Amgylcheddol. Byddai'r isod yn ddisgwylidig:

a) Bod llwybrau posibl i halogiad amgylcheddol y SRN, gan gynnwys yr ystâd feddal a'r system ddraenio dŵr, yn cael eu rhagweld a'u rheoli'n briodol.
b) Bod colli cynefinoedd lled-naturiol o werth i fioamrywiaeth ar ystâd feddal y SRN yn cael ei osgoi lle bo'n bosibl ac yn cael ei liniaru a'i ddigolledu lle na ellir osgoi effeithiau.

c) Archwilio cyfleoedd i ddarparu gwelliannau bioamrywiaeth o fewn ac yn gyfagos i ystâd feddal y SRN fel bod budd net i fioamrywiaeth sy'n deillio o unrhyw waith sy'n gysylltiedig â'r SRN, yn unol â Dyletswydd Bioamrywiaeth Estynedig Adran 6 dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Er enghraifft, byddem yn awgrymu bod swbstrad maetholion isel yn cael ei ddefnyddio ar gyfer creu glaswelltir wedi'i wella'n rhannol ar gyfer yr ardaloedd tynnu gwrychoedd a bod cymysgedd o hadau sy'n gyfoethog o rywogaethau o darddiad lleol yn cael ei ddefnyddio i wneud y mwyaf o'r buddion bioamrywiaeth ac yn lleihau'r baich rheoli.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, anfonwch nhw i Flwch Post Llywodraeth Cymru
NorthandMidWalesDevelopmentControlMailbox@gov.wales

Heneb:

Derbyniwyd ymateb ar 01/04/2026:

Diolch am ymgynghori â ni ar y cais hwn a llawer o ymddiheuriadau am yr ymateb hwyr. Mae ymchwiliadau archeolegol wedi bod yn mynd rhagddynt ochr yn ochr â'r cais ac rwy'n gallu darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhain gyda fy nghyngor ar y cais.

Mae'r Datganiad Amgylcheddol a gyflwynwyd yn cynnwys pennod ar Amgylchedd Hanesyddol, sy'n cael ei gefnogi gan asesiad desg safle-benodol (Atodiad 3.6). Mae gan yr asesiad desg rai diffygion gan ei fod wedi hepgor rhai elfennau safonol: dadansoddiad o'r map(iau) degwm ar gyfer y safle gan gynnwys enwau caeau; adolygu delweddau modern o'r awyr a lloeren; gwybodaeth am ddefnydd tir, ffiniau caeau, tirwedd, delweddau ac unrhyw gyfyngiadau mynediad o'r arolwg troed; a dadansoddiad tirwedd o botensial y safle ar gyfer archaeoleg anhysbys ar hyn o bryd (e.e. unrhyw fawn, ardaloedd gwlyptir neu gyrsiau dŵr). Mae peth o'r wybodaeth hon ar gael mewn penodau eraill o'r DA (yn enwedig y bennod ar ecoleg ac atodiadau) a chan fod gwaith archeolegol wedi symud ymlaen, nid yw'n fuddiol gofyn am ddiwygiadau ar y cam hwn.

Mae fy sylwadau yn PAC ar archaeoleg bosibl yn parhau i fod yn berthnasol i ryw raddau. Rhaid ystyried y dystiolaeth gynhanesyddol, Rhufeinig a chanoloesol diweddarach a gofnodwyd

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

yn yr ardal ehangach fel rhan o dirweddau cyfoes gan gynnwys safle'r cais, ac mae'r potensial ar gyfer olion y cyfnodau hyn yn anhysbys/da yn hytrach na dibwys fel yr aseswyd yn yr asesiad desg. Gan ymateb i hyn, cwblhawyd arolwg geoffisegol (cyfeirnod Archaeoleg Pentir BRYN25, Ionawr 2026); dylid cyflwyno copi o'r adroddiad hwn i'r Cyngor ar gyfer y ffeil gynllunio. Nododd yr arolwg nifer o anghysonderau, ac mae'n ymddangos bod y mwyafrif ohonynt yn ymwneud â ffiniau caeau blaenorol. Gellir paru rhai o'r rhain â chaeau ar fapio hanesyddol, nid yw eraill yn cael eu dangos ac felly maent yn gynharach (tybir cyn y 18fed ganrif, o bosibl yn ganoloesol neu'n gynharach). Mae rhaglen o waith ffosydd prawf i ymchwilio i ganlyniadau'r arolwg geoffisegol wedi'i chytuno, a disgwylir iddi gael ei chynnal ddiwedd mis Mai/dechrau'r haf.

Fel arfer, mae'n ofynnol cyflwyno canlyniadau gwaith ffosydd prawf fel rhan o Ddatganiad Amgylcheddol a chyn penderfynu ar gais cynllunio. Yn yr achos hwn, fodd bynnag, ystyrir bod digon o dystiolaeth, er bod archaeoleg yn debygol o fodoli ar y safle, nid yw hyn o'r fath arwyddocâd fel y byddai'n atal datblygiad. Prif nod gwaith ffosydd fydd llywio cwmpas y mesurau lliniaru ac felly ystyrir bod amseriad y gwaith ffosydd prawf ochr yn ochr â'r broses benderfynu yn dderbyniol yn yr achos hwn.

Yn ystod cyfnod y cais, cynhaliwyd ymchwiliadau ar y ddaear o dan oruchwyliaeth archeolegol. Ni chofnodwyd unrhyw dystiolaeth archeolegol yn y pyllau prawf (adroddiad Heneb 1844, Chwefror 2026), ond rhoddodd tîm yr ymgeisydd wybod i ni am garreg filltir hanesyddol nas cofnodwyd o'r blaen a oedd wedi'i datgelu mewn gwaith torri gwrychoedd ar wahân. Mae hyn bellach wedi'i ychwanegu at y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol a'i nodi i'w osgoi yn y prosiect sydd i ddod. Mae'r adrodd cyfrifol hwn yn haeddu cydnabyddiaeth.

Er nad yw olion sylweddol yn cael eu rhagweld ar y safle, mae'n amlwg bod nodweddion archeolegol sy'n haeddu ymchwiliad a chofnodi cymesur o dan raglen lliniaru cydlynol. Ni ellir manylu ar gwmpas hyn ar y wybodaeth bresennol, ond mae'r dull dros dro a amlinellir yn y DA yn ddisgwyliad rhesymol, gan gynnwys rhywfaint o gloddio archeolegol cyn adeiladu gyda monitro a chofnodi archeolegol yn ystod y cyfnod adeiladu, a dadansoddi ac adrodd dilynol oddi ar y safle. Yn ogystal, byddem yn cynghori y dylai cofnodi cyn adeiladu gynnwys cofnod sylfaenol o ffiniau caeau hanesyddol yr effeithir arnynt gan y datblygiad. Mae'n bleser gennyf nodi cyfeiriad at y rhaglen lliniaru archeolegol arfaethedig yn yr OCEMP. Mae hwn yn ymrwymiad cadarnhaol ac yn ddefnyddiol ar gyfer gweithio adeiladol rhwng pob parti.

Yng ngoleuni'r sylwadau hyn ac yn unol â pholisi a chanllawiau cynllunio lleol a chenedlaethol, argymhellir y dylai'r awdurdod cynllunio lleol ei gwneud yn ofynnol i raglen lliniaru gymesur gael ei rhoi ar waith. Awgrymir y geiriad isod fel amod i sicrhau gwaith o'r fath:

i) Ni ddylai unrhyw ddatblygiad (gan gynnwys dymchwel, clirio'r safle, stripio uwchbridd neu waith arall ar y ddaear) ddigwydd hyd nes bod cynllun ymchwilio ysgrifenedig ar gyfer gwaith archeolegol wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

ysgrifenedig ganddo. Bydd rhaid ymgymryd â'r datblygiad a chwblhau'r holl waith archeolegol yn unol â'r cynllun ymchwilio ysgrifenedig a gymeradwywyd.

ii) Bydd adroddiad dadansoddol manwl ar y gwaith archeolegol sy'n ofynnol gan amod (i) yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol o fewn 12 mis i gwblhau'r gwaith maes archeolegol. Yna rhaid i'r adroddiad gael ei gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rhesymau: 1) Sicrhau bod rhaglen briodol o waith lliniaru archeolegol yn cael ei gweithredu yn unol â gofynion Polisi Cynllunio Cymru a NCT24: Yr Amgylchedd Hanesyddol.

2) I sicrhau y bydd y gwaith yn cydymffurfio â MORPHE/Rheolaeth Prosiectau Archeolegol (MAP2) a Safonau a Chanllaw Sefydliad Siartredig yr Archeolegwyr (CIFA).

Uned Iaith a Chraffu Cyngor
Gwynedd:

Derbyniwyd ymateb ar 21/01/2026:

Barn gryno yr Uned Iaith:

Gan fod y datblygiad wedi'i leoli yn un o gadarnleoedd y Gymraeg, awgrymir y dylid cynnwys sgiliau Cymraeg fel rhan o'r hysbysebion ar gyfer swyddi newydd.

Hoffem yn ogystal gyfeirio'r ymgeisydd at wefan Comisiynydd y Gymraeg a'r 'Cynnig Cymraeg', er mwyn eu cynorthwyo i greu Cynllun Iaith, ac adnabod camau datblygu pellach o ran hybu defnydd o'r Gymraeg: Cynnig Cymraeg

Parc Cenedlaethol Eryri:

Heb dderbyn ymateb.

Ymgynghoriadau Cyhoeddus:

Rhodddwyd hysbysiad yn y wasg ac mewn sawl lleoliad yn agos at y safle gan roi gwybod i'r trigolion cyfagos. Mae'r cyfnod hysbysebu wedi dod i ben ac ni dderbyniwyd sylwadau gan y cyhoedd.

Mae sylwadau wedi eu derbyn gan yr Aelod Lleol sy'n cadarnhau nad yw'n gwrthwynebu'r bwriad ond yn codi'r materion isod:

- Effaith sŵn a llwch ar fwynderau trigolion cyfagos
- Pryder ynglŷn a chymlethdod y fynedfa ar ffordd brysur
- Materion archeoleg

5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol

Egwyddor y datblygiad

5.1 Cyflwynir y cais gan National Grid Electricity Transmission (NGET); ac mae'n cynnig is-orsaf drydan newydd a gwaith cysylltiedig ar y safle arfaethedig.

5.2 Mae cais a gymeradwywyd yn flaenorol am ddatblygiad is-orsaf debyg (cyfeirnod C17/0772/36/LL) yn parhau i fod yn 'fyw' ond nid yw wedi'i weithredu gan fod prosiect Cysylltu Gogledd Cymru (NWC) - a oedd yn cynnig disodli dargludyddion ar ran o'r llinell uwchben

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

- bresennol, disodli Ceblau Glaslyn ac is-orsaf 400/132 kV newydd (Is-orsaf Bryncir) i'r de o'r Tŵr presennol 4ZC067 - wedi cael ei ganslo ar ôl iddo dderbyn caniatâd cynllunio. Nid yw'r caniatâd hwn bellach yn diwallu anghenion y prosiect presennol ac mae wedi arwain at gyflwyno'r cais cynllunio hwn.
- 5.3 Byddai'r capasiti ychwanegol yn cefnogi trosglwyddiad effeithiol o ynni adnewyddadwy ar draws y rhanbarth, gan gyfrannu at leihau carbon a thargedau Sero Net. Mae'r gwaith arfaethedig yn elfen hanfodol o brosiect Atgyfnerthu Pentir i Drawsfinydd; heb yr is-orsaf newydd a'r seilwaith 132 kV cysylltiedig, byddai'r rhan hon o'r cynllun yn cyfyngu'r rhwydwaith ac yn atal amcanion y prosiect rhag cael eu cyflawni.
- 5.4 Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (Future Wales) yw'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cymru. Mae Pennod 2 yn tynnu sylw at yr angen i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr trwy gefnogi'r economi carbon isel, gan gynnwys datblygu ynni adnewyddadwy yn enwedig gwynt a darparu seilwaith grid strategol sy'n ofynnol i hwyluso'r twf hwn.
- 5.5 Mae Polisi 17: Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel a Seilwaith Cysylltiedig yn cefnogi'r egwyddor o ddatblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel ar raddfa ddigonol i ddiwallu anghenion ynni yn y dyfodol. Mae'r polisi yn cydnabod bod seilwaith grid newydd yn hanfodol i gyflawni'r twf hwn, cyn belled ei fod wedi'i gynllunio i leihau effeithiau gweledol ar gymunedau cyfagos, ac yn cadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys y Grid Cenedlaethol, i leihau rhwystrau i'w gweithredu.
- 5.6 Mae Polisi 24: Gogledd Orllewin Cymru ac Ynni yn nodi bod gogledd-orllewin Cymru yn lleoliad allweddol ar gyfer datblygu a buddsoddi ynni ac yn cefnogi, mewn egwyddor, datblygiadau sy'n gysylltiedig â mentrau ynni mawr, gan gynnwys Trawsfynydd a phrosiectau adnewyddadwy ar y môr. Mae'r polisi yn pwysleisio rôl datblygu ynni wrth gyflawni manteision economaidd, yn cefnogi cymunedau lleol a rhanbarthol, a hwyluso cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel, gan gadarnhau y bydd seilwaith ar y tir sy'n gysylltiedig â phrosiectau ynni adnewyddadwy ar y môr yn cael ei gefnogi mewn egwyddor.
- 5.7 Mae Pennod 5 o PCC, Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus, yn mynd i'r afael ag agweddau economaidd creu lleoedd. Mae paragraff 5.7.2 yn cydnabod y bydd angen buddsoddiad sylweddol mewn seilwaith cynhyrchu, trosglwyddo a dosbarthu ynni i ddiwallu'r galw yn y dyfodol. Er mwyn gwireddu ymrwymadau i fynd i'r afael â newid hinsawdd, mae paragraff 5.7.7 yn cydnabod ymhellach y dylai'r system gynllunio "*integreiddio datblygiad gyda darparu seilwaith rhwydwaith grid trydan ychwanegol*".
- 5.8 Mae paragraff 5.7.8 yn hyrwyddo dull integredig o gynllunio ar gyfer datblygiadau ynni a seilwaith rhwydwaith grid trydan i gefnogi uchelgeisiau adnewyddadwy a charbon isel Llywodraeth Cymru, gan gydnabod y bydd angen seilwaith grid ychwanegol i gefnogi capasiti cynhyrchu newydd. Mae safbwynt Llywodraeth Cymru ar linellau pŵer newydd wedi'i nodi ym mharagraff 5.7.9, sy'n mynegi ffafriaeth ar gyfer tanddaearu lle bo hynny'n bosibl, tra'n cydnabod y gallai fod angen dull cytbwys o ystyriaethau cost a hyfywedd. Pan fydd angen llinellau uwchben, anogir ymgysylltu'n gynnar â chwmnïau ynni a chymunedau lleol i liniaru effeithiau gweledol.
- 5.9 Mae paragraff 5.9.10 yn nodi y dylai awdurdodau cynllunio gynllunio'n gadarnhaol ar gyfer seilwaith grid, gan gefnogi datblygiadau priodol a hwyluso'r ddarpariaeth o seilwaith grid sy'n ofynnol i alluogi ynni adnewyddadwy a charbon isel, waeth beth fo'u ffiniau gweinyddol.
- 5.10 Mae Polisi Strategol PS5 y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd yn cefnogi datblygiad lle gellir dangos ei fod yn cyd-fynd ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Yn yr achos hwn, mae angen clir ac amlwg am yr is-orsaf arfaethedig wedi'i sefydlu. Er bod y safle y tu allan i unrhyw ffin ddatblygu ddiffiniedig, mae proses arfarnu dylunio cynhwysfawr wedi'i chynnal. Mae hyn wedi nodi'r opsiwn a ffafrir fel un sydd wedi'i leoli ger llinell 400kV bresennol uwchben Pentir-Trawsfynydd, a thrwy hynny leihau effeithiau tirwedd ac amgylcheddol ychwanegol.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

- 5.11 Felly, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn bod y datblygiad arfaethedig yn dderbyniol mewn egwyddor ac yn cael ei gefnogi gan Bolisi Cynllunio Cenedlaethol a Lleol.

Mwynderau gweledol a'r dirwedd

- 5.12 Bydd y gwaith arfaethedig yn cwmpasu cyfanswm o 12.4 hectar gyda chompownd yr is-orsaf yn mesur 1ha gyda'r tir sy'n weddill yn cynnwys y llwybro cebl, y ffyrdd mynediad a'r compowndiau adeiladu.

Bydd y datblygiad yn cynnwys;

- Adeiladu is-orsaf 400 kV newydd, gan gynnwys ffordd fynediad barhaol.
- Gosod adran newydd o gebl tanddaearol 132 kV a dau gebl ffibr optig i ddarparu cyfathrebiadau is-orsaf, sy'n cynnwys un wedi'i lwybro o dan y ddaear o Dŵr 4ZC068 ac un wedi'i lwybro'n uniongyrchol o Dŵr newydd 4ZC067.
- Dargyfeirio Hawl Tramwy Cyhoeddus Dolbenmaen Rhif 18 yn barhaol ac adeiladu trac mynediad trefeddiannwr newydd.
- Gosod ciosg bach i gyflenwi trydan foltedd isel i'r is-orsaf.
- Compowndiau adeiladu dros dro.

- 5.13 Bydd y gwaith tirlunio yn cynnwys adfer clawdd ar hyd yr A487 y tu ôl i'r llain weledd. Ar hyd ochr ddwyreiniol y ffordd fynediad, bydd gwrychoedd, clawdd, coed helyg a dôl sy'n gyfoethog o rywogaethau yn cael eu plannu ynghyd â glaswelltir sy'n gyfoethog o rywogaethau a ffensys i atal da byw ar hyd y ffin orllewinol.

- 5.14 Mae polisi PCYFF2 yn ei gwneud yn ofynnol nad yw cynigion datblygu yn arwain at effaith andwyol annerbyniol ar iechyd, diogelwch, neu mwynderau deiliaid eiddo preswyl cyfagos, defnyddiau tir neu eiddo eraill, neu gymeriad cyffredinol yr ardal. Mae Polisi PCYFF3 y Cynllun Datblygu Lleol yn ei gwneud yn ofynnol i bob bwriad ddangos dyluniad o ansawdd uchel sy'n ymateb yn llawn i'r amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig, gan gyfrannu at greu lleoedd deniadol a chynaliadwy. Yn ogystal, mae Polisi PCYFF4 yn ceisio sicrhau bod datblygiadau'n integreiddio'n briodol i'w hamgylchedd ac yn dangos bod tirlunio wedi'i ystyried o'r cychwyn cyntaf.

- 5.15 Mae Asesiad Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol (LVIA) wedi'i gyflwyno fel rhan o'r Datganiad Amgylcheddol sy'n cyd-fynd â'r cais. Fel y nodwyd yn flaenorol, nid yw'r safle o fewn unrhyw ddynodiad tirwedd statudol ac mae wedi'i leoli o fewn Ardal Cymeriad Tirwedd Genedlaethol (NLCA) 05: Bae Tremadog ac Ardal Cymeriad Tirwedd Leol (LCA) 10: Canol Llŷn.

- 5.16 Mae'r LVIA yn dod i'r casgliad na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn arwain at unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar gymeriad y dirwedd na derbynyddion tirwedd yn ystod y cyfnod adeiladu neu weithredu. Er y byddai effeithiau gweledol yn fwy amlwg yn ystod y cyfnod adeiladu, byddai'r effeithiau hyn o natur dros dro ac yn gyfyngedig i hyd y gweithgaredd adeiladu. Yn ystod y cyfnod gweithredol, byddai effeithiau gweledol yn cael eu lleihau'n sylweddol trwy weithredu'r strategaeth tirlunio gymeradwy a chael gwared ar y compownd adeiladu dros dro a'r gwaith cysylltiedig.

- 5.17 Cydnabyddir y gall unrhyw seilwaith newydd o fewn lleoliad gwledig arwain at rywfaint o newid gweledol; fodd bynnag, yn yr achos hwn, mae'r LVIA yn dangos na fyddai newid o'r fath o faint digonol i achosi niwed sylweddol i gymeriad neu ymddangosiad y dirwedd amgylchynol. Mae lleoliad y datblygiad ger seilwaith ynni presennol yn cyfyngu ymhellach ar ehangder y dirwedd a'r effeithiau gweledol ac yn osgoi cyflwyno ffurf adeiledig ynysig ychwanegol yng nghefn gwlad ehangach.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

- 5.18 Rhaid rhoi pwyslais sylweddol hefyd ar yr angen clir a hollbwysig am y datblygiad, sy'n rhan o seilwaith ynni o bwys cenedlaethol ac sy'n cael ei gefnogi gan amcanion polisi cynllunio cenedlaethol a lleol sy'n ymwneud â diogelwch ynni a datgarboneiddio.
- 5.19 Ar ben hynny, dylid ystyried y sefyllfa wrth gefn a gynrychiolir gan y caniatâd cynllunio cyfredol ar gyfer is-orsaf ar y safle. Byddai'r cynllun hwnnw a ganiateir yn arwain at lefel debyg o effaith weledol, er gyda gogwydd a dyluniad gwahanol. Yn y cyd-destun hwn, ni fyddai'r datblygiad arfaethedig yn gwaethygu'r amodau gwaelodlin gweledol yn sylweddol ac, o'u hasesu'n gronnus, ystyrir bod y manteision a nodwyd yn amlwg yn fwy nag unrhyw effeithiau andwyol cyfyngedig a dros dro.
- 5.20 Ar ôl ystyried yr wybodaeth a'r cynlluniau a gyflwynwyd, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn fodlon bod y datblygiad arfaethedig yn cydymffurfio â gofynion Polisiâu PCYFF2, PCYFF3, a PCYFF4 y CDLI.

Mwynderau cyffredinol a phreswyl

- 5.21 Rhaid i ddatblygiadau osgoi effeithiau annerbyniol ar fwynderau neu iechyd preswylwyr o ran sŵn, dirgryniad, golau, ansawdd aer o ganlyniad i'r gweithrediad ei hun neu yn ystod y gwaith adeiladu. Mae Uned Gwarchod y Cyhoedd yr Awdurdod Lleol wedi adolygu'r wybodaeth a gyflwynwyd ac wedi darparu sylwadau ar sŵn gweithredu, sŵn adeiladu, y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu Amlinellol (OCEMP), goleuadau a thir halogedig, ac wedi awgrymu amodau er mwyn sicrhau bod y bwriad yn dderbyniol. Nodir hefyd y bydd Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu manwl (CEMP) yn cael ei gyflwyno yn ddarostyngedig i amod cynllunio.
- 5.22 Mae nifer o ffermdai wedi'u gwasgaru o amgylch y safle, a'r agosaf yn union gyferbyn â'r fynedfa arfaethedig i'r safle, ac yna tua 200m i ffwrdd. Ystyrir y bydd yr amodau a ddarperir gan yr Uned Gwarchod y Cyhoedd, ynghyd â CEMP manwl wedi'i ddiweddarau, yn sicrhau bod y bwriad hwn yn dderbyniol ac nad yw'n achosi niwed annerbyniol neu niweidiol i fwynderau unrhyw breswlydd cyfagos. I'r perwyl hwn, ystyrir bod y bwriad yn dderbyniol ac yn cydymffurfio â gofynion polisi PCYFF 2 y CDLI.

Traffig a Hawliau Tramwy Cyhoeddus

- 5.23 Mae'r bwriad yn cynnwys newid mynedfa fferm bresennol o'r A487 sy'n Gefnffordd er mwyn darparu mynediad addas i draffig adeiladu. Bydd y fynedfa wedyn yn cael ei chynnal a'i defnyddio i ddibenion cynnal a chadw. Mae ymateb Cefnffyrdd yn gofyn am fwy o fanylion ar gyfer asesu addasrwydd y fynedfa yma oherwydd ei fod yn gynllun sy'n wahanol i'r safonau arferol. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad mae'r wybodaeth yma wedi ei gyflwyno i'r Uned Cefnffyrdd gan yr ymgeisydd ar ffurf cais ar gyfer ymadawiad o'r safonau arferol ac mae'r manylion yma yn derbyn sylw o flaen panel ar y 12fed o Fai 2026, ac petai yn cael ei gymeradwyo yna disgwylir ymateb diwygiedig gan yr Uned Cefnffyrdd yn cadarnhau fod y fynedfa yn dderbyniol ac yn cynnig amodau. Fe adroddir ar y mater yma yn y Pwyllgor Cynllunio.
- 5.24 Bydd y datblygiad arfaethedig yn gofyn am ddargyfeirio hawl tramwy cyhoeddus (Llwybr troed) rhif 18 yng nghymuned Dolbenmaen. Ni ddylid symud llwybr hawl tramwy cyhoeddus oni bai bod y newid wedi'i awdurdodi gyntaf gan Orchymyn cyfreithiol, a elwir yn Orchymyn Gwyro. Bydd angen cais ffurfiol i ddargyfeirio'r llwybr o dan adran 257 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a bydd angen i Uned Hawliau Tramwy Cyhoeddus yr Awdurdod Lleol gytuno ar gyfeiriad y llwybr a ddargyfeiriwyd. Deallir hefyd fod trafodaethau pellach wedi'u cynnal rhwng yr ymgeisydd, Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus a'r Tirfeddiannwr ac y bydd angen diwygiad bach i'r cynlluniau a gyflwynwyd, a bod cais adran 257 wedi'i gyflwyno ar 31.03.2026. Felly, ystyrir ei bod yn rhesymol cynnwys amod cynllunio i sicrhau bod y cynllun diwygiedig yn cael ei gyflwyno a'i gytuno â'r Awdurdod Cynllunio Lleol a bod caniatâd adran 257 wedi'i sicrhau.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

- 5.25 Ar sail yr uchod; ac yn ddarostynedig i dderbyn ymateb cadarnhaol gan yr Uned Cefnffyrdd ynglŷn a'r fynedfa, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn bod y datblygiad yn cydymffurfio â gofynion polisi TRA 4 y CDLI.

Hydroleg a Hydroddaeareg

- 5.26 Mae'r ES yn cynnwys pennod (7) ar Ddaeareg, Hydroddaeareg, Defnydd Tir ac Amaethyddiaeth (Priddoedd). Mae rhannau o'r datblygiad yn dod o fewn Parth Llifogydd 2 a 3 o Ddŵr Wyneb a Chyrsiau Dŵr Bach.
- 5.27 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cadarnhau yn eu sylwadau nad oes gwrthwynebiad na phryderon ynglŷn â draenio na pherygl llifogydd. Yn wreiddiol, fe wrthwynebodd Uned Draenio Tir y cais oherwydd diffyg gwybodaeth a thystiolaeth i ddangos bod hierarchaeth dŵr wyneb yn cael ei ddilyn yn eu cynlluniau ar gyfer delio gyda dwr wyneb. Fe gynhaliwyd cyfarfod i drafod y mater a cyflwynwyd cynllun diwygiedig ar gyfer newid y drefn o ddelio gyda dwr wyneb, ac mae'r Uned Draenio Tir bellach yn fodlon gyda'r bwriad.
- 5.28 Nodir hefyd fod Dwr Cymru wedi gofyn am wybodaeth pellach i gynnwys amcangyfrif dyddiol a blynyddol o defnydd o ddŵr ar y safle, ac mae'r wybodaeth yma eisoes wedi ei gyflwyno i Dwr Cymru, ond nid oes ymateb wedi ei dderbyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad
- 5.29 Ystyrir na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cael unrhyw effaith niweidiol ar nodweddion hydrolegol, defnydd o ddŵr na pherygl llifogydd ac mae'n cydymffurfio â gofynion Polisi Strategol PS 19 a Pholisiâu AMG 3, AMG 5, PCYFF 2, PCYFF 3 a PCYFF 6 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 – 2026 a NCT 15 (2025).

Materion ecolegol a bioamrywiaeth

- 5.30 Mae rhan fwyaf o safle'r cais yn cynnwys glaswelltir wedi'i wella'n amaethyddol gyda waliau neu gloddiau, ac mae sawl safle bywyd gwyllt posibl wedi'u lleoli gerllaw. Derbyniwyd sylwadau gan yr Uned Bioamrywiaeth a amlygodd bryderon yn y lle cyntaf mewn perthynas â gwelliannau annigonol, pryderon draenio a diffyg gwybodaeth o ran data rhywogaethau a chynefinoedd.
- 5.31 Cynhaliwyd trafodaethau rhwng yr Uned Bioamrywiaeth, swyddogion achos a'r ymgeisydd a'u hasiantau, a canfuwyd fod rhai o'r sylwadau a ddarparwyd ar gyfer ardaloedd y tu allan i safle'r cais ac mewn perthynas â datblygiad a fyddai'n destun caniatâd amgen (fel adran 37 o'r Ddeddf Trydan). Byddai'r ardaloedd yma yn derbyn sylw wrth asesu'r cynnig o dan y drefn benodol hynny, ac nid oes modd ei reoli drwy'r cais cynllunio yma. Yn ogystal, mae trafodaethau wedi bod gyda'r Uned Draenio Tir parthed materion dwr wyneb fel sydd wedi ei nodi ym mharagraff 5.27 uchod a cytunwyd ar fesurau a oedd yn dileu'r gofyn i arllwys i'r nentydd a'r cyrsiau dŵr, ac felly ni fydd y nodweddion yma yn cael eu effeithio erbyn hyn. Mae presenoldeb posib ffyngau o fewn y safle wedi'i gyfyngu i ardal o glawdd neu boncen ger y ffin ble leolir y fynedfa arfaethedig, a chytunwyd y byddai ail-leoli'r clawdd/poncen yma fel rhan o fesurau lliniaru y gellir ei reoli drwy amod cynllunio yn dderbyniol ac yn sicrhau gwarchod y ffwng i'r hir dymor.
- 5.32 Mae Datganiad Seilwaith Gwyrdd a Chynllun Tirlunio a Rheoli Ecoleg Amlinellol wedi'i gyflwyno sy'n cynnig mesurau lliniaru a gwella, ac byddai manylion llawn yn cael eu cyflwyno drwy Gynlluniau Tirlunio a Rheoli Ecoleg a Rheoli Ardrawiad Amgylcheddol llawn. Cydnabyddir gynnwys y dogfennau amlinellol a'r bwriad ar gyfer lliniaru'r bwriad a darparu gwelliannau bioamrywiaeth ac ystyrir yn briodol gosod amod cynllunio er mwyn sicrhau derbyn manylion llawn. Felly, ystyrir bod y bwriad yn dderbyniol ac yn cydymffurfio â gofynion polisi PS19 y CDLI ynghyd â phennod 6 o PCC sy'n ymwneud â'r dull fesul cam.

Archaeoleg a threftadaeth ddiwylliannol

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

- 5.33 Polisiau PS20 ac AT 1 o'r CDLI ar y Cyd a NCT 24: Mae'r Amgylchedd Hanesyddol yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i asesu effeithiau datblygiadau newydd ar asedau treftadaeth a materion archeolegol.
- 5.34 Nid yw Heneb yn gwrthwynebu'r cais yn ddarostyngedig i'r amodau a ganlyn (os ystyrir rhoi caniatâd);
- Cyflwyno cynllun ymchwilio ysgrifenedig ar gyfer gwaith archeolegol cyn gweithredu'r datblygiad (estyniad) a chwblhau'r gwaith yn unol â'r cynllun a gyflwynwyd.
 - Cyflwyno adroddiad dadansoddol manwl o'r gwaith archeolegol sy'n ofynnol gan y caniatâd 1af gyda 12 mis o waith wedi'i gwblhau.
- 5.35 Yn ddarostyngedig i'r amodau a'r mesurau lliniaru hyn, ystyrir na fydd y bwriad yn cael unrhyw effaith sylweddol ar asedau treftadaeth dynodedig a heb eu dynodi ac felly, mae'n cydymffurfio â pholisiau PS20, AT 1 ac AT 4 o'r CDLI ar y Cyd.

Yr Iaith Gymraeg

- 5.36 Mae Maen prawf 1 (a) polisi strategol PS 1 "*Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig' yn nodi y bydd angen darparu Datganiad Iaith Gymraeg gyda "datblygiad manwerthu, diwydiannol neu fasnachol arfaethedig sy'n cyflogi mwy na 50 o weithwyr a/neu sydd ag arwynebedd llawr o leiaf 1,000m sgwâr neu fwy"*.
- 5.37 Mewn ymateb i'r angen hwn, mae'r ymgeisydd wedi darparu Datganiad Iaith Gymraeg. Mae Pennod 6 y datganiad wedi asesu effeithiau posibl y datblygiadau ar yr iaith a'r gymuned yn seiliedig ar symudiad iaith a phoblogaeth; elfennau gwledol; ansawdd bywyd a seilwaith cymunedol; cyflogaeth.
- 5.38 Mae Uned Iaith yr Awdurdod Lleol wedi adolygu'r datganiad ac nid ydynt wedi cynnig unrhyw wrthwynebiad ac wedi argymhell y dylid cynnwys sgiliau Cymraeg mewn unrhyw hysbyseb am swyddi newydd.
- 5.39 Yn seiliedig ar natur y cais a'r dystiolaeth sydd ar gael, ni ystyrir yn debygol y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg. Felly, ystyrir bod y bwriad yn cydymffurfio â pholisi PS 1 a'r arweiniad a gynhwysir yn y CCA Cynnal a Chreu Cymunedau Ffyniannus a Chynaliadwy.

Yr economi

- 5.40 Mae Nodyn Cyngor Technegol 23, Datblygiad Economaidd, yn datgan: wrth wneud penderfyniad ar geisiadau cynllunio, bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol gadw mewn cof bod defnydd busnes traddodiadol, dosbarthiadau B1–B8 ond yn cyfrif am ran o'r gweithgaredd yn yr economi. Mae'n bwysig bod y system gynllunio yn cydnabod agweddau economaidd pob datblygiad ac yn gwneud penderfyniadau cynllunio mewn modd cynaliadwy sy'n cadw cydbwysedd rhwng ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.
- 5.41 Mae'r cynnig yn hanfodol i'r prosiect Atgyfnerthu Pentir i Drawsfynydd a fydd yn cael effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar gyfleoedd cyflogaeth, gweithgarwch economaidd a chadwyni cyflenwi lleol.
- 5.42 Felly, ystyrir y byddai'r bwriad yn cael effaith gadarnhaol ar economi'r ardal ac yn cyd-fynd â pholisi PS 13 y CDLI ar y Cyd a NCT 23.

6. Casgliad:

- 6.1 Mae'r is-orsaf newydd arfaethedig ynghyd â seilwaith cysylltiol a gwaith ategol sy'n cynnwys ffordd fynediad newydd o'r A487 ac uwchraddio'r trac mynediad amaethyddol presennol a cheblau tanddaearol 132kV newydd i gysylltu â'r llinell uwchben bresennol y Rhwydweithiau

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

Trydan yn dderbyniol mewn egwyddor ac fe'i cefnogir gan y Polisi Cynllunio Cenedlaethol a Lleol.

- 6.2 Mae'r gwaith arfaethedig yn elfen hanfodol o brosiect Atgyfnerthu Pentir i Drawsfynydd; heb yr is-orsaf newydd a'r seilwaith 132 kV cysylltiedig, byddai'r rhan hon o'r cynllun yn cyfyngu'r rhwydwaith ac yn atal amcanion y prosiect rhag cael eu cyflawni.
- 6.3 Nid oes unrhyw faterion polisi cynllunio sy'n ddigon arwyddocaol i gyfiawnhau gwrthod rhoi caniatâd cynllunio ac mae materion sy'n ymwneud ag effaith weledol, effaith ar fwynderau, diogelwch priffyrdd, ecoleg, ac yn ddarostyngedig i amodau priodol, ystyrir y gellir lliniaru effeithiau'r datblygiad yn ddiogel.

7. Argymhelliad:


- 7.1 Dirprwyo'r hawl i ganiatáu gyda amodau yn ddarostyngedig i dderbyn ymateb cadarnhaol gan yr Uned Cefnffyrdd
1. 5 mlynedd
 2. Yn unol â chynlluniau cymeradwy
 3. Amodau llwybr troed
 4. Amodau Gwarchod y Cyhoedd
 5. Amodau bioamrywiaeth
 6. Amodau Cefnffyrdd
 7. Amodau Heneb
 8. Amodau iaith



SITE LOCATION PLAN (TCPA)

Legend

Boundary of the Proposed Works



Notes

This drawing is scaled at paper size A1, therefore any prints taken at smaller sizes will affect accuracy of the measurement units and should not be scaled against.



Coordinate System: British National Grid
Sheet X Centroid Coordinate: 248320.42E Sheet Y Centroid Coordinate: 343314.0N

0 125 250 Metres

BACKGROUND MAPPING INFORMATION HAS BEEN REPRODUCED FROM THE ORDNANCE SURVEY BY PERMISSION OF ORDNANCE SURVEY OF THE CONTROLLER OF HIS MAJESTY'S STATIONERY OFFICE. © CROWN COPYRIGHT AND DATABASE RIGHTS 2025 ORDNANCE SURVEY AC000008122.

Issue	Date	Remarks	Drawn	Checked	Approved
2	OCT 25	PLANNING	VA	SB	RW
1	JUL 25	PRE-APP	PN	SB	RW

Title

SITE LOCATION PLAN (TCPA)




Figure Number

PTC18PTNO - BRVNCIR


Drawing Reference

PTNO-WSP-S930-C0484-DRW-CP-000003


Scale	Sheet Size	Sheet	Issue
1:2,500	A1	SHEET 1 OF 1	2




Elevation 1 Looking East
1: 100




Elevation 3 Looking North
1: 100




Elevation 4 Looking South
1: 100



Elevation 2 Looking West
1: 100



Ground Floor Plan
1: 100



Section A-A
1: 50

- GENERAL NOTES:**
1. ALL DIMENSIONS IN MILLIMETERS AND ALL LEVELS ARE IN METERS AOD UNLESS SPECIFIED.
 2. DO NOT SCALE THIS DRAWING. ALL DIMENSIONS MUST BE CHECKED & VERIFIED ON SITE.
 3. THE DESIGN LIFE OF THE MATERIALS TO BE IN ACCORDANCE WITH NATIONAL GRID TS 2.10.10 NATIONAL GRID, SECTION 3.2 WHICH STIPULATES ALL BUILDING SYSTEMS SHALL HAVE A 50 YEAR DESIGN WORKING LIFE WITH LIFE TO FIRST MAINTENANCE BEING MINIMUM 15 YEARS.
 4. THE EXTERNAL CLADDING SHALL BE IN ACCORDANCE WITH NATIONAL GRID TS 10.10, SECTION 5.2 AND LIFE TO FIRST MAJOR MAINTENANCE OF 20 YEARS.
 5. ALL EXTERNAL AND INTERNAL DOORS TO BE SUFFICIENT TO ALLOW EQUIPMENT MOVEMENTS.
 6. COMPUTER FLOOR: 600x600MM FLOOR TILES LAYED WITH ANTI-STATIC, ANTI-SLIP VINYL FLOORINGS. SUB-FLOOR BELOW SEALED WITH CLEAR DUST SEAL. LOADING REQUIREMENTS AS PER THE EQUIPMENT SUPPLIER. COMPUTER FLOOR INTEGRITY SHOULD REMAIN INTACT EVEN IF SOME TILES ARE REMOVED TEMPORARILY.
 7. AIR CONDITIONED ROOMS & TOILETS TO HAVE A MOISTURE RESISTANT PLASTERBOARD OVER THE BLOCKWORK.
 8. ALL BUILDING FINISHES ARE TO BE TO THE REQUIREMENTS OF TS 2.10.10.
 9. FIRE COMPARTMENTATION AND FIRE PROTECTION SHOULD BE AS PER THE BUILDING REGULATIONS, TS 2.10.9B AND TS 2.10.10.
 10. BUILDING SERVICES TO BE AS PER RELEVANT SECTIONS OF TS 2.10.10 AND TS 3.10.13.

PART B TRAVEL DISTANCE:
ESCAPE DISTANCES UNDER THIS PROFILE FOR NORMAL HAZARDS ARE RESPECTIVELY 29M 43M ONE DIRECTION MORE THAN ONE DIRECTION.

BACKGROUND MAPPING INFORMATION HAS BEEN REPRODUCED FROM THE ORDNANCE SURVEY BY PERMISSION OF ORDNANCE SURVEY OF THE CONTROLLER OF HIS MAJESTY'S STATIONERY OFFICE. DRAWN & COPYRIGHT AND DATABASE RIGHTS 2024 ORDNANCE SURVEY 0100031673.

P02	12/11/25	SECOND ISSUE	GA	MT	RW
P01	12/09/25	FIRST ISSUE	TM	MT	RW

Issue	Date	Remarks	Drawn	Checked	Approved
-------	------	---------	-------	---------	----------

Title


BRYNCIR
SUBSTATION BUILDING
ELEVATIONS & SECTIONS
(FOR TCPA)



Figure Number PTC1 / PTND - BRYNCIR

Drawing Reference PTNO-WSP-SS50-C00484-DRW-CP-000007

Scale	Sheet Size	Sheet	Issue
SEE PLAN	A1	SHEET 1 OF 1	P02



Tud. 52

Roof Plan
1: 100






- Legend**
- APPLICATION SITE BOUNDARY
 - PROPOSED SUBSTATION ACCESS ROAD EDGE OF CARRIAGEWAY
 - PROPOSED OVERHEADLINE TEMPORARY HAUL ROAD EDGE OF CARRIAGEWAY
 - EXISTING PUBLIC RIGHT OF WAY/ROAD
 - PROPOSED DIVERTED PUBLIC RIGHT OF WAY (PROV)
 - JUNCTION HORIZONTAL VISIBILITY SPLAY
 - PROPOSED FENCELINE
 - PROPOSED FENCELINE WITH CLAMSD WALL
 - AREA FOR CONSTRUCTION COMPOUND
 - AREA FOR CABLE ROUTE AND HAUL ROAD
 - AREA FOR UNDERGROUND FIBRE CORRIDOR ROUTE
 - GATE AND CATTLE GRID
 - VEGETATION TO BE REMOVED
 - CATEGORY A VEGETATION
 - CATEGORY B VEGETATION
 - CATEGORY C VEGETATION

- Notes**
1. ALL MEASUREMENTS ARE IN METRES.
 2. SITE CLEARANCE REQUIRED FOR THE JUNCTION VISIBILITY SPLAY GROUP.
 3. ACCESS POINTS HAVE BEEN DESIGNED IN ACCORDANCE WITH DATA, DETAILED DESIGN AND CONSTRUCTION TO BE IN ACCORDANCE WITH THE TRS REFERENCED AND LOCAL REQUIREMENTS.
 4. VEHICLE TRACKING HAS BEEN CARRIED OUT FOR 16.4m ARTICULATED LORRY AND 10m HGV 4. TRUCKS (HGV 4) MOVEMENTS HAVE BEEN ACCOUNTED FOR BASED ON 13.310 m JUNCTION MOUTH RADII ARE BASED ON TURNING CIRCLES FOR 16.4m LARGER FRAME TRAILER.
 5. IT IS ASSUMED PROV WILL BE TEMPORARILY CLOSED DURING CONSTRUCTION.

Notes
 The drawing is issued as paper only. Therefore any prints taken at smaller scales will affect accuracy of the measurement units and should not be relied upon.



BACKGROUND INFORMATION HAS BEEN REPRODUCED FROM THE DRAINAGE SURVEY BY PERMISSION OF URDANCE SURVEY OF HIS MAJESTY'S STATISTICAL OFFICE. CROWN COPYRIGHT AND AVAILABLE RIGHTS FOR DRAINAGE SURVEY 100000007875


REV	DATE	REMARKS	DESIGN	CHECKED	APPROVED
PC2	2011/05	UPDATE FROM COMMENTS	TM	MT	RM
PC2	2011/05	SECOND ISSUE	TM	MT	RM

Title
 BRYNCREIR
 PROPOSED OVERALL LAYOUT
 (FOR TCPA)

Project Number		PFC1 / PFC2 - BRYNCREIR	
Drawing Reference		PFC01-WSP-0200-02000-010-00000	
Scale	Sheet Size	Sheet	Issue
1:1000	A0	SHEET 1 OF 1	PC3

Tud. 53

BRYNCREIR 1547 PLAN



- Legend**
- APPLICATION SITE BOUNDARY
 - PROPOSED SUBSTATION ACCESS ROAD EDGE OF CARRIAGEWAY
 - FUTURE 132KV SPEN OHL LINE
 - PROPOSED OVERHEAD LINE TEMPORARY HAUL ROAD EDGE OF CARRIAGEWAY
 - EXISTING PUBLIC RIGHT OF WAY (PROW)
 - PROPOSED DIVERTED PUBLIC RIGHT OF WAY (PROW)
 - AREA FOR CABLE ROUTE AND HAUL ROAD
 - AREA FOR UNDERGROUND FIBRE COMMS ROUTE
 - AREA FOR CONSTRUCTION COMPOUNDS
 - GATE AND CATTLE GRID
 - VEGETATION TO BE REMOVED
 - CATEGORY A VEGETATION
 - CATEGORY B VEGETATION
 - CATEGORY C VEGETATION

- NOTES:**
1. ALL MEASUREMENTS ARE IN METRES.
 2. FOR LANDSCAPING DETAILS PLEASE REFER TO DRAWING PTNO-AEC-2222-22222-DRW-LA-00001

Notes
 This drawing is scaled at paper size A1, therefore any prints taken at smaller sizes will affect accuracy of the measurement units and should not be scaled against



BACKGROUND MAPPING INFORMATION HAS BEEN REPRODUCED FROM THE ORDNANCE SURVEY BY PERMISSION OF ORDNANCE SURVEY OF THE CONTROLLER OF HIS MAJESTY'S STATIONERY OFFICE CROWN, © COPYRIGHT AND DATABASE RIGHTS 2024 ORDNANCE SURVEY 0100031673.

P02	17/11/25	SECOND ISSUE	TM	MT	RW
P01	12/05/25	FIRST ISSUE	TM	MT	RW
Issue	Date	Remarks	Drawn	Checked	Approved

Title
 BRYNCIR
 PROPOSED SUBSTATION LAYOUT
 CABLE AND OVERHEAD LINE ROUTE
 (FOR TCPA)
 (SHEET 1 OF 3)






nationalgrid

Figure Number
 PTC1 / PTNO - BRYNCIR

Drawing Reference
 PTNO-WSP-SS50-C00484-DRW-CP-000013

Scale	Sheet Size	Sheet	Issue
1:1000	A1	SHEET 1 OF 3	P02

Tud. 54



- NOTE**
- THIS IS A REFERRED DRAWING. NOT FOR CONSTRUCTION.
 - REFER TO THE FIELD DRAWING FOR THE LOCATION OF THE SUBSTATION. THE SUBSTATION SHALL BE CONSTRUCTED IN ACCORDANCE WITH THE REQUIREMENTS OF THE NATIONAL GRID (NG) AND THE NATIONAL GRID (NG) SPECIFICATION FOR THE CONSTRUCTION OF SUBSTATIONS.
 - THE SUBSTATION SHALL BE CONSTRUCTED IN ACCORDANCE WITH THE REQUIREMENTS OF THE NATIONAL GRID (NG) AND THE NATIONAL GRID (NG) SPECIFICATION FOR THE CONSTRUCTION OF SUBSTATIONS.
 - ALL WORK SHALL BE PROVIDED FOR ACCORDING TO THE NATIONAL GRID (NG) AND THE NATIONAL GRID (NG) SPECIFICATION FOR THE CONSTRUCTION OF SUBSTATIONS.
 - ALL WORK SHALL BE PROVIDED FOR ACCORDING TO THE NATIONAL GRID (NG) AND THE NATIONAL GRID (NG) SPECIFICATION FOR THE CONSTRUCTION OF SUBSTATIONS.
 - ALL WORK SHALL BE PROVIDED FOR ACCORDING TO THE NATIONAL GRID (NG) AND THE NATIONAL GRID (NG) SPECIFICATION FOR THE CONSTRUCTION OF SUBSTATIONS.
 - ALL WORK SHALL BE PROVIDED FOR ACCORDING TO THE NATIONAL GRID (NG) AND THE NATIONAL GRID (NG) SPECIFICATION FOR THE CONSTRUCTION OF SUBSTATIONS.
 - ALL WORK SHALL BE PROVIDED FOR ACCORDING TO THE NATIONAL GRID (NG) AND THE NATIONAL GRID (NG) SPECIFICATION FOR THE CONSTRUCTION OF SUBSTATIONS.

EQUIPMENT TABLE	
NO.	EQUIPMENT DESCRIPTION
01	11KV BUSBAR
02	11KV ISOLATOR
03	11KV CIRCUIT BREAKER
04	11KV CURRENT TRANSFORMER
05	11KV VOLTAGE TRANSFORMER
06	11KV SAFETY DISTANCE
07	11KV REACH
08	11KV ACCESS CONDUIT
09	11KV SAFETY DISTANCE
10	11KV REACH
11	11KV ACCESS CONDUIT
12	11KV SAFETY DISTANCE
13	11KV REACH
14	11KV ACCESS CONDUIT
15	11KV SAFETY DISTANCE
16	11KV REACH
17	11KV ACCESS CONDUIT
18	11KV SAFETY DISTANCE
19	11KV REACH
20	11KV ACCESS CONDUIT
21	11KV SAFETY DISTANCE
22	11KV REACH
23	11KV ACCESS CONDUIT
24	11KV SAFETY DISTANCE
25	11KV REACH
26	11KV ACCESS CONDUIT
27	11KV SAFETY DISTANCE
28	11KV REACH
29	11KV ACCESS CONDUIT
30	11KV SAFETY DISTANCE
31	11KV REACH
32	11KV ACCESS CONDUIT
33	11KV SAFETY DISTANCE
34	11KV REACH
35	11KV ACCESS CONDUIT
36	11KV SAFETY DISTANCE
37	11KV REACH
38	11KV ACCESS CONDUIT
39	11KV SAFETY DISTANCE
40	11KV REACH
41	11KV ACCESS CONDUIT
42	11KV SAFETY DISTANCE
43	11KV REACH
44	11KV ACCESS CONDUIT
45	11KV SAFETY DISTANCE
46	11KV REACH
47	11KV ACCESS CONDUIT
48	11KV SAFETY DISTANCE
49	11KV REACH
50	11KV ACCESS CONDUIT
51	11KV SAFETY DISTANCE
52	11KV REACH
53	11KV ACCESS CONDUIT
54	11KV SAFETY DISTANCE
55	11KV REACH
56	11KV ACCESS CONDUIT
57	11KV SAFETY DISTANCE
58	11KV REACH
59	11KV ACCESS CONDUIT
60	11KV SAFETY DISTANCE
61	11KV REACH
62	11KV ACCESS CONDUIT
63	11KV SAFETY DISTANCE
64	11KV REACH
65	11KV ACCESS CONDUIT
66	11KV SAFETY DISTANCE
67	11KV REACH
68	11KV ACCESS CONDUIT
69	11KV SAFETY DISTANCE
70	11KV REACH
71	11KV ACCESS CONDUIT
72	11KV SAFETY DISTANCE
73	11KV REACH
74	11KV ACCESS CONDUIT
75	11KV SAFETY DISTANCE
76	11KV REACH
77	11KV ACCESS CONDUIT
78	11KV SAFETY DISTANCE
79	11KV REACH
80	11KV ACCESS CONDUIT
81	11KV SAFETY DISTANCE
82	11KV REACH
83	11KV ACCESS CONDUIT
84	11KV SAFETY DISTANCE
85	11KV REACH
86	11KV ACCESS CONDUIT
87	11KV SAFETY DISTANCE
88	11KV REACH
89	11KV ACCESS CONDUIT
90	11KV SAFETY DISTANCE
91	11KV REACH
92	11KV ACCESS CONDUIT
93	11KV SAFETY DISTANCE
94	11KV REACH
95	11KV ACCESS CONDUIT
96	11KV SAFETY DISTANCE
97	11KV REACH
98	11KV ACCESS CONDUIT
99	11KV SAFETY DISTANCE
100	11KV REACH

FOUNDATION DETAIL

FOUNDATION	FC1	FC2
CONCRETE	FC3	FC4
REINFORCEMENT	FC5	FC6

Scale Bar
0m 5m 10m 15m


REVISIONS

NO.	DATE	REVISION	BY	CHKD.
01				


PROJ. 1011005 SECOND ISSUE

NO.	DATE	REVISION	BY	CHKD.
01				


Scale 1:200 **Sheet** AD **Sheet** 1 OF 1 **Drawn** PJD



SECTION A-A
(SCALE: H 1:500, V 1:50)



SECTION B-B
(SCALE: H 1:500, V 1:50)



SECTION C-C
(SCALE: H 1:500, V 1:50)

Legend

- EXISTING GROUND LEVEL
- PROPOSED TOPSOIL STRIP LEVEL
- PROPOSED FORMATION LEVEL

Notes
This drawing is scaled at paper size A1, therefore any prints taken at smaller sizes will affect accuracy of the measurement units and should not be scaled against

BACKGROUND MAPPING INFORMATION HAS BEEN REPRODUCED FROM THE ORDNANCE SURVEY BY PERMISSION OF ORDNANCE SURVEY OF THE CONTROLLER OF HIS MAJESTY'S STATIONERY OFFICE. CROWN © COPYRIGHT AND DATABASE RIGHTS 2024. ORDNANCE SURVEY 0100031675.

PO2	21/11/25	SECOND ISSUE	TM	MT	RW
PO1	12/09/25	FIRST ISSUE	TM	MT	RW

Issue	Date	Remarks	Drawn	Checked	Approved
-------	------	---------	-------	---------	----------


Title
BRYNCR
SUBSTATION CROSS SECTIONS
(FOR TCPA)



Figure Number
PTCI / PTNO - BRYNCR

Drawing Reference
PTNO-WSP-SS50-COM44-DRW-CP-000010

Scale	Sheet Size	Sheet	Issue
SEE PLAN	A1	SHEET 1 OF 1	PO2



LEGEND					
COLOUR	DEPTH FROM	DEPTH TO	AREA	VOLUME	
1	Red	-3.00	-2.50	2	32
2	Red	-2.50	-2.00	178	53
3	Orange	-2.00	-1.50	550	245
4	Yellow	-1.50	-1.00	793	586
5	Light Green	-1.00	-0.50	1727	1163
6	Yellow-Green	-0.50	0.00	3737	2504
7	Green	0.00	0.50	4836	2292
8	Dark Green	0.50	1.00	2381	445

FINISHED SURFACE LEVEL = 92.75M

FORMATION LEVEL = 92.375M

1:3 SLOPE TO SITE STRIP

RED LINE BOUNDARY

Legend
 APPLICATION SITE BOUNDARY


- NOTES**
- ANALYSIS BASED ON TOPOGRAPHICAL SURVEY INFORMATION PROVIDED BY NATIONAL GRID.
 - SITE STRIP HAS BEEN ASSUMED TO BE 150mm.
 - 1:3 GRADING ASSUMED FROM PROPOSED FORMATION LEVELS TO THE SITE STRIP LEVELS.
 - BULKING FACTOR ASSUMED TO BE 1.0 AT THIS STAGE. CUT AND FILL EXERCISES ALLOWS FOR PLATFORM ONLY (DOES NOT INCLUDE EXCAVATION FOR FOUNDATIONS, ROADS, OR DRAINAGE, FOR EXAMPLE).

BULK EARTHWORKS VOLUMES

SITE STRIP - TOPSOIL
 SITE STRIP OF 150mm ASSUMED
 SITE AREA = 13479 m²
 SITE STRIP STOCKPILE VOLUME = 2022 m³
CUT AND FILL (NOT INCLUDING SITE STRIP)
 CUT: 4194 cu.m
 FILL: 2729 cu.m
 1375 cu.m - NET CUT

IMPORT
 CHIPPINGS: 1011 cu.m
 TYPE 3: 404 cu.m

Notes
 This drawing is scaled at paper size A1, therefore any prints taken at smaller sizes will affect accuracy of the measurement units and should not be scaled against



BACKGROUND MAPPING INFORMATION HAS BEEN REPRODUCED FROM THE ORDNANCE SURVEY BY PERMISSION OF ORDNANCE SURVEY OF THE CONTROLLER OF HIS MAJESTY'S STATIONERY OFFICE CROWN. © COPYRIGHT AND DATABASE RIGHTS 2024 ORDNANCE SURVEY 0100031673.

P02	21/11/25	SECOND ISSUE	TM	MT	RW
P01	12/09/25	FIRST ISSUE	TM	MT	RW
Issue	Date	Remarks	Drawn	Checked	Approved

Title
 BRYNCIR
 SUBSTATION EARTHWORKS
 (FOR TCPA)

nationalgrid			
Figure Number PTC1 / PTNO - BRYNCIR			
Drawing Reference PTNO-WSP-SS55-C0484-DRW-CP-000009			
Scale 1:500	Sheet Size A1	Sheet SHEET 1 OF 1	Issue P02

Tud. 57

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

Rhif: 2

Rhif y Cais: C22//0977/36/AC

Dyddiad Cof-restru: 21/10/2022

Math y Cais: Amrywio Amod

Cymuned: Dolbenmaen

Ward: Dolbenmaen

Bwriad: Cais dan Adran 73 i amrywio amod 2, 5 a 37 ar gais cynllunio cyf. C12/0495/36/MW er mwyn ymestyn y cyfnod ar gyfer ennill a gweithio mwynau hyd at 31/12/2030 ac adfer y safle erbyn 31/12/2031; cynyddu'r allbwn blyneddol o ddeunydd o'r safle i 100,000 tonnall ar raddfa gyfartalog o 14 llwyth y dydd a defnyddio deunydd sydd heb ddod o'r gweithrediadau a ganiateir ar y safle fel rhan o'r cynllun adfer.

Lleoliad: Llecheiddior Uchaf, Bryncir, Garndolbenmaen, Gwynedd, LL51 9EZ

Crynodeb o'r Argymhelliad: Dirprwyo'r hawl i Bennaeth yr Adran Amgylchedd gymeradwyo'r cais, gydag amodau

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

1. Disgrifiad:

- 1.1 Dyma gais dan Adran 73 Deddf Cynllunio 1990 i amrywio amod 2, 5 a 37 ar ganiatâd cynllunio, cyfeirnod C12/0495/36/MW. Mae'r diwygiadau arfaethedig ar gyfer ymestyn y cyfnod ar gyfer ennill a gweithio mwynau hyd at 31/12/2030 ac adfer y safle erbyn 31/12/2031 (Amod 2), cynyddu'r allbwn blynyddol o ddeunyddiau o'r safle i 100,000 o dunelli, sef ar gyfartaledd 14 llwyth y dydd (Amod 5) a defnyddio deunydd sydd heb darddu o weithrediadau ar y safle fel rhan o'r cynllun adfer (Amod 37).
- 1.2 Ar hyn o bryd, mae'r amodau yn nodi dyddiad gorffen i weithrediadau fel 31/12/2025 ac i adfer y safle erbyn 31/12/2027. Mae Amod 5 yn cyfyngu ar yr allbwn deunyddiau o'r safle i 50,000 o dunelli bob blwyddyn ar ddim mwy na 14 llwyth y dydd gydag amod 37 yn nodi mai dim ond gwastraff mwynau wedi tarddu o weithrediadau a ganiateir fydd yn cael eu dyddodi ar y safle ac ni fydd unrhyw ddeunyddiau gwastraff yn cael eu cludo yno.
- 1.3 Mae safle'r cais yn chwarel tywod a graean wedi'i lleoli ar 4 llain o dir o amgylch Llecheiddior Uchaf i'r dwyrain o bentref Bryncir. Mae mynediad i'r safle i gerbydau sy'n gysylltiedig â'r gweithrediadau cloddio ar hyd priffordd gyhoeddus ddi-ddosbarth sy'n arwain o Fryncir i Lecheiddior Uchaf. Yna, gellir cael mynediad i leiniau eraill y safle ar hyd traciau oddi ar y ffordd a thrwy bwyntiau croesi cerbydau heb eu rheoli (ar hyd y briffordd Dosbarth 3 o Felin Llecheiddior i Efail Cennin).
- 1.4 Yn flaenorol, nid oedd y tir wedi'i ddatblygu ac fe'i defnyddiwyd ar gyfer amaeth ac mae'r amodau adfer a'r caniatâd cysylltiedig yn gofyn i'r tir gael ei adfer ar gyfer defnydd o'r fath.
- 1.5 Nid yw'r mwyn yn cael ei weithio ar y safle; mae hyn yn cael ei wneud yn Chwarel Bryncir (a leolir oddeutu 700m i ffwrdd ar hyd y ffordd), ac mae'n destun caniatâd cynllunio ac amodau ar wahân (C09D/0375/36/LL).
- 1.6 Mae Adran 73 yn galluogi ymgeisydd i wneud cais i ddatblygu tir heb gydymffurfio gydag amodau sydd ynghlwm â chaniatâd cynllunio blaenorol sy'n bodoli. Dan yr adran yma gall yr Awdurdod Cynllunio Lleol newid neu dynnu amodau ond ni all newid unrhyw ran arall o'r caniatâd. Mae cais a.73 llwyddiannus yn golygu caniatáu caniatâd cynllunio newydd ac felly mae'r caniatâd gwreiddiol yn parhau yn gyfan. Wrth benderfynu ar gais a.73, gall yr ACLI osod amodau y tu hwnt i'r rhai a gynigir yn y cais. Er hynny, dylai'r amodau a osodwyd ond fod yn rhai y gellid fod wedi eu gosod ar y caniatâd gwreiddiol. Yn flaenorol, y farn oedd na ddylai'r newidiadau a ganiateir olygu 'newid sylfaenol' i'r bwriad a gynigiwyd yn y cais gwreiddiol.
- 1.7 Nid yw'r datblygiad arfaethedig felly yn unol â'r disgrifiad a'r meini prawf a nodir yn Atodlen 1 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 2017. Fodd bynnag, mae'r datblygiad yn syrthio o fewn y disgrifiad o ddatblygiad a nodir ym Mhagraff 2, Atodlen 2 y Rheoliadau (chwareli, mwyngloddio agored a chloddio mawn) a pharagraff 13 (unrhyw newid neu estyniad i ddatblygiad...pan fo'r datblygiad hwnnw eisoes wedi ei awdurdodi, ei weithredu neu yn y broses o gael ei weithredu, ac y gall y newid neu'r estyniad gael effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd). Ar ôl sgrinio ac asesu'r bwriad yn unol â'r meini prawf datblygu dan Atodlen 3, ystyrir nad yw effaith debygol y datblygiad ar yr amgylchedd yn ddigon i gyfiawnhau cyflwyno Asesiad Effaith Amgylcheddol gyda'r cais cynllunio.

2. Polisiâu Perthnasol:

- 2.1 Mae Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys y Polisi Cynllunio Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Lleol.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

- 2.2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â champau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r saith nod llesiant sydd yn y Ddeddf.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r "egwyddor datblygu cynaliadwy", fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 a fabwysiadwyd ar 31 Gorffennaf 2017**

PS1: Yr Iaith Gymraeg a'i diwylliant
 PS 4: Trafnidiaeth gynaliadwy, datblygiad a hygyrchedd
 TRA 2: Safonau parcio
 TRA 4: Rheoli ardrawiadau cludiant
 PCYFF 2: Meini Prawf Datblygu
 PCYFF 3: Dylunio a siapio lle
 PCYFF 4: Dylunio a thirweddu
 PCYFF 6: Cadwraeth dŵr
 PS 5: Datblygiad cynaliadwy
 PS 13: Darparu cyfleoedd ar gyfer economi ffyniannus
 AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol
 PS 19: Cadw a lle bo'n briodol gwella'r amgylchedd naturiol.
 PS 20: Cadw a lle bo'n briodol gwella asedau treftadaeth
 MWYN 1: Diogelu adnoddau mwynau
 MWYN 2: Ardaloedd a Ffefrir
 MWYN 3: Datblygiadau Mwynau
 MWYN 5: Cylchfeydd Rhagod o amgylch Safleoedd Mwynau
 MWYN 9: Adfer ac ôl-ofal
 PS 22: Mwynau

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12 - Chwefror 2024).

Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (MTAM) Cymru 1: Agregau

Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 5: Cadwraeth Natur a chynllunio
 NCT 11: Sŵn, NCT 18: Cludiant
 NCT 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg
 NCT 24: Yr amgylchedd hanesyddol

3. **Hanes Cynllunio Perthnasol:**

- G23/0156: Mae Cam 3 yr ardal gloddio mwynau yn destun ymchwiliad gorfodaeth ar y cyd parhaus gan yr Awdurdod Cynllunio Mwynau a Chyfoeth Naturiol Cymru i waredu deunyddiau gwastraff anadweithiol heb awdurdod.
- C23/0522/36/LL 'Cais am estyniad fertigol o bwll tywod a graean presennol, ôl-lenwi rhannol ac adfer y safle ar gyfer amaeth' - Cais wedi'i dynnu yn ôl.
- C17/0837/16/AC 'Cais dan Adran 73 i amrywio amodau 1 a 2 ar ganiatâd cynllunio C12/0495/36/MW i ymestyn y cyfnod ar gyfer dechrau a gweithredu datblygiad i ennill a gweithio tywod a graean a'i adfer er defnydd amaethyddol' - Gwrthodwyd ar y sail bod y caniatâd eisoes wedi'i weithredu ar 29/11/2017.
- C12/0495/36/MW 'Ennill a gweithio tywod a graean a'i adfer er defnydd amaethyddol' –

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

Caniatawyd ar 29/04/2013.

- 3/4/1089 Cytundeb Cyfreithiol Adran 52 rhwng Arthur Salisbury Ltd a Chyngor Gwynedd ar gyfer adfer tir yn Llecheiddior Ganol ar ôl rhoi'r gorau i weithio mwynau - 17/11/1977.
- 5600 - Ymestyn pwll tywod a graean a chodi sied dros dro i weithwyr yn Llecheiddior Uchaf - Caniatawyd 03/04/1958.
- 5179 - Ailgychwyn ennill a gweithio pwll tywod a graean yn Llecheiddior Uchaf - Caniatawyd 18/11/1957.
- Caniatâd cynllunio dan Ddeddf Cynllunio 1945 ar gyfer ennill a gweithio tywod a graean yn Llecheiddior Uchaf - Caniatawyd ar 06/05/1947.

Hefyd yn berthnasol mae'r caniatâd ar gyfer prosesu deunyddiau yn Chwarel Bryncir dan;

- C09D/0375/36/LL 'Prosesu a bagio agregau, crynhoi concriid yn ogystal ag ailgylchu pridd a deunyddiau gwastraff anadweithiol megis llechi, tywod a graean' – Caniatawyd ar 12/04/2010.

4. Ymgynghoriadau:

Cyngor Cymuned:

Ymateb wedi'i dderbyn ar 04/11/2022:

Fe wnaeth y Cyngor Cymuned gyfarfod neithiwr, a thrafodwyd y cais a ganlyn: C22/0977/36/AC: Nid oes gwrthwynebiad ar yr amod bod amodau caeth hir yn cael eu hatodi i'r cais cynllunio i reoli llwch sy'n cael ei adael ar y ffordd/palmant/fffenestri a drysau tai yn y Bryncir. Mae'r Cyngor yn teimlo'n gryf bod angen amodau er mwyn peidio â gorlwytho cerbydau, rhoi dalen/gorchudd dros y llwythi ac/neu wlychu'r llwythi bob amser cyn iddynt gael eu cario drwy'r pentref. Yn ogystal, bod y ffordd a'r palmant yn cael eu glanhau yn rheolaidd.

Yr Uned Drafnidiaeth:

Derbyniwyd ymateb ar 22/11/2022:

Dyma'r sylwadau a roddwyd i'r ymgeisydd yn ystod y PAC (ar gais ar wahân, C23/0522/36/LL):

Nodaf fod y gwaith cloddio gyfochrog â'r briffordd. Gofynnaf i chi ddarparu croestoriadau dangosol i gadarnhau lleoliad a phroffil y gwaith cloddio mewn perthynas â'r briffordd i arddangos na fydd unrhyw effaith. Ar ôl cynnal ymweliad safle, nodwyd bod cyflwr y ffordd fynediad yn dirywio. Wrth ystyried hyn ac y byddai'r cynnig, ar gyfartaledd, yn dyblu'r symudiadau cerbydol sy'n gysylltiedig â'r chwarelydda, gofynnaf i chi gytuno i gynnal a chadw'r ffordd ar gyfer y cyfnod pan fydd safleoedd y chwarel yn weithredol. Ar y cyd â hyn, gofynnaf i chi gytuno i drefnu arolygon cyflwr rheolaidd ar gyfer y ddau strwythur sy'n croesi cyrsiau dŵr, y dylid eu cynnal gan sefydliad priodol. Buaswn hefyd yn croesawu cynnig sy'n manylu ar ailsefydlu'r ffordd yn barhaol a thrafodaethau i gadarnhau amserlen ar gyfer y gwaith yma.

Uned Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Derbyniwyd ymateb ar 01/11/2022:

Cyfeiriaf at y cais uchod. Nid yw'n ymddangos bod unrhyw Hawliau Tramwy a gofnodwyd yn cael eu heffeithio gan y bwriad yma.

Cyfoeth Naturiol Cymru:

Derbyniwyd ymateb ar 11/11/2022:

Dim gwrthwynebiad a chyngor cyffredinol wedi'i ddarparu.

Dŵr Cymru:

Heb gyflwyno sylwadau.

Uned Gwarchod y Cyhoedd:

Heb gyflwyno sylwadau.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

Uned Bioamrywiaeth:

Derbyniwyd ymateb ar 03/01/2023:

Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad i egwyddor yr estyniad yma o ran amser; fodd bynnag, argymhellaf bod yr ymgeisydd yn darparu adroddiadau wedi'u diweddarau ar ecoleg, hydroleg, a chynllun adfer.

Data safle

- Mae Safleoedd Bywyd Gwyllt ymgeisiol (anstatudol) y drws nesaf i'r chwarel arfaethedig. Mae'r Safle Bywyd Gwyllt yma yn uniongyrchol ar ffin y chwarel arfaethedig. Mae'r cynefin yma yn goedlan wlyb o helyg llwyd gwasgar-edig a tir gwlyb asidaidd gyda mwsoglau Sphagnum, llyg-aeron, fioled y gors, sêr-hesgen, ceiniog y gors, glaswellt y bwla, gwlyddyn mair y gors a grug. Mae'r Safle Bywyd Gwyllt yma o werth bioamrywiaeth uchel, yn cynnwys cynefinoedd sydd wedi'u rhestru dan adran 7 Deddf Amgylchedd 2016 gan Lywodraeth Cymru fel: *wet woodland & upland flushes and fens*.
- Mae telor y gwair yn bresennol gyferbyn â'r safle; mae'r aderyn hwn hefyd wedi'i restru dan adran 7.
- Mae safle'r chwarel o fewn 500 metr i afon Dwyfach, sydd â chofnod o infertebratau dyfrol prin ac sydd mewn perygl, sy'n hynod sensitif i lygredd.

Adroddiadau Ecolegol

Dim wedi'i ddarparu ar gyfer y cais hwn i ryddhau'r amodau, ond darparwyd sawl adroddiad ecolegol ar gyfer y cais mwynau cychwynnol yn 2012.

Hydroleg

Nododd yr adroddiad hydroleg yn 2012 na ddylai'r gwaith cloddio fod yn ddyfnach nag 1 metr uwchben y tabl dŵr. Rwy'n argymhell bod adroddiad hydrolegol wedi'i ddiweddarau yn cael ei ddarparu i sicrhau nad yw'r gwaith o gloddio mwynau wedi effeithio hydroleg y Safle Bywyd Gwyllt gerllaw a'i gynefinoedd gwlyptirol. Dylid darparu adroddiad monitro hydrolegol.

Cynllun Adfer a Gwella Bioamrywiaeth

Nid oes copi o gynllun adfer gyda'r cais cynllunio hwn na'r cais yn 2012. Argymhellaf cyn i'r amodau hyn gael eu rhyddhau bod cynllun adfer yn cael ei ddarparu sy'n dangos gwelliannau bioamrywiaeth drwy greu cynefinoedd megis porfa frwynaidd, pyllau bychan, banciau tywod ar gyfer adar sy'n nythu a gwenyn, ac ati.

Rhywogaethau Estron Goresgynnol (INNS)

Argymhellaf bod adroddiad wedi'i ddiweddarau ar blanhigion ymledol sydd ddim yn gynhenid, yn cael ei ddarparu, yn dangos y lleoliad ar fap ac ehangder yr holl INNS.

Afon Dwyfach

Rhaid darparu cynllun atal llygredd.

Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd:

Derbyniwyd ymateb ar 26/10/2022:

Diolch i chi am yr ymgynghoriad isod. Nid oes unrhyw oblygiadau archeolegol yn gysylltiedig ag amrywio'r amodau hyn ac felly nid oes gennym unrhyw sylwadau.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

Asiant Cefnffyrdd Gogledd a
Chanolbarth Cymru:

Derbyniwyd ymateb ar 16/11/2022:

Cyfeiriaf at eich ymgynghoriad ar 26/10/2022 ynglŷn â'r cais cynllunio uchod ac fe'ch cynghorwn nad yw Llywodraeth Cymru, yr awdurdod priffyrdd ar gyfer cefn ffordd yr A487, wedi cyhoeddi cyfarwyddyd mewn perthynas â'r cais hwn.

CADW:

Derbyniwyd ymateb ar 01/11/2022:

Diolch yn fawr i chi am ymgynghori.

Cyngor

CN021 Carreg Arysgrifenedig Llystyn Gwyn

CN280 Cylch Cwt i'r Dwyrain o Daleifion

CN281 Grŵp Cytiau Amgaeedig i'r gogledd-ddwyrain o Lystyn Uchaf

Mae'r henebion cofrestredig uchod wedi'u lleoli o fewn 3km o'r datblygiad arfaethedig, heblaw am CN281 Grŵp Cytiau Amgaeedig i'r gogledd-ddwyrain o Lystyn Uchaf lle mae'r topograffi, adeiladau a bloc llystyfiant yn rhwystro'r holl olygfeydd rhyngddynt.

Y bwriad yw ymestyn y cyfnod ar gyfer ennill a gweithio mwynau hyd at 31/12/2030 ac adfer y safle erbyn 31/12/2031 a chynyddu'r allbwn blynyddol o ddeunydd o'r safle o 100,000 o dunelli ar gyfradd gyfartalog o 14 llwyth y dydd a defnyddio deunydd sydd heb darddu o'r gweithrediadau a ganiateir ar y safle fel rhan o'r cynllun adfer. Er bod posibilrwydd ei fod yn rhyng-weledol gyda'r ardal sy'n cael ei chwarelydda a'i adfer, mae'r cynnig y tu allan i'r olygfa arwyddocaol sy'n cael ei nodi. O'r herwydd, efallai y bydd newid gweledol bychan iawn yn yr olygfa o'r heneb, ni fydd yn cael unrhyw effaith ar y ffordd y mae'n cael ei brofi, ei ddeall, a'i werthfawrogi. O ganlyniad, ni fydd y datblygiad arfaethedig yn cael unrhyw effaith ar osodiad heneb gofrestrdig. Felly, nid oes gan Cadw unrhyw wrthwynebiadau.

Parc Cenedlaethol Eryri:

Dim ymateb

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

Ymgynghoriadau Cyhoeddus: Rhoddwyd hysbysiad yn y wasg, a hysbysiau mewn sawl lleoliad ger y safle ac fe hysbyswyd trigolion gerllaw. Mae'r cyfnod hysbys-ebu wedi dod i ben, ac fe gyflwynwyd sylwadau yn nodi gwrthwyn-ebiad ar y sail a ganlyn;

- Mae cerbydau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cludo deunyddiau i Chwarel Bryncir ar gyfer defnydd y 'safle' ac nid ar gyfer y ffordd gyhoeddus (dan Adran 149 y Ddeddf Prifffyrdd).
- Nid yw'r symudiadau cerbydol dan y gweithrediadau a ganiateir wedi'u dalennu na'u golchi cyn mynd ar y briffordd ac felly, mae llwch yn dianc yn broblem gyson.
- Mae symudiadau cerbydol presennol yn gadael swm sylweddol o lygredd llwch ar y briffordd gyhoeddus/palmant ac eiddo preswyl.
- Mae arwyneb y ffordd i'r ardal gloddio mewn cyflwr gwael iawn ac yn gwaethygu'r broblem llwch ynghyd â'r graean sy'n cael ei gario i'r pentref a'r briffordd.
- Mae'r ssubwr ffordd a gyflogir gan y gweithredwr ar hyn o bryd yn codi mwy o lwch (na cherbydau sy'n cludo mwynau o'r safle).

5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol

Egwyddor y datblygiad

- 5.1 Mae'r newidiadau arfaethedig i'r amodau cynllunio presennol yn cynnwys oes gweithio estynedig i'r chwarel, cynnydd yn y tunelli o allbwn blynyddol, cynnydd mewn allbwn traffig a chludo yno a defnyddio priddoedd neu ddeunyddiau sy'n ffurfio pridd wrth adfer.
- 5.2 Mae'r egwyddor o ymestyn oes y gweithrediadau cloddio mwynau ar y safle hyd 31/12/2030 drwy addasu amod 2 (C12/0495/36/MW) yn seiliedig ar bolisi Mwynau Strategol PS 22 a Pholisi MWYN 3 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 (CDLI ar y Cyd). Mae Polisi PS 22 yn datgan y bydd y Cyngor yn cyfrannu at y galw parhaol yn lleol a rhanbarthol am gyflenwad o fwynau trwy gynnal gwerth o leiaf 7 mlynedd o fanc tir o Dywod a Graean a banc tir 10 mlynedd wrth gefn o agregau cerrig mâl yn unol ag arweiniad cenedlaethol.
- 5.3 Mae Polisi Cynllunio Cymru - Argraffiad 12 (PCC) yn ymgorffori polisiâu cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygiadau mwynau a amlinellwyd yn flaenorol ym Mholisi Cynllunio Mwynau Cymru (2001). Yn unol â gofynion PCC 12, mae gan Gyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Cynllunio Mwynau ddyletswydd i sicrhau bod adnoddau mwynol yn cael eu defnyddio mewn modd cynaliadwy, fel y gallant gyfrannu'n briodol at ofynion deunyddiau adeiladu'r ardal. Dyma'r prif egwyddorion a nodir yn adran 5.14 (Mwynau) PCC:
- Darparu'n gadarnhaol ar gyfer diogelwch a gwaith adnoddau mwynau i ddiwallu anghenion cymdeithas heddiw ac yfory, gan annog defnydd effeithlon a phriodol o ddeunyddiau o safon uchel;
 - Gwarchod nodweddion amgylcheddol a diwylliannol lleoedd, gan gynnwys y rhai â phriodol- eddau cynhenid megis bywyd gwylt, tirweddau, coetiroedd hynafol a nodweddion hanesyddol, ac amddiffyn iechyd a diogelwch a llesiant cyffredinol pobl;
 - Lleihau effaith cloddio am fwynau a gweithrediadau cysylltiedig yn ystod y cyfnod gweithio trwy sicrhau bod unrhyw effaith ar nodweddion amgylcheddol perthnasol a achosir gan gloddio am fwynau a chludo mwynau, er enghraifft, ansawdd yr aer a seinwedd, o fewn y terfynau derbyniol; a
 - Cyflawni, yn ddi-gyfadawd, safon uchel o adfer ac ôl-ofal er mwyn osgoi adfeilio a dod â buddion i gymunedau, treftadaeth ac/neu fywyd gwylt, yn cynnwys ôl-ddefnyddiau buddiol neu gyfleoedd i wella bioamrywiaeth a'r amgylchedd hanesyddol.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

- Ymysg amcanion eraill, mae Polisi Cynllunio Cymru yn cydnabod bod gweithio mwynau yn wahanol i ffurfiau eraill o ddatblygiad gan mai dim ond lle mae'r mwyn i'w gael y gellir ei gloddio ac mae'r datblygiad yn un trosiannol ac ni ellir ei ystyried fel defnydd tir parhaol er y gall y gwaith ddigwydd dros gyfnod hir o amser.
- 5.4 Mae Cyngor Gwynedd, ar y cyd â holl Awdurdodau Cymru wedi ardystio'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (RTS) a gynhyrchwyd gan Weithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWRAP). Paratowyd y datganiad yn unol â darpariaethau Polisi Cynllunio Mwynau (Cymru) a Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 1: Agregau (NCTM1), i osod amcan cyffredinol i sicrhau cyflenwad o agregau y mae modd ei reoli'n gynaliadwy;
- "... fel ein bod yn taro'r cydbwysedd gorau rhwng ystyriaethau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol, gan hefyd sicrhau bod effeithiau unrhyw waith cloddio angenrheidiol ar yr amgylchedd a mwynderau yn cael eu cadw i lefel sy'n osgoi peri niwed amlwg i fuddiannau o bwys cydnabyddedig".*
- 5.5 Prif ddiben y Datganiad Technegol Rhanbarthol yw amlinellu'r strategaeth ar gyfer darparu'r agregau yn rhanbarth gogledd Cymru. Roedd RTS 2021 wedi adnabod cronfa wrth gefn bresennol a ganiateir o dywod a graean yng Ngwynedd o 1.175 miliwn tonnell (cyfystyr â banc tir 6.7 mlynedd), gyda diffyg o ran y dyraniad isaf sydd ei angen i gwrdd â'r ddarpariaeth ofynnol o 2.659 miliwn tonnell.
- 5.6 Mae'r ymgeisydd wedi nodi mai'r rheswm am addasu amod 2 yw; ***"Restricted operations and limited demand during the period of COVID limitations means that extraction of permitted minerals will not be completed by the date of 31/12/2025 required by Condition 2. Variation of Condition 2 to allow extraction until 31/12/2031 will allow extraction throughout the lease period."*** ac amod 5;
- 5.7 Mae'r diwygiadau arfaethedig ar gyfer ymestyn y cyfnod i ennill a gweithio mwynau hyd at 31/12/2030 ac adfer y safle erbyn 31/12/2031 (Amod 2), cynyddu'r allbwn blyneddol o ddeunyddiau o'r safle i 100,000 o dunelli ar gyfartaledd 14 llwyth y dydd (Amod 5) a defnyddio deunydd sydd heb darddu o weithrediadau ar y safle fel rhan o'r cynllun adfer (Amod 37).
- 5.8 Bydd parhau i gloddio am dywod a graean yn Llecheiddior Uchaf yn sicrhau bod y Cyngor yn diwallu ei oblygiadau dyraniad yn yr RTS, i gyflenwi mwynau ar gyfer is-ranbarth Gogledd Cymru a chadw banc tir saith mlynedd o dywod a graean. Ychydig o gronfeydd tywod a graean a ganiateir sydd ar gael yng ngogledd orllewin Cymru a bydd y cynnig hwn yn sicrhau cyflenwad hanfodol o dywod a graean i'r economi adeiladu leol, ac felly mae egwyddor y datblygiad yn dderbyniol.

Mwynderau gweledol a'r dirwedd

- 5.9 Mae polisiau PCYFF 3, PCYFF 4, MWYN 3 a MWYN 9 y CDLI ar y Cyd i gyd yn ystyriaethau perthnasol wrth asesu'r effeithiau ar y dirwedd a'r effeithiau gweledol. Mae arwyddocâd effeithiau o'r fath yn cael ei bennu gan effaith gyfunol ar faint y newid a sensitifrwydd y dirwedd sy'n derbyn.
- 5.10 Mae'r cais hwn yn ceisio ymestyn oes weithredol y datblygiad ac addasu geiriad amod 37 fel bod modd mewnfario deunydd er dibenion adfer. Er y byddai ymestyn y cyfnod gweithredol yn ymestyn yr effeithiau gweledol cysylltiedig naturiol yn y tymor canolig, mae'r safle yn ffurfio rhan o'r gwaith mwynau sydd wedi'i sefydlu. Yn y cyd-destun hwn, ni ystyrir y byddai'r cynnig yn arwain at unrhyw effeithiau gweledol ychwanegol arwyddocaol.
- 5.11 Mae gweithio tywod a graean yn gymharol ddeinamig o'i gymharu â chloddio am graig galed gan fod reserfau yn gyffredinol ar gael dan dir amaethyddol ac efallai y byddant yn cael eu gweithio yn gymharol sydyn gyda pheiriant turio. O ganlyniad, mae'r Awdurdod Cynllunio Mwynau

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

angen i waith adfer cynyddol i fantoli yn erbyn colli mwynderau a thir cynhyrchiol i liniaru effeithiau gwaith o'r fath. Hyd yma, mae'r ardaloedd sydd wedi'u gweithio wedi cael eu hadfer yn effeithiol, yn bennaf yn ôl i ddefnydd amaethyddol, ac mae bellach yn integreiddio yn dda gyda'r dirwedd o amgylch.

- 5.12 Ar hyn o bryd, mae amod 37 yn cyfyngu ar y deunyddiau y gellir eu dyddodi i wastraff mwynau a geir o'r ardal caniatâd. Wrth i'r mwynau sy'n cael eu cloddio a'u cludo i Chwarel Bryncir i'w prosesu, ar hyn o bryd nid oes unrhyw fecanwaith sy'n caniatáu i wastraff mwynau a geir o brosesu'r deunyddiau i ddychwelyd i'r safle.
- 5.13 Hefyd, nid oes unrhyw fecanwaith sy'n caniatáu i allforio unrhyw ddull twf adfer os yw'r defnydd o ddeunyddiau ar y safle yn aflwyddiannus. Mae'r lwfans ar gyfer priddoedd wedi'u cludo yno neu ddeunyddiau sy'n ffurfio pridd, yn amodol ar gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw o'u haddasrwydd, mae'n darparu hyblygrwydd i fedru adfer.
- 5.14 Mae'r amod yn angenrheidiol i sicrhau bod yr adferiad yn cael ei weithredu mewn dull rheoledig, tryloyw a chydymffurfiol, gan ddefnyddio dim ond deunyddiau sy'n cael eu gweld yn angenrheidiol ar gyfer ôl-ddefnydd amaethyddol cymeradwy neu wastraff mwynau sy'n tarddu o'r safle cloddio. Mae cyfyngu ar gludo yno (i) priddoedd/deunyddiau sy'n ffurfio pridd sydd wedi'u rhaggymeradwyo'n addas fel dull tyfu a (ii) gwastraff mwynau sy'n codi o weithrediadau Llecheiddior (yn cynnwys pan fyddant yn cael eu prosesu yn y Bryncir dan y caniatâd perthnasol), yn atal gwarediad anawdurdodedig o wastraff anadweithiol ac yn sicrhau nad yw'r cynnig yn gyfystyr â ffurf gwahanol o ddatblygiad.
- 5.15 Mae angen i'r gweithredwr gynnal a chyflwyno cofnodion manwl o'r holl symudiadau deunyddiau rhwng Llecheiddior a Bryncir gan ddarparu tryloywder a chaniatáu i'r Awdurdod Cynllunio Lleol fonitro cydymffurfiaeth yn effeithiol. Ystyrir bod y mecanwaith hwn yn angenrheidiol ac yn gymesur i sicrhau bod y gwaith adfer yn bwrw ymlaen fel y'i cymeradwyir ac i warchod ansawdd amgylcheddol a mwynderau yn unol â Pholisi PS 19.
- 5.16 Yn gyffredinol, mae'r cyflwr diwygiedig yn cynrychioli dull wedi'i reoli ac sy'n orfodadwy i reoli deunyddiau adfer, gan sicrhau mai dim ond priddoedd priodol a gwastraff mwynau sy'n ymwneud â'r safle sy'n cael ei ddyddodi, bod cyfeintiau yn aros o fewn cyfyngiadau diffiniedig, a bod y datblygiad yn parhau i weithredu o fewn sgôp y cynllun a ganiatawyd yn wreiddiol.
- 5.17 O ystyried ôl-troed presennol y chwarel, mae'r effeithiau ar y dirwedd a'r effaith weledol sy'n gysylltiedig â'r gweithrediad parhaus yn parhau i fod yn gyfyngedig. Mae ymestyn amserlen y datblygiad a'r addasiadau i ganiatáu ar gyfer mewnforio cyfyngedig priddoedd neu ddeunyddiau sy'n ffurfio pridd a gwastraff mwynau sy'n tarddu o'r safle na fyddai'n cyflwyno unrhyw newidiadau arwyddocaol yn hyn o beth. Felly, yn amodol ar gadw'r amodau presennol, ystyrir bod y cynnig yn cydymffurfio â Pholisiâu PCYFF 3, PCYFF 4, MWYN 3, MWYN 9 a PS 19 y CDLI ar y Cyd.

Mwynderau cyffredinol a phreswyl

- 5.18 Mae Polisi MWYN 3 y CDLI ar y Cyd yn datgan y bydd estyniadau i safleoedd mwynau presennol yn dderbyniol cyn belled nad oes unrhyw niwed annerbyniol i fwynderau nac iechyd trigolion lleol o ran yr effaith weledol, lefelau llwch, sŵn, dirgrynu a golau o ganlyniad i'r gwaith ei hun neu'r symudiadau traffig a geir yn ei sgil.
- 5.19 Mae NCTM 1 Cymru; Agregau a pholisi MWYN 5 y CDLI ar y Cyd yn cydnabod y ceir gwrthdaro'n aml rhwng gweithfeydd mwynau a defnyddiau tir eraill, ac felly mae wedi sefydlu'r egwyddor o barthau byffer o amgylch gweithfeydd mwynau sydd â chaniatâd a gweithfeydd sydd wedi'u dyrannu. Diben y parth byffer yw gwarchod defnyddiau tir sy'n fwyaf sensitif i effaith gweithfeydd mwynau, drwy sefydlu pellter gwahanu. Mae NCTM1 yn argymhell pellter sydd yn o leiaf 100 metr ar gyfer gweithfeydd tywod a graean. Mae un eiddo sengl, Llecheiddior Uchaf, o fewn 100m o'r ardal caniatâd. Mae'r ddau gam agosaf y datblygiad wedi'u mwynloddio yn llawn

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADUAN CYNORTHWYOL	

a'u hadfer i ddefnydd amaethyddol ac mae'r ardaloedd cloddio sy'n weddill y tu hwnt i'r byffer 100m.

- 5.20 Mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno Aseiad Trafnidiaeth (diwygiwyd ym mis Hydref 2025), sy'n ystyried goblygiadau traffig y datblygiad arfaethedig. Mae'r aseiad yn adnabod bod symudiadau traffig ychwanegol gyfystyr â chyfartaledd o 14 llwyth HGV y dydd, gan ddefnyddio cerbydau 25-tunnell, gydag uchafswm o 28 llwyth y dydd. Byddai'r llwybr cludo arfaethedig yn parhau heb ei newid ac yn defnyddio rhan bresennol o'r ffordd gyhoeddus sydd wedi'i chau, sydd heb fod ar gael i draffig cyffredinol ers 2019. Mae'r caniatâd cynllunio presennol yn caniatáu ar gyfer 14 llwyth HGV y dydd ar sail flynyddol. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd gweithredol i ymateb i wahaniaethau yn y galw heb arwain at gynnydd cyffredinol mewn symudiadau traffig. Yn ymarferol, byddai hyn yn cynhyrchu lefelau traffig sy'n cymharu â gweithredu ar gyfradd sefydlog o 14 llwyth bob diwrnod gwaith drwy'r flwyddyn. Y dewis amgen i'r dull arfaethedig fyddai ymestyn hyd y gweithrediadau echdynnu mwynau er mwyn galluogi adferiad llawn y mwynau a ganiateir. Byddai hyn yn ymestyn oes weithredol y safle a'r effeithiau cysylltiedig, yn cynnwys symudiadau HGV, dros gyfnod hwy, yn hytrach na chanolbwyntio'r gweithgarwch yn yr amserlen arfaethedig gyffredol.
- 5.21 O ystyried y pellter gwahanu a'r dystiolaeth i ddangos bod y safle eisoes yn gweithredu heb beri niwed i fwynderau o dan delerau amodau cynllunio a/neu drwyddedau amgylcheddol, ystyrir bod y cynnig yn cydymffurfio â pholisi PCYFF 2, MWYN 3 a MWYN 5 y CDLI ar y Cyd.
- 5.22 Ystyrir felly, yn ddarostyngedig i amodau priodol i reoli effeithiau sŵn a llwch ac oriau gweithio, ni fydd y cynnig yn cael effaith andwyol ar fwynderau'r ardal ac felly mae'n cydymffurfio â pholisiau PCYFF 2, MWYN 3 a MWYN 5 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Materion traffig, Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Thir Comin

- 5.23 Mae'r cynnig yn cynnwys cynnydd yn y cyfyngiad ar y tunelli sy'n cael eu hechdynnu o 50,000 i 100,000 tonnall y flwyddyn.
- 5.24 Nid oes unrhyw brosesu mwynau ym mhwl tywod a graean Llecheiddior Uchaf ac mae'r holl fwynau sy'n cael eu echdynnu yn cael eu cludo i safle cyfagos yr ymgeisydd yn Chwarel Bryncir. Mae gweithrediadau yn Chwarel Bryncir yn cael eu caniatáu dan ganiatâd cynllunio ar wahân, cyfeirnod C09D/0375/36/LL, ar gyfer prosesu a phacio agregau, sypio concriid ynghyd ag ailgylchu pridd a deunyddiau gwastraff anadweithiol megis llechi, tywod a graean.
- 5.25 Nid yw'r ddau safle yn gysylltiedig mewn termau cynllunio ac nid oes gofyniad penodol ar y caniatâd presennol i fwynau sy'n cael eu hechdynnu yn Llecheiddior Uchaf i gael eu prosesu yn Chwarel Bryncir.
- 5.26 Mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno Aseiad Trafnidiaeth (diwygiwyd ym mis Hydref 2025). Mae'r aseiad hwn yn manylu ar y symudiadau traffig ychwanegol fydd gyfystyr â chyfartaledd o 14 o lwythi 25 tonnall y dydd, hyd at uchafswm o 28 llwyth y dydd gyda'r llwybr cludo yn parhau heb ei newid ac yn cael ei ddarparu gan ffordd gyhoeddus bresennol sydd wedi'i chau (ers 2019).
- 5.27 O ystyried bod tri cham cyntaf y datblygiad wedi'i cwblhau, dim ond Cam 4 sy'n parhau i fod heb ei echdynnu. Cafodd y mwynau sydd ar gael yng Ngham 4 eu cyfrifo i fod oddeutu 347,040 tonnall wrth gyflwyno'r cais gwreiddiol.
- 5.28 Ni chodwyd gwrthwynebiad gan Awdurdod Priffyrdd Cyngor Gwynedd neu Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.
- 5.29 Felly, ystyrir bod y rhwydwaith ffyrdd presennol o ansawdd digonol i ymdrin â llif y traffig a ddisgwylir o ddatblygiad y safle, ac felly, mae'n cydymffurfio â Pholisi TRA 4 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADUAN CYNORTHWYOL	

Hydroleg a Hydroddaeareg

- 5.30 Nid yw'r cais yn cynnig unrhyw newidiadau i'r mesurau hydrolegol presennol a gymeradwywyd yn flaenorol fel rhan o'r datblygiad hwn.
- 5.31 Ers cyflwyno'r cais, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi NCT 15 diwygiedig ar 31 Mawrth 2025. Teitl yr NCT 15 diwygiedig yw 'Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol' ac mae'n cynnwys Cylchlythyr 002/2025 'Canllaw ar Gyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Ardal Risg Llifogydd) (Hysbysiad) 2025' a llythyr o eglurhad gan Brif Gynllunydd Cyfarwyddiaeth Cynllunio Llywodraeth Cymru. Mae adran 1 yr NCT 15 newydd yn nodi "*Mae'r ddogfen hon yn disodli Nodyn Cyngor Technegol 14, a gyhoeddwyd ym 1998 a Nodyn Cyngor Technegol 15, a gyhoeddwyd yn 2004. Ni ddylai Cynlluniau Datblygu a phenderfyniadau cynllunio gyfeirio at y dogfennau hynny mwyach.*"
- 5.32 Fodd bynnag, mae'r llythyr o eglurhad yn datgan "*...gall gyhoeddi canllaw newydd effeithio ar brosesu ceisiadau cynllunio, felly bydd cyfnod trosiannol ar gyfer gweithredu'r NCT. Bydd ceisiadau cynllunio a gyflwynwyd ac a gofrestrwyd cyn cyhoeddi'r NCT newydd yn parhau i gael eu hasesu yn erbyn y fersiwn flaenorol...*"
- 5.33 Felly, yr arweiniad swyddogol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ceisiadau cynllunio a gyflwynwyd ac a gofrestrwyd cyn 31 Mawrth 2025 yw i asesu'r perygl llifogydd yn seiliedig ar gynnwys polisi rhifyn cyntaf NCT 15 a gyhoeddwyd yn 2004.
- 5.34 Mae NCT 15 (2004) yn cael ei gefnogi gan Fapiau Cyngor Datblygu (DAM) sydd wedi'u disodli gan Fap Llifogydd ar gyfer Cynllunio (FMfP) a ryddhawyd wrth aros am fabwysiadu'r NCT 15 diwygiedig. Oherwydd yr oedi wrth fabwysiadu'r NCT 15, bu'n rhaid i ACLI ystyried y Mapiâu Cyngor Datblygu a'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio o ystyried bod y Map Llifogydd yn cynnwys y data mwyaf diweddar a chywir.
- 5.35 Mae rhannau bach o safle'r cais wedi'u lleoli ym 'Mharth Llifogydd Dŵr Wyneb a Chwrs Dŵr Bach 3' ar y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio. Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau na phryderon mewn perthynas â draenio na pherygl llifogydd mewn ymateb i ymgynghori â Chyfoeth Naturlol Cymru neu'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol ac ystyrir, felly, na fydd y cynnig yn cael effaith andwyol ar y perygl llifogydd a'i fod yn cydymffurfio â PCYFF 6 a gofynion NCT 15 (2004).
- 5.36 Ystyrir na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cael unrhyw effaith niweidiol ar nodweddion hydrolegol a pherygl llifogydd ac yn cydymffurfio â gofynion Polisi Strategol PS 19 a Pholisi AMG 3, AMG 5, PCYFF 2, PCYFF 3, PCYFF 6 a MWYN 3 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.

Materion ecolegol a bioamrywiaeth

- 5.37 Mae'r safle wedi'i leoli ar dir amaethyddol gyda safleoedd bywyd gwyllt ymgeisiol gerllaw a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig 'Llystyn Gwyn' 500-600m i'r de-ddwyrain.
- 5.38 Mae swyddog bioamrywiaeth yr awdurdod lleol wedi'i ymgynghori ac wedi darparu sylwadau ar y datblygiad. Y safleoedd sensitif allweddol sy'n amgylchynu'r safle yw;
- Mae Safle Bywyd Gwyllt Ymgeisiol yn sefyll yn union gyferbyn â ffin y chwarel, yn cynnwys coetir gwlyb a chynefin gwlyb uwchdirol/ffen o werth bioamrywiaeth uchel (Adran 7, cynefin-oedd).
 - Mae telor y gwair yn bresennol wedi'i gofnodi gyferbyn â'r safle (rhywogaethau Adran 7).
 - Mae safle o fewn 500 metr o afon Dwyfach, sy'n cefnogi infertebratau dyfrol prin ac sydd mewn perygl.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

- 5.39 Er bod y swyddog bioamrywiaeth wedi codi sawl pryder, mae'r cais sydd gerbron yn gais Adran 73 sydd yn ceisio amrywio'r amserlen yn unig, cymeradwyo'r gyfradd echdynnu a'r dull adfer. Nid oes unrhyw newidiadau yn cael eu cynnig yn yr ardal weithio gymeradwy, tirffurf adfer, neu ddulliau gweithredol. Cafodd y caniatâd presennol ei roi gyda chyfres gynhwysfawr o amodau ecolegol, sy'n parhau i fod yn orfodadwy a bydd yn cael ei ail-atodi i'r caniatâd hwn.
- 5.40 Nid oes colled cynefin ychwanegol neu effeithiau wedi'u haddasu yn cael eu cynnig a bydd unrhyw risgiau ecolegol sy'n codi yn ystod y cyfnod gweithredol yn parhau i gael eu rheoli drwy'r amodau presennol, sydd eisoes yn gofyn am amddiffyniad, lliniaru a monitro priodol.
- 5.41 Roedd asesiad hydrolegol 2012 a'i amod cysylltiedig (gan gynnal isafswm o 1m o 'stand-off' uwchben y tabl dŵr), yn parhau i fod mewn grym a bydd yn parhau i reoleiddio'r datblygiad. Nid yw'r cynnig yn cyflwyno unrhyw weithio dyfnach, newydd na llwybrau hydrolegol wedi'u haddasu.
- 5.42 O'r herwydd, nid oes newid yn y risg hydrolegol sylfaenol, ac mae'r monitro presennol a'r gofynion 'stand-off' yn parhau i fod yn briodol i ddiogelu'r cynefin gyferbyn. Bydd yr amodau hyn yn cael eu cadw ar y caniatâd newydd i sicrhau gwarchodaeth barhaus.
- 5.43 Mae'r caniatâd gwreiddiol yn diffinio'n glir yr adferiad terfynol fel dychwelyd i ddefnydd amaethyddol. Mae hyn yn ffurfio rhan o ddisgrifiad y datblygiad ac ni ellir ei addasu'n gyfreithiol dan gais Adran 73.
- 5.44 Ni ellir gofyn am welliannau bioamrywiaeth lle maent yn gwrthdaro â'r ôl-ddefnydd sydd wedi'i gymeradwyo, neu a fyddai'n diwygio'r cynllun adfer sydd wedi'i awdurdodi. Mae'r amodau adfer ac ôl-ofal presennol yn parhau i fod yn orfodadwy a bydd yn parhau i sicrhau dychweliad priodol i dir amaethyddol yn unol â'r cais gwreiddiol.
- 5.45 Nid yw'r ardal waith wedi'i newid, ac ni chynigir unrhyw dir ychwanegol i amharu arno. Mae'r caniatâd presennol yn cynnwys amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol...
- 5.46 Mae'r caniatâd presennol eisoes yn cynnwys amodau sy'n gofyn am fesurau atal llygredd, draenio'r safle yn briodol a mesurau diogelu i gyrsiau dŵr. Bydd yr amodau hyn yn cael eu cadw. Gan nad oes unrhyw ddatblygiad newydd yn effeithio ar offer, seilwaith neu ddulliau gweithio yn cael eu cynnig, mae'r fframwaith rheoli llygredd presennol yn parhau i fod yn briodol i sicrhau gwarchodaeth barhaus afon Dwyfach.
- 5.47 Yn unol â hynny, nid yw gwaith ecolegol, hydrolegol neu waith arolygu INNS pellach, neu ddiwygiadau i'r cynllun adfer cymeradwy, yn cael eu hystyried yn angenrheidiol nac yn cael eu cyfiawnhau fel rhan o'r cais hwn am y cynnig. Ar y sail yma, ystyrir bod y cynnig hwn yn cydymffurfio â Pholisi Strategol PS 19 a Pholisiau AMG 3, AMG 5, MWYN 3 a MWYN 9 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.
- 5.48 Ar y sail hon, ystyrir bod y cynnig hwn yn cydymffurfio â Pholisi Strategol PS 19 a Pholisiau AMG 3, AMG 5, MWYN 3 a MWYN 9 a Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026.

Archaeoleg a threftadaeth ddiwylliannol

- 5.49 Cafodd arolwg ac asesiad archeolegol ei gyflwyno fel rhan o'r cais gwreiddiol. Mae'r fanyleb am waith archeolegol sydd ei hangen dan y rhiant-ganiatâd hwn wedi'i ryddhau yn ffurfiol ers hynny, ac mae'r datblygiad yn parhau i fod yn destun cydymffurfiaeth barhaus gyda'r manylion cymeradwy hyn. Mae'r asesiad archeolegol yn darparu fframwaith briodol ar gyfer unrhyw ymchwiliad archeolegol pellach ac yn nodi mesurau lliniaru addas ar gyfer effeithiau archeolegol a threftadaeth ddiwylliannol posib sy'n codi o'r datblygiad. Ar y sail yma, ystyrir bod y cynnig yn cydymffurfio â Pholisi AT 4 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 (Diogelu Safleoedd Archeolegol nad ydynt wedi'u dynodi a'u Gosodiad).

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

Yr Iaith Gymraeg

- 5.50 Mae Maen Prawf 1 (a) polisi strategol PS 1 'Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig' yn nodi y bydd angen darparu Datganiad Iaith Gymraeg gyda chynnig am "ddatblygiad manwerthu, diwydiannol neu fasnachol sy'n cyflogi mwy na 50 o weithwyr a/ neu gydag arwynebedd o 1,000 metr sgwâr neu fwy".
- 5.51 Mae Maen Prawf 1 (a) polisi strategol PS 1 'Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig' yn nodi y bydd angen darparu Datganiad Iaith Gymraeg gyda chynnig am ddatblygiad manwerthu, diwydiannol neu fasnachol sy'n cyflogi mwy na 50 o weithwyr a/ neu gydag arwynebedd o 1,000 metr sgwâr neu fwy.
- 5.52 Mewn ymateb i'r angen hwn, mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno Datganiad Iaith Gymraeg. Mae'r cynnig yn ymwneud ag amrywiad i ganiatâd cynllunio presennol mewn safle echdynnu tywod a graean sydd wedi'i hen sefydlu.
- 5.53 Mae'r datganiad hwn yn egluro ei fod eisoes yn weithredol ac yn cael ei redeg yn gysylltiedig â Chwarel Bryncir sydd gerllaw. Ni fyddai'r datblygiad arfaethedig yn arwain at gynnydd mewn cyflogaeth a byddai'n cadw'r gweithlu presennol.
- 5.54 Yn seiliedig ar natur y cais a'r dystiolaeth i law, nid yw'n cael ei ystyried yn debygol y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg. Felly, ystyrir bod y bwriad yn cydymffurfio â pholisi PS 1 a'r arweiniad a gynhwysir yn y CCA Cynnal a Chreu Cymunedau Ffyniannus a Chynaliadwy.

Yr economi

- 5.55 Mae Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 23: Datblygiad Economaidd, yn datgan: wrth wneud penderfyniad ar geisiadau cynllunio, bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol gadw mewn cof bod defnydd busnes traddodiadol (Dosbarthiadau Defnydd B1–B8) ond yn cyfrif am ran o'r gweithgaredd yn yr economi. Mae'n bwysig bod y system gynllunio'n cydnabod yr agweddau economaidd ar bob datblygiad a bod penderfyniadau cynllunio'n cael eu gwneud mewn ffordd gynaliadwy gan bwysu a mesur ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Mae NCT 23 yn pwysleisio ymhellach y dylai awdurdodau gydnabod arwyddion y farchnad a chyfeirio datblygiadau economaidd at y lleoliadau mwyaf priodol, yn hytrach na'i gyfyngu neu beidio â'i anog.
- 5.56 Mae'r cynnig yn hanfodol i gynnal cyflenwad o adnoddau mwynau, ac mae'r safle yn gwneud cyfraniad uniongyrchol a sylweddol i'r economi leol a chyflogaeth uniongyrchol/anuniongyrchol o ganlyniad i weithrediadau'r chwarel. Yn ogystal, mae cynnal cyfleoedd cyflogaeth lleol yn cefnogi cydlyniant cymunedol ac mae'n cael effeithiau diwylliannol positif, yn enwedig wrth helpu i gynnal cryfder a defnydd dyddiol yr iaith Gymraeg yn y rhanbarth.
- 5.57 Yn unol â hynny, ystyrir y byddai'r cynnig yn cael effaith economaidd positif ar yr ardal ac mae'n gyson â Pholisi PS 13 y CDLI ar y Cyd a'r egwyddorion sydd wedi'u nodi yn NCT 23.

Hanes Cynllunio a Gorfodaeth Perthnasol

- 5.58 Mae'r cais hwn wedi parhau heb wneud penderfyniad arno am gyfnod sylweddol, yn bennaf o ganlyniad i ddatblygiad anawdurdodedig yn effeithio ar ran o'r safle a'r ymchwiliad dilynol.
- 5.59 Cychwynwyd ar Gam 3 y datblygiad cyn i'r cais hwn gael ei gyflwyno. Yn ystod yr haf 2023, daeth yn amlwg i'r Awdurdod Cynllunio Mwynau (ACM) bod gwastraff nad oedd wedi tarddu oddi fewn i ffin y safle gyda chaniatâd wedi ei gludo a'i ddyddodi yn ardaloedd echdynnu Cam 3.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

- 5.60 Cafodd y gwaith a wnaed yng Ngham 3 ei wneud yn groes i Amodau 8, 9, 37 a 38 o ganiatâd cynllunio C12/0495/36/MW. Nid oedd y cynllun adfer cymeradwy yn gofyn am gludo unrhyw ddeunyddiau yno er mwyn codi lefelau'r tir. Mae amod 37 yn nodi'n glir fel a ganlyn:

“Only mineral waste derived from operations hereby permitted shall be deposited within the site. No refuse or waste materials of any description from within or outside the site shall be deposited therein.”

- 5.61 Ar ôl ymchwiliad ar y cyd gan yr ACM a Thîm Diwydiant a Rheoleiddio Gwastraff Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), ynghyd â thrafodaethau gyda'r gweithredwr, sefydlwyd bod y deunydd sydd wedi'i ddyddodi fel gwastraff wedi'i reoleiddio wedi tarddu o Chwarel Bryncir.
- 5.62 O ystyried nad oedd caniatâd cynllunio ar gyfer y dyddodion gwastraff ac nad yw'n cael ei ystyried yn angenrheidiol nac yn briodol adfer y tir i ôl-ddefnydd amaethyddol, mae'r ACM yn ystyried ei bod yn annhebygol y byddai caniatâd cynllunio ôl-weithredol yn cael ei roi. Felly, mae'r ACM yn ystyried y gwaith fel dyddodi gwastraff anawdurdodedig.
- 5.63 Er gwaetha'r uchod, mae CNC yn ystyried, yn sgil natur anadweithiol y deunydd, nad yw'n peri risg barhaus i'r amgylchedd. Ar y sail honno, mae'r ACM yn deall y gallai'r deunydd barhaus lle y mae, ac y byddai ei waredu ar y cam hwn yn debygol o achosi mwy o niwed i'r amgylchedd a rhoi adferiad y safle fwy yn y fantol. Bydd angen i'r penderfyniad ar y cais presennol, sy'n ceisio caniatáu mewnfario pridd neu ddeunydd sy'n ffurfio pridd er dibenion adfer, gydymffurfio â gofynion caniatâd amgylcheddol CNC ac ni fydd yn cyfaddawdu camau gweithredu parhaus CNC.

6. Casgliad:

- 6.1 Mae'r cais yn ceisio amrywio'r amodau sydd wedi'u hatodi i ganiatâd cynllunio C12/0495/36/MW er mwyn ymestyn oes weithredol y chwarel i 31 Rhagfyr 2030, ac adfer yn derfynol erbyn 31 Rhagfyr 2031 (Amod 2), i gynyddu'r allbwn blyneddol a ganiateir i 100,000 tonnall gyda chyfar-taledd o 14 llwyth y dydd (Amod 5), a chaniatáu mewnfario deunyddiau addas i'w ddefnyddio i adfer (Amod 37).
- 6.2 Nid yw'r addasiadau arfaethedig yn cyflwyno unrhyw newidiadau i'r ardal weithio gymeradwy, tirlfurf adfer, neu ddulliau gweithredol y tu hwnt i'r rhai sydd wedi'u nodi yn benodol. Mae'r cais wedi ei asesu o fewn y sgôp cyfyngedig a ganiateir gan Adran 73 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, sy'n nodi y gallai'r ACLI amrywio neu waredu amodau ond ni all ailymweld â, neu addasu'r elfennau sylweddol o'r cais gwreiddiol na'i baramedrau datblygu diffiniedig. Felly, mae'r cynigion yn cynrychioli addasiadau gweithredol yn hytrach na diwygiad sylfaenol i natur neu raddfa'r cynllun a gymeradwywyd yn flaenorol.
- 6.3 Mae'r safle yn parhau i weithredu fel gwaith echdynnu tywod a graean sydd wedi'i hen sefydlu, gyda'r gwaith prosesu mwynau yn cael ei wneud yn Chwarel Bryncir dan ganiatâd ar wahân. Mae'r gwaith o adfer y tir ar gyfer amaeth yn parhau i gael ei sicrhau drwy amodau presennol ac yn ffurfio rhan o'r datblygiad diffiniedig, na ellir ei addasu drwy'r cais hwn. Bydd y diwygio amodau arfaethedig yn golygu y bydd modd parhau i weithio ac adfer y safle mewn ffordd reoledig ac mewn camau, yn amodol ar gadw mesurau diogelu amgylcheddol priodol.
- 6.4 O ystyried y cyd-destun polisi perthnasol a sgôp cais Adran 73, ystyrir bod y diwygiadau arfaethedig yn dderbyniol ac y bydd modd eu cynnwys heb arwain at effeithiau amgylcheddol, mwyn-derol neu briffyrdd ychwanegol neu annerbyniol. Yn amodol ar ail-orfodi'r holl amodau angenrheidiol o'r caniatâd presennol, ynghyd ag unrhyw amodau sydd wedi'u diweddarau neu addasu sydd eu hangen i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus, mae'r datblygiad yn parhau i fod yn gyson â'r

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADUAN CYNORTHWYOL	

caniatâd gwreiddiol a chyda pholisïau perthnasol Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn a'r polisïau cynllunio lleol.

7. Argymhelliad:

7.1 Dirprwyo pwerau i Bennaeth yr Adran Amgylchedd i gymeradwyo'r cais, gydag amodau. Noder nad yw Amod 1 o ganiatâd cynllunio C12/0495/36/MW, sy'n gofyn i'r datblygiad gychwyn ymhennu pum mlynedd, yn berthnasol mwyach gan bod y datblygiad wedi cychwyn eisoes.

7.2 O ganlyniad, mae'r amodau sy'n cael eu cynnig i'w hamrywio yn cael eu hail-rifo un rhif yn llai na'r rhai sy'n cael eu nodi yn y ffurflen gais a'r adroddiad atodol. Mae'r amodau sydd am gael eu hamrywio wedi'u lliwio isod.


1. ***Daw'r gwaith o echdynnu gwastraff a'r gweithrediadau ategol i ben erbyn 31/12/2030. Adfer y safle erbyn 31/12/2031***
2. Yn unol â'r cynlluniau a gymeradwywyd.
3. Cynnal a chadw'r ffordd fynediad.
4. ***Dim mwy na 100,000 tunnell o ddeunydd y flwyddyn yn cael ei waredu o'r safle ar gyfradd gyfartalog o ddim mwy na 14 llwyth y dydd.***
5. Plannu llwyni a choed cyn echdynnu yng Ngham 4.
6. Cynnal a chadw'r llwyni a'r coed a blannwyd (amod 5).
7. Rhybudd ysgrifenedig ymlaen llaw; cychwyn datblygiad, baeau pasio, gwaith draenio, strip pridd, gwaredu'r gorlwythiad, echdynnu mwynau, adfer.
8. Yn unol â'r manylion a'r cynlluniau cymeradwy.
9. Marcio ffin yr ardal echdynnu.
10. Adfer ac ôl-ofal yn unol â'r manylion cymeradwy.
11. Cyfyngiad ar Rannau 19 a 21 y GPDO.
12. Oriau Gwaith.
13. Adolygiad ffurfiol blynyddol o weithrediadau.
14. Cyfyngiadau Sŵn.
15. Hysbysiad am waith dros dro a allai fod yn uwch na'r cyfyngiadau sŵn.
16. Monitro sŵn blynyddol.
17. Gosod larymau bagio sŵn gwyn ar offer symudol a cherbydau.
18. Yr holl gerbydau, offer a pheiriannau i'w gweithredu yn unol â manylebau'r gweithgynhyrchwr, ac wedi'u ffitio â sgriniau lleihau sŵn priodol, 'caseworks', 'silences', ac ati.
19. Rhoi dŵr ar yr ardaloedd lle mae cerbydau'n gyrru drostynt, neu drin yr ardaloedd i atal llwch rhag dianc.
20. System ddraenio dŵr yn unol â'r cynlluniau cymeradwy.
21. System ddraenio i gasglu a gwaredu'r holl ddŵr sy'n mynd i mewn i'r safle neu sy'n codi ynddo.
22. Olew, tanwydd, iraid, paent, sylweddau neu unrhyw gemegolion eraill ar y safle i'w storio mewn ardal wedi'i bwndio'n addas er mwyn atal halogiad.
23. Arfarniad Effaith Hydrolegol i'w gyflwyno os bydd dŵr daear yn codi.
24. Cynnal arolwg o'r Rhywogaethau Ymledol a'u trin.
25. Gwaith yng Nghamau 3 a 4 i'w gynnal yn unol â'r Fanyleb Archeolegol.
26. Mynediad yn cael ei roi i archeolegwyr i gynnal gwaith lliniaru a chofnodi archeolegol ac adroddiad ysgrifenedig yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio.
27. Ni fydd unrhyw offer neu gerbydau yn croesi unrhyw ardal o dir heb ei stripio ac eithrio lle mae traffig o'r fath yn hanfodol neu lle nad oes modd ei osgoi er mwyn ymgymryd â'r gweithrediadau a ganiateir.
28. Bydd yr holl uwchbridd ac isbridd y deuir ar ei draws yn cael ei gadw yn unol â'r cynigion datblygu sy'n cael eu disgrifio yn y manylion cymeradwy.
29. Bydd yr holl lystyfiant, uwchbridd ac isbridd sy'n cael ei stripio o bob cam gwaith ac ardaloedd wedi'u heffeithio gan waith echdynnu, ardaloedd storio, gwaith adeiladu, lleiniau caled ac adeiladwaith arall yn cynnwys ffyrdd mynediad a llwybrau cludo cerbydau dros dro, yn cael eu storio yn yr ardaloedd sy'n cael eu clustnodi ar gyfer y diben hwnnw, fydd wedi'u cytuno yn ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr Awdurdod Cynllunio Mwynau.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

30. Bydd yr holl uwchbridd ac isbridd sydd wedi'i stripio a'i storio yn unol â'r amod uchod yn cael ei ddefnyddio yn y gwaith o adfer ac ni fydd deunyddiau o'r fath yn cael eu gwaredu o'r safle heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr Awdurdod Cynllunio Mwynau.
31. Bydd yr uwchbriddoedd yn cael eu cadw mewn sypiau storio, ddim uwch na 2m, gyda'r isbridd a'r gorlwythiadau wedi hynny yn cael eu cadw mewn sypiau storio ar wahân ac yn cael eu cadw rhag cymysgu.
32. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Mwynau yn derbyn o leiaf 48 awr o rybudd ysgrifenedig o'r dyddiad pan fo unrhyw weithrediadau stripio pridd am gychwyn ar unrhyw ran o'r tir o fewn ardal y caniatâd. Ni fydd y pridd yn cael ei symud oni bai ei fod mewn cyflwr sych a brau a phan fo amodau'r ddaear yn sych.
33. Bydd y sypiau storio uwchbridd ac isbridd a'r rhannau hynny o'r safle lle nad yw uwchbridd ac isbridd yn cael ei stripio yn cael eu cadw'n rhydd o chwyn / llystyfiant sy'n cystadlu a bydd pob cam angenrheidiol yn cael ei gymryd i ddinistrio chwyn ar gam cynnar o'u tyfiant fel nad ydynt yn hadu.
34. Bydd yr holl ffiniau caeau newydd ar ffurf waliau cerrig sych a chloddiau pridd wedi'u creu o ddeunyddiau sy'n tarddu neu wedi'u hadfer o'r ffiniau caeau presennol yn Llecheiddior Uchaf a Llecheiddior Ganol.
35. Gweithredir mesurau osgoi rhesymol wrth ddymchwel ffiniau caeau a waliau cerrig er mwyn sicrhau bod ymlusgiaid yn cael eu gwarchod.
36. ***Dim ond gwastraff mwynau sy'n codi o'r gwaith echdynnu yn Llecheiddior, yn cynnwys deunydd wedi'i gludo a'i broses yn Chwarel Bryncir dan ganiatâd cynllunio C09D/0375/36/LL, fydd yn cael ei ddyddodi yn y safle er dibenion adfer. Ni fydd unrhyw ysbwriel, gwastraff cyffredinol neu ddeunyddiau gwastraff anadweithiol o ffynonellau allanol yn cael eu cludo i'r safle. Gellir defnyddio priddoedd neu ddeunyddiau sy'n ffurfio priddoedd er dibenion adfer yn unig, a dim ond lle mae eu haddasrwydd fel cyfrwng tyfu wedi'i gytuno yn ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Ni fydd cyfanswm cyfaint y deunydd a ddyddodir yn fwy na'r hyn sydd ei angen i gyflawni'r amlinellau adfer cymeradwy. Bydd y gweithredwr yn cynnal cofnod manwl o'r holl wastraff mwynau a deunydd pridd wedi'i gludo i'r safle neu oddi yno, yn cynnwys ei darddiad, lleoliad, cyfaint a phwrpas. Bydd crynodeb o'r cofnodion hyn yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol bob chwe mis, neu ar unrhyw amllder sy'n cael ei gytuno yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod.***
37. Oni bai y cytunir yn ysgrifenedig fel arall, o leiaf 3 mis cyn y bwriad i amnewid priddoedd ar unrhyw ran o'r ardal i'w hadfer i ôl-ddefnydd amaethyddol, bydd y gweithredwr yn cyflwyno er cymeradwyaeth yr Awdurdod Cynllunio Mwynau, gynllun yn dangos yr amlinelliad terfynol i'w cyflawni yn y cynllun adfer.
38. Bydd cynnydd ac hyd yn oed ailwasgaru'r gorlwythiad yn cael ei wneud yn ystod cyfnod y gwaith mwynau.
39. Pe byddai'r gwaith echdynnu mwynau yn dod i ben yn gynnar ar unrhyw gam o'r datblygiad, bydd cynllun diwygiedig ar gyfer adfer y safle yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Mwynau i gynnwys cynllun yn dangos yr amlinelliad terfynol i'w gyflawni yn y cynllun adfer.
40. Ar ôl ffurfio'r tirffurf terfynol yr amlinelliadau cymeradwy, bydd deunydd sylfaen y ddaear wreiddiol yn cael ei rwygo yn gynhwysfawr i isafswm dyfnder o 50cm i dorri i fyny ar unrhyw gywasgiad arwyneb cyn bod unrhyw ddeunydd pridd yn cael ei wasgaru.
41. Bydd y deunydd pridd (uwchbridd ac isbridd) sydd wedi'i glustnodi ar gyfer adfer amaethyddol yn cael ei wasgaru yn unffurf ac yn y drefn gywir dros y deunydd sylfaen a bydd, lle bo'r angen, wedi'i wreiddio a'i sgriffio i'r dyfnder llawn heb achosi cymysgu rhwng haenau gwahanol o bridd. Bydd dyfnder pridd isaf o 280mm (110mm o isbridd, 170mm o uwchbridd) uwchben y deunydd sylfaen yn cael ei ddarparu dros yr holl ardaloedd.
42. Bydd yr holl rwygo deunyddiau, gwasgaru pridd a gweithrediadau amaethu yn cael eu gwneud yn y fath ddull er mwyn isafu'r cywasgiad.
43. Bydd unrhyw ran o'r safle sydd wedi'i adfer er dibenion amaethyddol sy'n destun setlo lleol ac sy'n cael effaith andwyol ar yr ôl-ddefnydd amaethyddol yn cael ei ail-raddio yn cynnwys ail-ad-eiladu'r proffil pridd i'r fanyleb gymeradwy.
44. Bydd y safle yn cael ei ddwyn i'r safon ofynnol ar gyfer defnydd amaethyddol.
45. Cyflwyno cynllun ôl-ofal.
46. Dadansoddiad cemegol ar ôl amnewid yr uwchbridd.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD Y PENNAETH ADRAN CYNORTHWYOL	

47. Ail-gynnal y dadansoddiad cemegol yn y flwyddyn gyntaf a'r pedwerydd blwyddyn o ôl-ofal.
48. Bydd y tir yn cael ei reoli yn unol â rheolau hwsmonaeth da ac yn unol â'r canllawiau wedi'u hamlinellu yn Atodlen B, Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1: Agregau.
49. Ni chedwir unrhyw dda byw ar y tir oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Mwynau.
50. Bydd yr holl dir yn y safle sydd wedi'i gloddio, wedi'i ddefnyddio i storio pridd neu ffyrdd neu sydd wedi'i droedio gan offer trwm, yn cael ei ddarparu â chyflenwad dŵr a chyfleusterau draenio tir digonol, yn cynnwys cyrsiau dŵr, ffosydd caeau a system tan-ddraeniad wedi'i phibellu, os yw'n cael ei hystyried gan yr Awdurdod Cynllunio Mwynau i fod yn hanfodol er mwyn adfer y safle yn foddhaol.









Tud 79



Eitem 7.3

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

Rhif: 3

Rhif y Cais: C24/1050/19/LL

Dyddiad Cof-restru: 05/12/2024

Math y Cais: Llawn

Cymuned: Bontnewydd

Ward: Bontnewydd

Bwriad: Dymchwel adeiladau presennol yr ysgol ac adeiladu ysgol a chanolfan gymunedol newydd ynghyd â'r holl dirlunio allanol, ffordd fynediad a maes parcio. Gosod strwythurau ategol gan gynnwys canopïau sy'n sefyll yn rhydd, llochesi beicio, ardal ysbwriel a thanciau chwistrellu a'r holl offer chwarae allanol yn ôl yr angen i gefnogi adeilad newydd yr ysgol.

Lleoliad: Ysgol Gynradd Bontnewydd, Bontnewydd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2UF

Crynodeb o'r Argymhelliad: CANIATÁU GYDAG AMODAU

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

1. Disgrifiad:

- 1.1 Mae'r cais hwn yn ymwneud a dymchwel adeiladau presennol ysgol Bontnewydd a'i ddisodli gydag ysgol a chanolfan gymunedol newydd ar yr un safle ynghyd â'r holl dirlunio allanol, ffordd fynediad a maes parcio. Bydd y datblygiad hefyd yn golygu gosod strwythurau ategol gan gynnwys canopiau sy'n sefyll yn rhydd, llochesi feicio, ardal ysbwriel a thanciau chwistrellu a'r holl offer chwarae allanol yn ôl yr angen i gefnogi adeilad newydd yr ysgol.
- 1.2 Bydd y datblygiad yn cynnwys ysgol gynradd Gymraeg newydd deulawr ar gyfer 210 o ddysgwyr a chanolfan gymunedol. Bydd darpariaethau ar gyfer Cylch Meithrin, dysgwyr gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol ynghyd â neuadd gymunedol a manau newid llawn. Bydd yr adeilad yn ddau lawr ac wedi'i ddylunio gydag egwyddorion cynaliadwy i leihau'r galw am ynni.
- 1.3 Lleolir y safle mewn lleoliad deheuol y pentref mewn ardal yn bennaf anheddol o fewn ffin datblygu Pentref Gwasanaeth Bontnewydd fel y dangosir ym Mapiau Mewnosod Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn. Ceir Ystâd tai Glanrafon i'r Gorllewin ac Ystâd tai Dol Beuno i'r gogledd o'r safle, gyda rhan gogledd orllewin y safle yn cynnwys caeau chwarae ac yr afon Gwyrffai yn rhedeg ar hyd ffin ddeheuol y safle a thir amaethyddol tu hwnt. Mae rhan ddwyreiniol y safle oddi fewn i ardal Cadwraeth Bontnewydd gyda nifer o adeiladau rhestredig i'r dwyrain gyferbyn.
- 1.4 Mae'r safle wedi ei leoli ar gyrion Ardal Cadwraeth Arbennig Ffosfforws (ACA) (SAC) Afon Gwyrffai.
- 1.5 Mae'r safle wedi ei leoli o fewn Parth B Mapiau Cyngor Datblygu, fel y cyfeiriwyd yn Nodyn Cyngor Technegol (TAN 15): Datblygiad a Risg Llifogydd (2004). Mae'r safle hefyd yn rhannol o fewn parthau llifogydd 2 a 3 (Afonydd ac Mor, a Dŵr wyneb a chyrtsiau dwr) a Pharth amddiffynnol (Afonydd) yn ôl Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio.
- 1.6 Gwasanaethir y safle gan ffordd dosbarth 3 stad Dol Beuno sy'n arwain at Ffordd dosbarth 1 A4871.
- 1.7 Mae'r cais yma, oherwydd ei arwynebedd llawr, yn cael ei diffinio fel datblygiad mawr. Yn unol ag anghenion y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd) derbyniwyd Adroddiad Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio fel rhan o'r cais. Mae'r adroddiad yn dangos fod y datblygwyr wedi hysbysebu'r bwriad i'r cyhoedd ac ymgynghorwr statudol cyn cyflwyno cais cynllunio ffurfiol. Mae'r adroddiad yn cynnwys copïau o'r ymatebion a dderbyniwyd.
- 1.8 Cyflwynwyd y dogfennau isod i gefnogi'r cais:
- Datganiad Dyluniad a Mynediad
 - Adroddiad Cyfyngiadau a Cyfleoedd Risg Llifogydd
 - Asesiad Gweledol Treflun
 - Cyfrifiad Darpariaeth Ardal Tirweddu
 - Strategaeth Draenio Dŵr Wyneb
 - Llyfr gwaith Strategaeth Draenio Dŵr Wyneb a Thirweddu
 - Datganiad Seilwaith Gwyrdd
 - Asesiad Trafnidiaeth gydag atodiadau
 - Adroddiad o'r ymgynghoriad cyn cyflwyno cais
 - Argymelliadau Archeolegol
 - Cynllun Teithio Ysgol
 - Arolwg Ecolegol 19/06/24 (diweddarwyd 23.03.26)
 - Cynllun Goleuo Allanol
 - Cynllun cyfnod adeiladu (yn cynnwys amgylcheddol)
 - Asesiad Rhagarweiniol Sŵn Amgylcheddol

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

1.9 Cyflwynir y cais i'r Pwyllgor Cynllunio gan ei fod yn adeilad yn mesur dros 1000 medr sgwâr.

2. Polisiâu Perthnasol:

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chymau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017

PS 1 – Yr Iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig

ISA 2 - Cyfleusterau cymunedol

ISA 4 – Diogelu llecynnau agored

PS 4 - Trafnidiaeth gynaliadwy, datblygiad a hygyrchedd

TRA 2 - Safonau parcio

TRA 4 - Rheoli ardrawiad cludiant

PS 6 - Lliniaru effeithiau newid hinsawdd ac addasu iddynt

PCYFF 1 – Ffiniau datblygu

PCYFF 2 - Meini prawf datblygu

PCYFF 3 - Dylunio a siapiau lle

PCYFF 4 - Dylunio a thirweddu

PCYFF 5 – Rheoli Carbon

PCYFF 6 – Cadwraeth Dwr

PS 19 - Gwarchod a lle bo'n berthnasol gwella'r amgylchedd naturiol

AMG 5 - Cadwraeth bioamrywiaeth leol

AMG 6 – Gwarchod safleoedd o arwyddocâd rhanbarthol neu leol

PS 20 – Diogelu a lle bo'n berthnasol wella asedau treftadaeth

AT 1 – Ardaloedd cadwraeth, safleoedd treftadaeth y byd a thirweddau, parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig

AT 3- Asedau treftadaeth nad ydynt wedi'u dynodi sydd o arwyddocâd lleol neu ranbarthol.

Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy

2.4 Polisiâu

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12 - Chwefror 2025)

Nodyn Cyngor Technegol 15:

3. Hanes Cynllunio Perthnasol:

3.1 **C24/0112/19/LL** Gwaith i gynnwys addasiadau i ffensys terfyn allanol, gatiâu mynediad a ffurfio compownd storio dros dro ar gyfer biniau sbwriel a chynwysyddion storio. Bydd unedau modwlar, ffensys a chynwysyddion storio yn cael eu symud ar ôl cwblhau adeiladu ysgol newydd sy'n destun Cais Cynllunio ar wahân – Caniatáu gydag amodau – 05/03/2025

C99A/0098/19/R3

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

C99A/0250/19/R3

4. Ymgynghoriadau:

Cyngor Cymuned: Sylwadau 7/2/26
Ysgrifennaf ar ran Cyngor Cymuned Y Bontnewydd. Does gennym ddim sylwadau ar y cais diwygiedig yma.

Uned Priffyrdd: Sylwadau 25/6/25
Cyfeiriaf at y cais uchod a chadarnhaf nad oes gan yr uned drafnidiaeth wrthwynebiad.

Gwarchod y Cyhoedd Sylwadau 05.03.2025

Rwyf wedi asesu'r cais uchod ac wedi gwneud y sylwadau canlynol: Nid oes gan Warchod y Cyhoedd unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad gan fod yr ysgol yn rhan o'r awyrgylch sŵn amgylcheddol presennol, fodd bynnag, rhaid i'r cynigion nodi problemau niwsans posibl gan gynnwys sŵn, dirgryniad, arogl, golau a llwch, a mynd i'r afael ag effeithiau.

Sŵn (gan gynnwys dirgryniad)

Dylid cynnal asesiad sŵn fel gallai hysbysu'r ymgeisydd am effaith bosibl yr ysgol newydd a'r strwythurau cysylltiedig, dylai hyn arwain yr ymgeisydd at y fanyleb neu'r mesurau lliniaru mwyaf priodol sydd eu hangen i leihau neu ddileu unrhyw effaith o'r datblygiad ar yr eiddo preswyl o sŵn.

Bydd angen cadarnhau oriau defnyddio'r cwrt MUGA. Mae'r wybodaeth yn awgrymu y bydd y gymuned yn defnyddio'r cwrt, yn ogystal â'r ysgol, a thybir y bydd hyn yn digwydd y tu allan i oriau ysgol. Bydd unrhyw effaith ar yr eiddo preswyl cyfagos yn cael ei asesu mewn Asesiad o'r Effaith ar Sŵn.

Bydd sŵn MUGA yn cael ei asesu gan gyfeirio at y canllawiau yn nogfen Sport England "Artificial Grass Pitch Acoustics – Planning Implications" (2015), sy'n cyfeirio at y meini prawf perthnasol yn "Guidelines for Community Noise" WHO, fodd bynnag, yn ogystal â hyn dylid gwneud asesiad o sŵn o chwaraeon sy'n fyrbwyll eu natur (gweiddi, effeithiau pêl) ystyried lefelau LAmaz a'u heffaith debygol ar drigolion anheddau cyfagos. Bydd manylion mesurau lliniaru yn cael eu darparu a'u manylu mewn cynllun gyda lleoliad a natur y gwaith adeiladu. Ar ôl hynny bydd unrhyw fesur lliniaru yn cael ei gadw a'i gynnal fel y manylir yn y cynllun.

Bydd y sŵn cronus o offer newydd sy'n gysylltiedig â'r cynllun wedi'i gyfyngu i 5dB islaw'r lefel sŵn cefndir (LA90) mewn eiddo sensitif i sŵn cyfagos yn ystod y dydd a'r nos. Ar y sail hon byddai sŵn y cynllun yn cael effaith isel ar drigolion yr eiddo cyfagos. Bydd sŵn offer (biomas, boeler ac ati) yn cael ei asesu yn unol â'r egwyddorion yn BS 4142: 2014 + A1: 20191.

Yn ogystal, ni fydd unrhyw sŵn a allyrrir gan beiriannau a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r Datblygiad yn fwy na Radiws Sŵn NR25 rhwng oriau 2300 – 0700 a NR 30 ar bob adeg arall pan gaiff ei fesur o fewn yr anedd sensitif sŵn agosaf (gall ffenestri fod ar agor ar gyfer awyru). Ni ddylai'r sŵn sy'n deillio o unrhyw offer a pheiriannau a ddefnyddir ar y safle gynnwys unrhyw gydran tonyddol amlwg. Bydd tonyddiaeth yn cael ei bennu gan gyfeirio at BS 7445-2.

Ni fydd unrhyw waith adeiladu na dymchwel yn digwydd ar ddydd Sul na Gwyliau Cyhoeddus na thu allan i'r oriau o 08:00 tan 18:00 o ddydd Llun

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

i ddydd Gwener a rhwng 08:00 a 13:00 ar ddydd Sadwrn
Rheswm: Sicrhau na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn arwain at lefel effaith andwyol sylweddol a arsylwyd yn sylweddol (SOAEL) neu effaith andwyol i unrhyw feddianwyr preswyl o ran sŵn.

Goleuadau

Mae'r cais yn cynnwys gwybodaeth dechnegol am effeithiau ysgafn o'r datblygiad na ddylai arwain at unrhyw effaith andwyol, ond nid yw'r defnydd o'r MUGA yn glir a dylid manylu ar unrhyw effeithiau goleuadau a allai arwain at asesiad gyda mesurau lliniaru a nodir os oes angen i leihau effaith llygredd golau/niwsans.

Rheswm: Sicrhau na fyddai'r datblygiad arfaethedig mewn effaith andwyol i unrhyw feddianwyr preswyl o ran llygredd golau.

Aroglau

Bydd asesiad risg yn cael ei gynnal yn unol â chanllawiau - Defra 'Guidance on the Control of Odour and Noise from Commercial Kitchen Ventilation Systems' / EMAQ wedi'u diweddarau.

Rheswm: Sicrhau na fyddai'r datblygiad arfaethedig mewn effaith andwyol i unrhyw feddianwyr preswyl o ran colli amwynder.

Llwch

Bydd Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) yn cael ei gyflwyno a'i gymeradwyo yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Wedi hynny, bydd y CEMP cymeradwy yn cael ei weithredu'n llawn yn unol â'r manylion y cytunwyd arnynt yn ystod y cyfnod adeiladu gyfan. Ymlynir â Chanllawiau IAQM ar Reoli Llwch ac Allyriadau rhag Adeiladu a Dymchwel yn ystod yr holl weithgareddau dymchwel, paratoi safleoedd ac adeiladu ar y safle.

Rheswm: Sicrhau na fyddai'r datblygiad arfaethedig mewn effaith andwyol i unrhyw feddianwyr preswyl o ran ansawdd aer.

Uned Draenio

Nid oes gyn yr SAB na'r LLFA unrhyw sylwadau ar gyfer y cais yma: SAB - Mae cais llawn SuDS wedi cael ei Chymeradwyo yn barod, ar gyfer y datblygiad yma.

Uned Bioamrywiaeth

Sylwadau 02.07.2025

Mae'r ymgeisydd wedi darparu arolwg ystlumod (yn atodol):

ATODIAD AROLYGON YSTLUMOD AR GYFER ADEILAD YSGOL
NEWYDD BONTNEWYDD gan GRITTEN ECOLOGY 24 Mehefin
2025

Mae hyn yn cyd-fynd ag adroddiad ystlumod cynharach oedd yn arolwg o du fewn yr adeilad i edrych am arwyddion o ystlumod ac ni welwyd dim. Mae'r arolwg a wnaed ym mis Mehefin 2025, yn arolwg ymddangos (emergence survey) ar yr adeilad o'r 1970 a'r adeilad Fictoriaidd. Ni welwyd unrhyw ystlumod yn ymddangos o'r adeilad. Casgliad y adroddiad yw nad oes ystlumod yn clwydo yn yr adeiladau. Rwyf yn cytuno gyda'r casgliad ac nid oes gennyf unrhyw bryderon am ystlumod.

Darparwyd Cynllun Tirweddu diwygiedig a dderbyniwyd ar 24 Mehefin 2025. Nid oes gen i unrhyw sylwadau ecolegol am y cynllun diwygiedig. I grynhoi, nid oes gennyf unrhyw bryderon ecolegol am y bwriad yma.

Sylwadau 10.03.2026

Mae CNC wedi darparu sylwadau (29/08/2025) sy'n nodi y gofyniad i ystyried effaith y bwriad hwn ar SAC afon Gwyrfa'i dan y Rheoliadau Cynefinoedd 2017.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

Mae ffin y llinell goch i'r cais yn cyffwrdd ag ACA afon Gwyrfaï a Llyn Cwellyn.

Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod cymwys o dan Reoliadau Cynefinoedd 2017 ac mae ganddo ddyletswydd i ystyried unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar yr ACA a'r AGA (a thrwy bolisi Safleoedd Ramsar).

Mae tri llwybr effaith posibl:

1. Bydd carthion o'r ysgol newydd yn cael ei drin gan Waith Trin Dŵr Gwastraff Llanfaglan sy'n rhyddhau i afon Gwyrfaï.
2. Llygredd o'r safle adeiladu fel dŵr-ffo priddoedd neu ollyngiadau tanwydd.
3. Unwaith fo'r ysgol wedi ei hadeiladu, unrhyw ddŵr arwyneb sy'n mynd i'r afon.

O dan bob llwybr effaith fe ystyrir a oes effaith sylweddol yn debygol:

1. Carthion

Bydd yr adeilad arfaethedig newydd i'r ysgol yn cysylltu â'r brif garthffos a bydd carthion yn cael eu trin yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanfaglan (WwTW). Mae'n annhebygol y bydd y datblygiad arfaethedig ar gyfer adeilad newydd yr ysgol yn cyfrannu mwy o ffosfforws i'r afon drwy'r Gwaith Trin na'r ysgol bresennol mae'r adeilad yn ei disodli. Felly, nid oes unrhyw newid net yn swm y carthion sydd yn bodoli ar hyn o bryd.

2. Llygredd Adeiladu

Ni fydd unrhyw waith yn digwydd o fewn coridor yr afon neu yn yr ACA. Ni fwriedir unrhyw waith tirweddu ger y cwrs dŵr ac mae'r cysylltiadau allfa presennol i gael eu defnyddio. Mae'r ymgeisydd wedi darparu Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (Read Construction, Gorffennaf 2025) ac mae CNC yn fodlon gyda'r mesurau lliniaru sydd yn y ddogfen hon. Mae'n annhebygol y byddai adeiladu'r ysgol yn golygu llygredd i afon Gwyrfaï.

3. Draenio Dŵr Wyneb

Mae'n ymddangos y byddai draeniant dŵr wyneb yn cael ei gyfeirio i allfa bresennol i afon Gwyrfaï. Bydd hyn yn osgoi'r angen am weithgareddau adeiladu oddi fewn i'r ACA. Dywed CNC "Disgwylir y bydd y gollyngiad yma yn cael ei wanhau yn well yn y datblygiad newydd a gall fod yn welliant dros y drefn bresennol ond mae'n rhaid sicrhau bod y dŵr yma o'r un ansawdd neu'n well na'r dŵr a dderbynnir ar hyn o bryd, i afon Gwyrfaï ac yn y dyfodol." I sicrhau bod ansawdd dŵr o'r draeniant arwyneb yn addas, argymhellaf bod y dŵr yn cael ei fonitro o'r safle yma sydd yn draenio i'r afon.

Yn gyffredinol, mae CNC yn fodlon gyda'r Strategaeth Ddraenio Dŵr Wyneb (Awst 2024) i reoli dŵr-ffo a'r draeniant ar ôl cwblhau'r prosiect.

Ystyriaf fod y llwybrau effaith uchod yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar ACA afon Gwyrfaï.

Felly, nid oes gennyf wrthwynebiad i'r bwriad hwn.

Dŵr Cymru

Cyfeiriwn at eich ymgynghoriad cynllunio ynghylch y safle uchod, ac fe allwn ddarparu'r sylwadau a ganlyn mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig.

Yn gyntaf, mewn perthynas â'r ffurflen gais a gyflwynwyd, rydym yn cydnabod bod y datblygiad yn bwriadu gwaredu llif dŵr budr ac arwyneb i garthffos gyhoeddus a system ddraenio gynaliadwy, yn y drefn honno. Lleolir safle'r datblygiad arfaethedig yn nalgylch y system carthffosydd

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

cyhoeddus sydd yn draenio i Waith Trin Dŵr Gwastraff Llanfaglan (WwTW) sydd yn y pendraw yn rhyddhau i Ardal Gadwraeth Arbennig Afon (ACA). Rydym yn cynghori bod gan y WwTW hwn gyfyngiad caniatâd ffosfforws erbyn 31/05/2024 a'i fod yn cydymffurfio ar hyn o bryd â'r chwarter 95% ar gyfer ei berfformiad 'flow passed forward' (FPF), a'r caniatadau elifiant terfynol. Yn ychwanegol, rydym wedi ystyried effaith y llifau aflan a fyddai'n cael eu cynhyrchu gan y datblygiad arfaethedig ac wedi dod i'r casgliad y byddai'n bosib i'r llif fynd drwy'r system garthffos gyhoeddus.

Gan droi at ddraenio dŵr wyneb, ers 7 Ionawr 2019, mae'r datblygiad arfaethedig hwn yn destun Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Felly, mae'r datblygiad angen cymeradwyaeth ar gyfer nodweddion Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS), yn unol â'r 'Safonau statudol ar gyfer systemau draenio cynaliadwy - dylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal systemau draenio dŵr wyneb'. Yn yr achos hwn, nid ydym yn cynnig unrhyw wrthwynebiad i'r cynigion i waredu llif dŵr wyneb i system ddraenio gynaliadwy, mewn egwyddor, yn amodol ar ymgynghori a chytundeb â'r corff rheoleiddio neu berchennog torlannol y system hon.

Mae'r safle hwn yn cael ei groesi gan garthffosydd cyhoeddus, carthffos gyhoeddus sydd wedi ei gadael a system gyfun gorlifo storm (CSO) gyda'r safle bras wedi'i nodi ar y Cofnod Statudol Carthffos Gyhoeddus atodol.

Yn unol â Deddf Diwydiant Dŵr 1991, mae'n rhaid i Dŵr Cymru allu cael mynediad at ei gyfarpar bob amser i wneud gwaith cynnal a chadw a gwaith atgyweirio. O ystyried y cynlluniau diwygiedig, ymddengys y byddai'r estyniad arfaethedig wedi'i leoli y tu allan i barth gwarchod y prif garthffosydd a'r system gorlif storm gyfun (CSO) sy'n cael ei fesur 4 metr bob ochr i'r llinell ganol ac felly mewn egwyddor mae hyn yn dderbyniol. Noder bod y pellter a nodir ar gyfer y parth gwarchod hwn yn ddangosol ac yn seiliedig ar ganllawiau safonol y diwydiant. Fodd bynnag, bydd angen gwirio dyfnder yr ased ar y safle a allai olygu bod angen parth gwarchod mwy. Er mwyn cyflawnrwydd, rydym yn argymhell i'r datblygwr gyfeirio at eu gweithredoedd eiddo i gadarnhau a oes unrhyw gyfmodau neu gyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r ased(au) sy'n croesi'r safle datblygu arfaethedig.

Er hyn, o ystyried bod y parth gwarchod wedi'i leoli o fewn ffin y safle, argymhellir bod y datblygwr yn cysylltu â'n tîm Cynllunio a Diogelu (PlanandProtect@dwrcymru.com) i gynnal arolwg i wirio lleoliad yr ased(au) a sefydlu eu perthynas â'r datblygiad arfaethedig.

Yn ogystal, mae prif bibellau dŵr cyhoeddus yn croesi'r safle ac mae eu safleoedd bras wedi'u marcio ar y cofnod statudol o'r brif bibell ddŵr gyhoeddus (ynghlwm). Yn unol â Deddf Diwydiant Dŵr 1991, mae'n rhaid i Dŵr Cymru allu cael mynediad at ei gyfarpar bob amser i wneud gwaith cynnal a chadw a gwaith atgyweirio. O ystyried y cynlluniau arfaethedig, mae'n ymddangos y bydd wal gerrig newydd yn ogystal â phafin athraidd yn cael ei leoli uwchben ac o fewn parth gwarchod y brif bibell ddŵr gyhoeddus 2 fodfedd sydd ger mynedfa'r safle. Byddem yn cynghori nad oes caniatâd i leoli unrhyw strwythurau gan gynnwys waliau cerrig neu nodweddion SuDS uwchben ac o fewn parth gwarchod y brif bibell ddŵr gyhoeddus. Felly, byddai gofyn i'r ymgeisydd wneud cais i wirio'r ased yma dan Adran 185 Deddf Diwydiant Dŵr 1991. Mae hefyd yn ymddangos bod mynediad gyda ramp yn amodol i Grant Teithio Llesol a byddai'n cael ei leoli ym mharth diogelu'r brif bibell ddŵr gyhoeddus,

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

sy'n 3 modfedd ac a leolir i'r dwyrain o'r safle gan fesur 3 metr naill ochr i'r llinell ganol. Nodwn nad oes unrhyw fanylion pellach am y ramp arfaethedig wedi eu cyflwyno gyda'r cais. Rydym yn cynghori efallai y bydd prif bibell y cyflenwad dŵr cyhoeddus angen ei dargyfeirio. Felly, os yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol am roi caniatâd cynllunio, gofynnwn i chi gynnwys yr amod isod mewn unrhyw ganiatâd cynllunio i warchod cyfanrwydd y prif gyflenwad dŵr cyhoeddus gan osgoi unrhyw ddifrod. Argymhellir hefyd bod y datblygwr yn cysylltu â'n tîm Cynllunio a Diogelu (PlanandProtect@dwrcymru.com) i gynnal arolwg i wirio lleoliad yr ased(au) a sefydlu eu perthynas â'r datblygiad arfaethedig.

Felly, os ydych yn bwriadu rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad uchod, byddem yn gofyn bod yr Amodau a'r Nodiadau Cynghori a ganlyn yn cael eu cynnwys yn y caniatâd er mwyn sicrhau nad yw'n niweidiol i drigolion presennol na'r amgylchedd nac i asedau Dŵr Cymru:

Amodau

Amod 1

Ni chaiff unrhyw ddatblygiad ddechrau nes bod y canlynol wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i fod wedi cytuno iddynt yn ysgrifenedig:

- 1) Bod arolwg lleoliad asedau wedi'i gynnal i ganfod yr union leoliad, cyflwr, dyfnder a deunydd; a
- 2) Cynllun safle manwl, wedi'i siapio gan bwynt 1) uchod i ddangos perthynas y datblygiad arfaethedig â'i oblygiadau llwytho i'n hasedau a chadarnhau y gellir cynnal y parth gwarchod a'r mynediad gofynnol, ac y gellir rhoi y mesurau gwarchod gofynnol yn eu lle sy'n berthnasol i'r asedau; ac
- 3) Os oes angen, cynllun i ddargyfeirio'r asedau.

Ni chaniateir gwneud unrhyw waith ar y safle fel rhan o'r datblygiad o dan y caniatâd hwn tan y bydd y cynllun/gwaith a gymeradwywyd wedi'i adeiladu, ei gwblhau ac yn cael ei ddefnyddio gyda'r cynlluniau cymeradwy. Ar ôl hynny bydd y datblygiad a gymeradwywyd yn cael ei gadw am byth.

Rheswm: Diogelu cyfanrwydd y prif gyflenwad dŵr cyhoeddus ac osgoi difrod iddo ac yn unol â Pholisi PCYFF 2 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn.

Amod 2

Ni chaniateir cysylltu unrhyw ddŵr wyneb a/neu ddraenio o'r tir yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol i'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus.

Rheswm: I atal y system garthffosiaeth gyhoeddus rhag cael ei gorlwytho'n hydrologig, i amddiffyn iechyd a diogelwch trigolion presennol ac i sicrhau nad oes unrhyw lygredd i na niwed i'r amgylchedd.

Nodiadau Cynghori: O'r 7 Ionawr 2019, mae'r datblygiad arfaethedig hwn yn destun Atodlen 3, Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Felly, mae'r datblygiad angen cymeradwyaeth ar gyfer nodweddion Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS), yn unol â'r 'Safonau statudol ar gyfer systemau draenio cynaliadwy - dylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal systemau draenio dŵr wyneb'. Felly, argymhellir bod y datblygwr yn ymgysylltu â Chyngor Gwynedd, fel y Corff Cymeradwyo SuDS (SAB), mewn perthynas â'u cynigion ar gyfer nodweddion SuDS. Noder: Mae Dŵr Cymru / Welsh Water yn ymgynghorai statudol ar gyfer y broses cais

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

SAB a bydd yn darparu sylwadau i unrhyw gynigion SuDS drwy ymateb i ymgynghoriad SAB.

Efallai y bydd angen i'r ymgeisydd wneud cais i Ddŵr Cymru / Welsh Water ar gyfer unrhyw gysylltiad â'r garthffos gyhoeddus dan A106 Deddf Diwydiant Dŵr 1991. Os bydd y cysylltiad i'r rhwydwaith garthffos gyhoeddus naill ai drwy ddraen ochrol (h.y. draen sy'n ymestyn y tu hwnt i ffin yr eiddo cysylltiol) neu drwy garthffos newydd (h.y. yn gwasanaethu mwy nag un eiddo), mae bellach yn ofyniad mandadol i ymrwymo yn y lle cyntaf i Gytundeb Mabwysiadu Adran 104 (Deddf Diwydiant Dŵr 1991). Hefyd, mae'n rhaid i ddyluniad y carthffosydd a'r draeniau ochrol gydymffurfio â Safonau Gweinidogion Cymru ar gyfer Carthffosydd Aflan a Draeniau Ochrol, a chydymffurfio â'r cyhoeddiad "Sewers for Adoption" - 7fed argraffiad. Gweler gwybodaeth bellach ar dudalennau'r Gwasanaethau i Ddatblygwr www.dwrcymru.com. Hysbysir yr ymgeisydd hefyd y gallai bod rhai carthffosydd cyhoeddus a draeniau ochrol heb gael eu cofnodi ar ein mapiau carthffosydd cyhoeddus gan eu bod yn wreiddiol mewn perchnogaeth breifat ac fe'u trosglwyddwyd i berchnogaeth gyhoeddus yn sgil Rheoliadau y Diwydiant Dŵr (Cynlluniau i Fabwysiadu Carthffosydd Preifat) 2011. Gall presenoldeb asedau o'r fath effeithio ar y bwriad. Er mwyn ein cynorthwyo i ddelio gyda'r bwriad gofynnwn i'r ymgeisydd gysylltu â Dŵr Cymru i sefydlu lleoliad a statws y cyfarpar. Dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 mae gan Ddŵr Cymru hawliau i gael mynediad i'w gyfarpar bob amser.

Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12) a Nodyn Cyngor Technegol 12 (Dylunio), fe gynghorir yr ymgeisydd i arfer dull cynaliadwy o ystyried y cyflenwad dŵr mewn cynigion datblygu newydd, gan gynnwys defnyddio dulliau sy'n gwella effeithlonrwydd dŵr a gostwng y defnydd a wneir o ddŵr. Rydym yn argymhell bod yr ymgeisydd yn cysylltu ag adran Rheolaeth Adeiladu'r Awdurdod Lleol perthnasol i drafod eu gofynion o ran effeithlonrwydd dŵr.

Mae ein hymateb yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd gan eich cais. Gofynnwn yn garedig, pe bai'r bwriad yn newid yn ystod proses y cais, i chi ail-ymgyngori gyda ni a chadwn yr hawl i gyflwyno sylwadau o'r newydd. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r is-lofnoddedig ar 0800 917 2652 neu ar e-bost developer.services@dwrcymru.com

Cyfoeth Naturiol
Cymru

Sylwadau 29/08/2025

Diolch am ymgynghori gyda Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ynghylch y wybodaeth bellach i gefnogi'r uchod, a dderbyniwyd gennym ar 12/08/2025.

Mae gennym bryderon o hyd am y cais fel y'i cyflwynwyd. Fodd bynnag, rydym yn fodlon y gellir goresgyn y pryderon hyn os yw'r dogfennau a nodwyd isod yn cael eu cynnwys yn yr amod am y cynlluniau a'r dogfennau a gymeradwywyd ar yr hysbysiad penderfyniad:
Dogfennau - Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu, Read Construction, Cyf 92000 R1 Diwyg2, Gorffennaf 2025
Campws Cymunedol Bontnewydd, Goleuadau Allanol, Lluniad Rhif P197-143-C, Diwyg C, Dyddiad 04.06.2025
Dalier sylw, os nad yw'r dogfennau hyn wedi eu cynnwys fe fyddwn yn gwrthwynebu'r cais cynllunio yma. Ceir rhagor o fanylion isod.

Rhywogaethau a Warchodir

Dyfrgi

Mae Dyfrgwn yn Rhywogaeth Ewropeaidd a Warchodir dan y Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau, 2017. Mae dyfrgwn hefyd yn nodwedd ddynodedig o Ardal Gadwraeth Arbennig (ACA) Afon Gwyrfaï a Llyn Cwellyn sy'n ffinio â safle'r datblygiad i'r de - cyfeiriwn chi at ein sylwadau am safleoedd gwarchoddedig isod o safbwynt hyn. .

Mae sribyn o goedlan dorlannol wedi ei adnabod fel un sy'n ffinio ag ymyl ogleddol yr afon. Mae'n ymddangos fod y bwriadau a gyflwynwyd yn cadw'r coridor torlannol cyfan, rydym yn croesawu hyn ac rydym yn cynghori nad oes unrhyw lystyfiant i gael ei dynnu ar hyd y coridor hwn, gan ei fod yn darparu ardal byffer rhwng yr ysgol a'r afon i ddyfrgi sy'n cymudo.

'Rydym yn croesawu y Mesurau Osgoi Rhesymol (RAMs) a amlinellir yn adran 9.6 o'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu, Read Construction, Cyf 92000 R1 Adol2, Gorffennaf 2025, a chynghorwn bod dogfen CEMP yn cael ei chynnwys yn y cynlluniau a gymeradwywyd a'r amod dogfennau ar yr hysbysiad penderfyniad.

Cyfeiriwn at y lluniad Goleuadau Allanol, Lluniad Rhif P197-143-C, Diwyg C, Dyddiad 04.06.2025 Mae'r cynllun yn dangos bod coridor cymudo tywyll yn bresennol i ddyfrgwn ar hyd y coridor torlannol gyda llystyfiant i'r de. Felly, rydym yn cynghori bod y cynllun goleuo hwn yn cael ei gynnwys yn y cynlluniau a gymeradwyir a'r dogfennau amod ar yr hysbysiad penderfyniad.

Mae CNC yn cyfeirio'r Awdurdod Lleol at lythyr y Prif Swyddog Cynllunio, dyddiedig 1 Mawrth 2018, sy'n cynghori Awdurdodau Cynllunio Lleol i atodi gwybodaeth am ofynion trwyddedu i bob caniatâd a hysbys-iadau ble fo Rhywogaethau Ewropeaidd Gwarchoddedig yn debygol o fod yn bresennol ar y safle.

Ystlumod

Nodwn fod yr Arolwg Ecolegol ar gyfer Adeilad Newydd yr Ysgol, dyddiedig 19 Mehefin 2024 (er iddo gael ei ddiweddarau wedi hynny; dim dyddiad) gan Gritten Ecology yn cyfeirio at archwiliadau mewnlol yr adeiladau ar y safle, sydd i'w dymchwel, a gwblhawyd yn 2023 a 2024 ac ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw dystiolaeth am ystlumod.

Nodwn bod arolygon pellach wedi eu cynnal a bod yr adroddiad a gyflwynwyd (Atodiad Arolygon Ystlumod, Gritten Ecology 24 Mehefin 2025) yn dod i'r casgliad fod ystlumod yn annhebygol o fod yn defnyddio safle'r cais. Felly, nid oes gennym unrhyw sylwadau o safbwynt ystlumod i'w gwneud ar y cais fel a gyflwynwyd.

Safleoedd Gwarchoddedig

Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA)

Mae ffin llinell goch y cais yn cyffwrdd ag ACA afon Gwyrfaï a Llyn Cwellyn (er nad yw'r adeiladau arfaethedig o fewn ôl-troed y safle a warchodir). Mae'n ymddangos fod y gwaith dan sylw yn gyfyngedig i newid y strwythurau presennol gyda rhai newydd ar yr ôl-troed presennol. Ni fwriedir unrhyw waith tirweddu i'r cwrs dŵr ac mae'r cysylltiadau allfa presennol i gael eu defnyddio. Er hynny, mae gennym bryderon na ellir diystyru difrod o'r datblygiad arfaethedig ac rydym wedi adnabod llygredd fel llwybr posibl.

Yn gyffredinol, rydym yn fodlon gyda'r Strategaeth Ddraenio Dŵr Wyneb (Awst 2024) i reoli dŵr-ffo a'r draeniant ar ôl cwblhau'r prosiect.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

Cyfeiriwn at y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu, Read Construction, Cyf 92000 R1 Diwyg2, Gorffennaf 2025. Rydym yn cytuno'n gyffredinol gyda manylion y mesurau lliniaru sydd yn y Cynllun. Felly, rydym yn cynghori bod y ddogfen CEMP yn cael ei chynnwys yn y cynlluniau a gymeradwyir a'r dogfennau amod ar yr hysbysiad penderfyniad.

Dylai eich Awdurdod fod yn fodlon bod unrhyw Rywogaethau ymledol anffroddol, a nodir yn adrannau 9.8 a 9.9 yn cael eu trin yn briodol.

Mae gennym argymhellion pellach i'r datblygwr yn yr adran "Cyngor i'r Datblygwr" isod.

Ni chaniateir golau artiffisial yn ystod y gwaith adeiladu ac yn bwysicach yn ystod gweithrediad yr ysgol newydd i adlewyrchu/effeithio ar goridor yr afon, fel bod y dyfrgi, yr eog a rhywogaethau eraill sy'n sensitif ddim yn cael eu heffeithio yn andwyol. Cyfeiriwn uchod at ein sylwadau ar y cynllun goleuo i'r dyfrgi.

Mae'n ymddangos y byddai draeniant dŵr wyneb yn cael ei gyfeirio i'r allfa bresennol i afon Gwyrfa. Bydd hyn yn osgoi yr angen am weithgaredd adeiladu o fewn yr ACA. Disgwylir y bydd y gollyngiad yn cael ei wanhau yn well yn y datblygiad newydd a gall fod yn welliant dros y drefn bresennol, ond mae'n rhaid sicrhau bod y dŵr yma o'r un ansawdd neu'n well na'r dŵr a dderbynnir, o afon Gwyrfa yn y dyfodol.

Rhaid i Gyngor Gwynedd, fel yr awdurdod cymwys, dan Reoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'i diwygiwyd), cyn penderfynu rhoi caniatâd am brosiect sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar safle ACA, naill ai ar ei ben ei hun neu drwy gyfuniad o gynlluniau neu brosiectau eraill, wneud asesiad priodol o oblygiadau'r prosiect ar gyfer y safle hwnnw o ystyried ei amcanion cadwraeth. Er dibenion yr asesiad, rhaid i chi ymgynghori â CNC ac ystyried unrhyw sylwadau a wnawn yn ystod cyfnod rhesymol o amser fel y nodir gennych chi. Yn absenoldeb yr asesiad hwn, ni all CNC roi sicrwydd na fyddai'r cynigion yn arwain at effaith andwyol ar yr ACA.

Safle dalgylch ACA sy'n Sensitif i Faethynnau

Nodwn bod safle'r cynllun o fewn ardal ddalgylch Ardal Gadwraeth Arbennig (ACA) Afon Gwyrfa a Llyn Cwellyn. Yn unol â'n Cyngor i Awdurdodau Cynllunio ar gyfer Ceisiadau Cynllunio sy'n Effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonydd sy'n Sensitif i Faethynnau (28 Mehefin 2024), dan y Rheoliadau Cynefinoedd, rhaid i Awdurdodau Cynllunio ystyried effaith y datblygiad arfaethedig ar ansawdd dŵr o fewn dalgylchoedd afonydd ACA.

Nodwn o'r wybodaeth a gyflwynwyd y bydd y prif gyflenwad dŵr i Waith Trin Dŵr Gwastraff (WwTW) Llanfaglan. Yn y pendraw, bydd addasrwydd y trefniadau draenau dŵr aflan i'r datblygiad arfaethedig yn fater i'ch Awdurdod i'w benderfynu. Er hynny, rydym yn fodlon y gellir gorsegyn y pryderon hyn gan eich Awdurdod drwy ddilyn ein Cyngor, yn benodol yr adran a elwir 'Beth mae hyn yn ei olygu i gynigion datblygu sy'n ymwneud â chysylltu â gweithfeydd trin dŵr gwastraff cyhoeddus?'.

Rydym felly yn eich cynghori i ystyried yr uchod pan fyddwch yn penderfynu a yw'r datblygiad yn debygol o gael effaith sylweddol ar yr ACA. Os ydych yn penderfynu bod angen Asesiad Priodol, bydd yr Ymgeisydd

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

wedyn angen cyflwyno pa bynnag dystiolaeth mae yn ei ystyried yn briodol (gan geisio cyngor gan ymgynghorwyr fel bo angen) i arddangos nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd y safle.

Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)

Mae CNC yn ystyried bod gan y cynigion y potensial i effeithio ar y SODdGA Afon Gwyrfaï a Llyn Cwellyn. Cyhyd ag yr eir i'r afael yn ddi-gonol â'r llwybrau effaith y cyfeirir atynt uchod ar gyfer yr Ardal Cadwraeth Arbennig, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried y bydd nod-weddion y SoDdGA hefyd yn cael eu diogelu'n briodol.

Perygl Llifogydd

Mae safle'r cais ym mharth B, fel y diffinnir gan y map cyngor datblygu (MCD) y cyfeirir ato yn NCT 15: Datblygiadau a Pherygl Llifogydd. Dangosir bod y safle hefyd mewn perygl o lifogydd yn ôl y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio (FMfP) - parth llifogydd 2 Afonydd. Fel y mae llythyr Llywodraeth Cymru dyddiedig 15 Rhagfyr 2021 yn ei gadarnhau, mae'r FMfP yn cynrychioli gwybodaeth sydd o ansawdd gwell ac sy'n fwy diweddar ar yr ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd o gymharu â'r Map Cyngor Datblygu.

Mae adran 6 o TAN 15 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol benderfynu a oes modd cyfiawnhau'r datblygiad yn y lleoliad hwn. Felly, rydym yn eich cyfeirio at y profion a nodir yn adran 6.2 o TAN15. Os ydych yn ystyried bod y bwriad yn cwrdd â'r profion a nodir ym meini prawf (i) i (iii), yna y prawf terfynol (iv) yw i'r ymgeisydd ddangos, drwy gyflwyno Asesiad Canlyniadau Llifogydd, fod modd rheoli canlyniadau posib unrhyw lifogydd i lefel dderbyniol.

Cefnogir y cais gan ddogfen o'r enw Adroddiad Cyfyngiadau Risg Llifogydd a Chyfleoedd: Ysgol Bontnewydd (CPF12344 09/08/2024) a luniwyd gan YGC sydd hefyd yn gweithredu fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (LLFA). Mae'r LLFA yn rheoli risg llifogydd sy'n cysylltu gyda dŵr arwyneb a chysiau dŵr llai. Mae'r safle yn union gyferbyn â'r brif afon (afon Gwyrfaï) ac mae CNC yn rheoli risg llifogydd o'r prif afonydd.

Mae'r bwriad ar gyfer ysgol newydd ac mae'r holl elfennau adeiledig sy'n gysylltiedig â'r bwriad i'w gweld yn uwch na lefelau llifogydd a amcangyfrifir (gyda lwfans ar gyfer effeithiau newid hinsawdd), ac eithrio y cae pêl-droed/chwaraeon presennol/arfaethedig. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at y model hydrologig a adeiladwyd gan YGC ar gyfer afon Gwyrfaï gerllaw a ffynonellau eraill o risgiau llifogydd. Nid yw CNC wedi adolygu y gwaith modelu ac o'r herwydd mae'r FMfP yn parhau i fod yn brif ffynhonnell i'r wybodaeth ofodol ar risg llifogydd i ddibenion cynllunio.

Rydym hefyd yn nodi'r argymhellion yn yr adroddiad ynglŷn ag ymestyn wal llifogydd CNC ar hyd afon Gwyrfaï i helpu rheoli llifogydd dŵr wyneb. Rydym mewn trafodaeth gyda YGC ynglŷn â hyn er nad oes unrhyw ymrwymadau wedi eu gwneud ynglŷn â'r estyniad arfaethedig a pha Awdurdod Rheoli Risg fyddai orau i hyrwyddo, adeiladu a cynnal a chadw'r estyniad arfaethedig. Fodd bynnag, nid yw hyn yn effeithio ar ein sefyllfa o ran derbynioldeb y cais i amnewid yr ysgol o ran risg llifogydd.

Gan mai cyfrifoldeb yr Awdurdod Cynllunio Lleol yw penderfynu p'un a ellir rheoli risgiau a chanlyniadau llifogydd yn unol â NCT15, rydym yn argymhell eu bod yn ystyried ymgynghori ag ymgynghorwyr proffesiynol

eraill ar faterion megis cynlluniau argyfwng, gweithdrefnau a mesurau i ymdrin â niwed strwythurol a allai godi oherwydd llifogydd. Noder nad ydym fel arfer yn gwneud sylw ar ddigonoldeb cynlluniau a gweithdrefnau ymateb mewn argyfwng llifogydd sy'n cyd-fynd â chynigion datblygu, gan nad ydym yn ymgymryd â'r rolau hyn yn ystod llifogydd. Byddai ein rhan ni yn ystod argyfwng llifogydd yn gyfyngedig i gyflenwi rhybuddion llifogydd i breswylwyr/defnyddwyr.

Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd

Rydym yn cynghori'r ymgeisydd bod Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (2016) yn gofyn iddynt sicrhau Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd penodol a gyfer unrhyw waith neu strwythurau sydd mewn, o dan, dros neu o fewn 8 metr i lethr afon Gwyrffai, sydd wedi'i dynodi yn 'brif afon'. Mae rhagor o gyngor ac arweiniad ar gael ar ein gwefan: <http://www.naturalresources.wales/permits-and-permissions/flood-risk-activities/flood-risk-activity-permits-information/?lang=en>

Materion Eraill

Mae ein sylwadau uchod yn ymwneud yn benodol â materion sydd wedi'u cynnwys ar ein rhestr wirio, Gwasanaeth Ymgynghorol Cynllunio Datblygu: Pynciau Ymgynghori (Medi 2018), sydd wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan. Nid ydym wedi ystyried yr effeithiau posib ar faterion eraill ac nid ydym yn diystyru'r posibilrwydd i'r datblygiad arfaethedig effeithio ar fuddion eraill.

Cynghorwn yr ymgeisydd, yn ogystal â chael caniatâd cynllunio, mai ei gyfrifoldeb yw sicrhau ei fod yn cael pob hawlen/caniatâd/trwydded sy'n berthnasol i'w ddatblygiad. Cyfeiriwch at ein gwefan i gael rhagor o fanylion.

Cyngor i'r Datblygwr

Argymhelliad ar y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu, Read Construction, Cyf 92000 R1 Diwyg2, Gorffennaf 2025

Rheoli Llygredd:

- Dylai'r bwnd pridd cywasgedig, oni bai bod y geodecstil ar y tu allan, gael cymysgfa o hadau glaswellt generig sy'n sefydlu yn gyflym yn tyfu yno.
- Ni welir y bwnd ar unrhyw un o'r cynlluniau cam adeiladu.
- Dywed Atodiad A, "y bwnd i fynd ar hyd terfyn safle'r gwaith adeiladu hyd at y cae chwarae presennol". Gan fod y pentwr pridd sydd i'w leoli ar y cae chwarae yn cael ei ddangos ar y cynlluniau, dylai'r bwnd fynd ar hyd y cyfan o'r safle tuag at yr afon, gan gynnwys ar hyd y cae chwarae.
- Mae diffyg elfen fonitro yn y CEMP. Rhaid monitro a gwella effeithiolrwydd atal llygredd, os oes angen, trwy gydol y broses ddymchwel ac adeiladu i sicrhau nad oes unrhyw lygredd o'r safle yn mynd i afon Gwyrffai. Adrodd am ddigwyddiad / gollyngiad deunydd:
- Ar gyfer gollyngiadau neu ddigwyddiadau eraill sydd y tu hwnt i allu gweithredwyr y safle i'w rheoli, dylid cysylltu â CNC ar y linell ymateb i ddigwyddiadau ar 03000 65 3000.
- Mae 6.3.1 yn datgan "Dangosir lleoliadau storio tanwydd/ardal COSHH yn Ffigur 2", er hynny nid ydynt wedi eu dangos yn glir neu maent heb gael eu labelu yn glir. Dylai'r lleoliadau fod ddigon i ffwrdd o'r afon gan leihau unrhyw lwybrau posibl i ollyngiad fynd mewn i'r afon.

Rheoli gwastraff:

- Nodwn nad yw'r Cynllun Rheoli Gwastraff Safle / Adnoddau wedi ei ddatblygu eto a dywed paragraff 7.4 y bydd y cynllun hwn yn adnabod llif gwastraff i bob deunydd i ddargyfeirio cymaint â phosibl i ffwrdd o

orfod mynd i gael ei dirlenwi. Felly, dim ond ar ffurf drafft mae Tabl 7 ar hyn o bryd. Wrth gwblhau'r cynllun, dylid cynnwys y canlynol:

- Sicrhau bod gan yr holl gonastraffwyr gwaredu gwastraff drwydded i gludo'r deunyddiau perthnasol (megis gwastraff dymchwel neu wastraff peryglus, yn dibynnu ar y math maent yn ei gludo) a bod copïau o'r nodiadau trosglwyddo gwastraff (i wastraff nad yw yn beryglus) a nodiadau cludo (i wastraff peryglus) yn cael eu cadw ar y safle neu gan reolwyr y safle.

- Mae Tabl 7 yn dangos y bydd asbestos a goleuadau fflwroleuo (sy'n cynnwys arian byw) yn cael eu gwaredu trwy dirlenwi. Dynodwyd y ddau fel gwastraff peryglus ac mae'n rhaid eu cadw a'u gwaredu ar wahân i wastraff cyffredinol/nad yw'n beryglus, gan ddilyn y Rheoliadau Gwastraff Peryglus 2005. Rhaid gwaredu drwy gludwr gwastraff peryglus gyda thrwydded i safle a ganiateir i dderbyn asbestos / gwastraff trydanol ac offer electronig i oleuadau fflwroleuol. Rhaid cadw copïau o'r nodiadau cludo.

- Mae Tabl 7 hefyd yn rhestru'r gorchudd GRP (glass reinforced plastic) fel deunydd i fynd i safle tirlenwi. Er y caniateir hyn yn dechnegol, nid ydym yn annog hyn o gwbl gan fod GRP yn parhau am amser hir gyda'r gallu i ryddhau cemegau. Os nad oes posibl ei ail-ddefnyddio, dylid ymdrechu i ddargyfeirio'r deunydd yma o gael ei dirlenwi i amlosgydd troi gwastraff yn ynni neu gyfleuster ailgylchu arbenigol (e.e. adfer ffibr i agredau).

Rheolaeth y Pridd:

- Dywed 8.3 na fydd pentyrrau pridd yn cae eu cadw o fewn 10m i afon Gwyrfa. Rydym yn gwerthfawrogi bod lleoliad y pentwr ar y cynllun dros 50m i ffwrdd o'r cwrs dŵr a bod y CEMP yn sôn am osod bwnd pridd cywasgedig gyda 'membrane' yn ogystal â mesurau eraill fel gorchuddio pentyrrau a rhwyd llaid ychwanegol, os oes angen. Rydym yn cynghori y dylid cynyddu'r pellter i o leiaf 15, gorau oll 20m, oni bai y gellir rhoi eglurhad digonol pam nad oes angen hyn, ynghyd â'r bwnd a mesurau atal llygredd eraill fel bo angen yn ystod cyfnodau hir o dywydd gwlyb.

Bioddiogelwch:

- Tra bod 5.2.5 yn datgan "Nid oedd unrhyw rywogaethau planhigion ymledol wedi eu cofnodi ar y safle", mae 9.9 yn sôn bod montbretia, rhywogaeth nad yw'n frodorol ac yn ymledol wedi sefydlu ac y bydd yn cael ei glirio. Felly, nid yw hi'n ymddangos fod y frawddeg yn 5.2.5 yn hollol gywir. Dylid cynnwys canllawiau pellach ar dynnu a gwaredu montbretia. Mae dwy ffordd effeithiol i gael gwared ar montbretia. Un yw codi'r planhigion a'r holl gormau sydd dan y pridd. Os yw hyn yn cael ei wneud yn drwyadl dyma yw'r dull mwyaf effeithiol a chydawns yn amgylcheddol oni bai bod y pridd wedi ei styrbio, a bod pridd rhydd a chormiau a fethwyd yn agos at y cwrs dŵr. Y dewis arall yw chwistrellu ailadroddus neu sychu'r dail trwy gydol y tymor tyfu gyda chwynladdwr, gorau oll os yw'n chwynladdwr ar sail glyphosate wedi ei gymeradwyo i'w ddefnyddio ger y dŵr. Mae angen caniatâd ymlaen llaw gan CNC i ddefnyddio unrhyw chwynladdwr ar dorlan yr afon neu yn yr ardal SoDdGA (SSSI). Bydd y ddau dull angen peth gwaith dilynol i sicrhau nad oes unrhyw gormau wedi goroesi. Y peth pwysicaf yw na ddylid cael gwared ar montbretia fel gwastraff cyffredinol, gwastraff gwyrdd cyffredinol na chompost, gan ei fod yn ymledu yn hawdd o gormau a daflwyd. O gofio am y diffyg cyfleusterau yn yr ardal sy'n derbyn deunydd planhigion ymledol nad ydynt yn frodorol, yr opsiwn gwaredu gorau yw amlosgi ar y

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

safle o dan eithriad gwastraff D7 (a ffefrir), neu gladdu dwfn drwy ei gadw mewn deunydd 'geo-textile' gan ddilyn Penderfyniad Rheoliadol CNC 058.2.

- Mae sawl Rhywogaeth estron oresgynnol (INNS) ar hyd afon Gwyrfaï a gallent sefydlu ar dir sydd wedi ei styrbio yn ystod neu yn dilyn y gwaith. Er mwyn osgoi hyn rhag cyfrannu i ddod yn ffynhonnell hadau i'r SoDdGA (SSSI) a'r amgylchedd ehangach, bydd unrhyw INNS sy'n ymddangos ar y safle adeiladu yn cael ei rheoli yn hytrach na'i hosgoi. Rydym yn cynghori newid hierarchiaeth yr opsiynau ymateb a roddir dan 9.8 - dylid ond datblygu a gweithredu cynllun lliniaru bioddiogelwch sy'n benodol i'r safle os na ellir osgoi'r ardal, ond os yn bosibl ble bynnag y daethpwyd o hyd i INNS. Byddai CNC ond angen cymeradwyo gweithrediadau fyddai yn effeithio ar y SoDdGA (SSSI) a'r ACA. fel defnyddio chwynladdwr ar ben torlan yr afon.

Arall:

- Sicrhewch bod yr holl ddeunyddiau a gedwir ar y safle, boed yn wast-raff, deunyddiau adeiladu, neu ddeunydd pecynnu, yn enwedig plastig a deunyddiau ysgafn fel ffoil, byrddau ynysu, ac ati yn cael eu cadw yn ddiogel i osgoi 'sbwriel rhag cael ei chwythu i ffwrdd.

Llwybrau

Nid yw hi'n ymddangos fod unrhyw Hawliau Tramwy sydd wedi eu cofnodi fydd yn cael eu heffeithio gan y bwriad yma

Coed

Nid wyf yn gallu dod o hyd i gopi or adroddiad coed yn y ffeil gynllunio. Mae'r coed a argymhellir i'w plannu yn addas, er hynny byddwn yn cynghori bod 'Viburnum opulus' a 'Acer campestre' yn cael eu newid yn y gymysgfa frodorol yn y gwrych i rywbeth sy'n fwy addas i'r goedlun leol, fel coed Aethnen ac afalau surion bach.

Byddwn hefyd yn newid yr Acer campestre (safonol) gyda aethnen frodorol neu goed afalau surion bach (rwyf yn hapus i ddarparu manylion i'r ymgeisydd o ble y gellir cael y rhain).

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

Ymgynghoriad Cyhoeddus:

Rhodddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Daw'r cyfnod hysbysebu i ben a derbyniwyd 3 gohebiaeth gwelir crynodeb o'r sylwadau:

- Cefnogol iawn o'r datblygiad.
- Croesawu buddsoddiad yn y gymuned leol.
- awyddus iawn i'w weld yn symud yn ei flaen er budd plant y pentref.
- Pryder yn ynghylch lleoliad y tanc sprinkler mawr. Mae hwn yn strwythur sylweddol ac yn debygol o gael effaith weledol sylweddol.
- Lleihau ei effaith weledol, e.e. drwy: o ei gladdu'n rhannol yn y ddaear, neu o leihau uchder y strwythur?
- Pryder ynghylch lefelau sŵn posibl a all ddod o weithrediad y tanc.
- Dyluniad y ffensys/ffiniau Ar hyn o bryd mae cyfuniad o "mesh fencing" a ffens goed ar hyd y ffin wrth ymyl y tanc. Byddai'n dda cael fwy o gysondeb a dyluniad sy'n gweddu'n well i ardal breswyl.
- (ochr agosaf at y brif lôn) Mae'r cynllun yn nodi "existing boundary wall (mixed masonry)", ond nid oes wal o'r fath yno - dim ond gwrych trwchus sy'n ffurfio'r ffin.
- Pryder ynglŷn â gwrychoedd, drain a mieri presennol yn gordyfu dros waliau eiddo cyfagos.
- Pryder ynglŷn a pwyntiau mynediad yr ysgol. Rhieni a plant yn cerdded ar eiddo/ llwybrau preifat er mwyn cyrraedd yr ysgol.
- Pobl yn parcio ar draws mynedfa eiddo preifat.
- Plant yn sefyll i siarad a chicio gro oddi'r llwybr preifat ac yn ei ddifrodi.
- Pobl yn pwyso yn erbyn ffensys preifat yn ddyddiol, plant yn cicio peli yn erbyn ffensys a dychryn cŵn y preswylwyr.

5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

Egwyddor y datblygiad

- 5.1 Mae'n ofynnol gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd, oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn nodi fel arall. Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLL) yw'r 'Cynllun Datblygu' mabwysiedig yn yr achos yma. Mae safle'r cais wedi ei leoli y tu fewn i ffin ddatblygu Pentref Gwasanaeth Bontnewydd ac mae holl safle'r cais ar dir sydd eisoes mewn defnydd cymunedol ac ar gyfer darparu addysg (Dosbarth Defnydd D1).
- 5.2 Y prif bolisi cynllunio sy'n berthnasol i'r cais hwn yw polisi ISA 2 Cyfleusterau Cymunedol y CDLL. Mae'r polisi hwn yn gefnogol o ddarparu cyfleusterau cymunedol newydd yn amodol a chw'rdd â phum maen prawf. Fe asesir y datblygiad yng nghyd-destun y meini prawf hynny isod :
1. Mae maen prawf (i) yn nodi fod y cyfleuster wedi ei leoli o fewn neu union ger ffiniau datblygu. Fel y nodir uchod, mae'r safle wedi ei leoli o fewn ffin datblygu Bontnewydd, felly yn cwrdd gyda'r maen prawf yma.
 2. Mae maen prawf (ii) yn cyfeirio at adeiladau newydd ac os nad all anghenion y gymuned gael eu cwrdd drwy ddefnydd presennol o gyfleusterau presennol neu drwy drosi adeiladau presennol. Efo unrhyw gais ffurfiol dylid cynnwys manylion am gyflwr yr adeilad presennol a

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

pam fod angen codi ysgol o'r newydd ar y safle. Yn ôl y cais fe adeiladwyd prif adeilad presennol yr ysgol yn ystod y 1970au, mae ffabrig yr adeilad ar ddiwedd ei oes, ac nid yw'n gallu darparu amgylchedd dysgu priodol o fewn cyd-destun safonau dylunio cyfredol a ddisgwylir gan ysgolion yn ystod yr 21ain Ganrif. Mae adeilad ysgol Fictoriaidd ar wahân sy'n cynnal y Cylch Meithrin a chynnig darpariaethau cyfyngedig ar gyfer defnydd gan y gymuned. Mae ffabrig yr adeilad yma hefyd wedi dirywio dros nifer o flynyddoedd ac eto mae'n llai na ffafr- iol ar gyfer cyfleuster modern, cynaliadwy a ddisgwylid o'r math hwn. Mae defnydd o'r ad- eiladau yma eisoes wedi dod i ben oherwydd nad ydynt yn addas erbyn hyn. Wrth ystyried cyflwr yr adeiladau presennol a bod bwriad defnyddio'r un safle, fe gredir ei fod yn rhesymol ceisio codi adeilad newydd wedi ei ddylunio'n bwrpasol ar gyfer gofynion addysgol ac am- gylcheddol cyfoes.

3. Mae maen prawf (iii) yn nodi os yw'r cynnig yn gofyn am ail-leoli cyfleuster, y gellir dangos nad yw'r safle presennol bellach yn addas ar gyfer y defnydd hwnnw. Yn debyg i faen prawf (ii) uchod dylid cyflwyno tystiolaeth efo unrhyw gais ffurfiol pam nad yw'r adeilad presennol yn addas. Nid yw'r
 4. Nodir maen prawf (iv) bod graddfa a math y cynnig yn briodol o gymharu â maint, cymeriad a swyddogaeth yr anheddle. Mae'r ysgol bresennol yn darparu lle ar gyfer 210 o ddysgwyr. Mae'r cais yn nodi bwriad darparu ysgol ar gyfer 240 o ddysgwyr, ond yn ddiweddarach der- byniwyd gwybodaeth ychwanegol gan Adran Addysg y Cyngor yn cadarnhau na fydd cynnydd yn y nifer o ddysgwyr o ganlyniad i'r bwriad yma ac nid oes newid yn nalgylch yr ysgol, ac felly oni bai i newidiadau naturiol yn y boblogaeth, ni fydd cynnydd yn y nifer o ddysgwyr a fydd yn mynychu'r ysgol ac ni fydd newid i'r defnyddwyr fydd ar y safle yn y dyfodol. Cyd- nabyddir fod yr adeilad bwriedig yn fwy na'r rhai presennol, ond wrth ystyried bod y cynnig hwn yn deillio o gais 'Her Ysgolion Cynaliadwy' gan Ysgol Bontnewydd a Chyngor Gwynedd ar y cyd i Lywodraeth Cymru o ganlyniad i'r angen cydnabyddedig i wella cyfleusterau add- ysgol Bontnewydd er cwrdd ag anghenion cyfoes y gymuned, fe gredir bod graddfa'r datblyg- iad hwn yn gwbl briodol ar gyfer ei leoliad.
 5. Mae maen prawf (v) yn ceisio sicrhau bod y cynnig yn hawdd ei gyrraedd ar droed, beic a chludiant cyhoeddus. Gan fod yr ysgol newydd arfaethedig ar safle'r ysgol bresennol o fewn y ffin datblygiad Bontnewydd, fe ystyrir bod y safle'n hwylus iawn i'r rheini sydd am gerdded, beicio neu ddefnyddio cludiant cyhoeddus i gyrraedd y safle, credir fod maen prawf (v) yn cael ei fodloni.
- 5.3 Wrth ystyried y drafodaeth uchod fe gredir bod y cynnig hwn yn cwrdd gyda holl feini prawf Polisi ISA 2 y CDLL. Yn ogystal mae Polisi ISA 4 yn dynodi Llecynnau Agored sydd i'w gwarchod rhag datblygiad ac mae'r cae chwarae yng ngogledd orllewin y safle wedi ei ddiogelu dan y dyn- odiaid hwn. Fe fydd y cae hwn yn parhau fel cae chwarae ac felly mae'r cais yn gyson gyda gofynion ISA 4.
- 5.4 Mae polisi PCYFF 1 yn gofyn am leoli datblygiadau oddi fewn i ffiniau datblygu a'r tu allan fod cynigion yn cael eu gwrthod oni bai eu bod yn unol â pholisïau penodol yn y CDLL neu bolisïau cynllunio cenedlaethol neu fod y cynnig yn dangos bod ei leoliad yng nghefn gwlad yn hanfodol. Fel y nodir uchod mae'r safle wedi ei leoli y tu fewn i'r ffin ddatblygu ac mae'r bwriad dan sylw yn cydymffurfio gyda Pholisi ISA 2. Yn sgil hyn ystyrir felly fod y bwriad hefyd yn dderbyniol o ran Polisi PCYFF 1 CDLL.

Mwynderau gweledol

- 5.5 Yn ôl y ffurflen gais cyfanswm arwynebedd llawr yr adeiladau presennol yw 1637 metr sgwâr a chyfanswm arwynebedd llawr yr adeilad bwriedir yw 2126 metr sgwâr felly bydd cynnydd oddeutu 489 metr sgwâr. Er bydd y datblygiad yn golygu cynnydd o oddeutu treian mewn arwynebedd llawr fe wneir defnydd mwy effeithlon o ofod oherwydd bydd dau adeilad unllawr yn cael eu ham- newid gan un adeilad deulawr gyda chymysgedd o doeau brig a thoeau fflat gyda therasau hygrych mewn rhai mannau, lleolir yn ganol y pentref mewn ardal gyda nifer o dai deulawr, ac adeiladau o wahanol uchder a dyluniadau a gorffeniadau yn wasgaredig o'i gwmpas. Mae dyluniad yr adeilad hefyd yn ymateb i wahaniaeth mewn lefelau'r safle trwy gyflwyno lefelau llawr gwaelod wedi eu

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

rhannu, o ganlyniad ni fydd graddfa neu mas yr adeilad yn ymddangos yn sylweddol fwy na'r adeiladau blaenorol. Mae'r dyluniad yn un cyfoes ac yn ymateb i'r angen am gyfleuster penodol yn y pentref.

- 5.6 Cydnabyddir y bydd cynnydd yn uchder yr adeilad newydd o'i gymharu â'r strwythurau presennol, does ddim osgoi'r ffaith y bydd ychydig o effaith ar fwynderau gweledol, mae Asesiad Gweledol Trefol cyflwynwyd efo'r cais yn nodi y bydd yr ysgol newydd yn effeithio ar ddau bwynt golygfa allan o ddeuddeg pwynt golygfa ac ar y gwaethaf cymedrol fydd yr effaith ar y pwyntiau golygfeydd yma, a rhaid cofio fod y safle wedi ei leoli o fewn ardal adeiledig. Oherwydd hyn, fe ystyrir bod y dyluniad a gyflwynwyd yn cynnig datblygiad a fyddai o raddfa a gwedd a fyddai'n addas ar gyfer ei safle adeiledig. Mae'r ffaith y bydd nodweddion o gymeriad yr ysgol bresennol ac yr ardal megis llechi, brics coch, a rendr gwyn sy'n nodweddion cyffredin yn y pentref yn cael eu hymgorffori yn y dyluniad yn pwysleisio'r dilyniant o'r sefyllfa bresennol ac ymgais i weddu ac ymddoddi i'w amgylchedd. Yn ogystal, byddai dyluniad yr adeilad newydd, gyda'i thoeau brig, gorffeniadau'r edrychiadau a'r amrywiaeth yn uchderau'r gwahanol elfennau, yn creu datblygiad a fyddai, er yn sylweddol fwy na'r adeilad presennol, yn parhau i fod o raddfa sy'n cyd-weddu â graddfa a dyluniad yr ardal anheddol o amgylch. Fe gredir felly bod y datblygiad yn parchu cyddestun ei safle yn unol â gofynion Polisi PCYFF 3, yn ogystal ni chredir y byddai'n effeithio'n andwyol ar yr ardal gadwraeth ac na fyddai felly yn groes i ofynion perthnasol polisi AT 1.

Mwynderau cyffredinol a phreswyl

- 5.7 Yn gyffredinol, mae polisiâu PCYFF 2 a PCYFF 3 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn annog caniatáu cynigion ar gyfer datblygiadau newydd cyn belled na fyddent yn cael effaith niweidiol ar iechyd, diogelwch neu fwynderau meddianwyr eiddo lleol neu ar yr ardal yn gyffredinol.
- 5.8 Mae'r cynnig yn amnewid ysgol a chanolfan gymunedol bresennol, ac felly nid oes newid i ddefnydd presennol y safle, ac ni fydd cynnydd yn y niferoedd o ddysgwyr o'r sefyllfa bresennol, ond cydnabyddir bydd cynyddu maint yr ysgol ac annog y defnydd o fannau allanol yn golygu posib bydd cynnydd mewn sŵn i drigolion tai cyfagos, ond ni ystyrir y byddai hyn yn sylweddol o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol.
- 5.9 Yn ogystal, er bydd cynnydd yn faint yr adeilad a nifer o ffenestri ar y drychiadau, bydd un adeilad ysgol yn hytrach na dau adeilad sy'n golygu bydd y pellter rhwng nifer o'r tai cyfagos yn fwy. Bydd Sycharth oddeutu 3 metr yn bellach oddi wrth yr ysgol, Adeiladau Beuno o gwmpas yr un pellter, oddeutu 38 metr o'r ysgol, bydd Wayside a Llwyn Celyn oddeutu rhwng 13 metr - 17 metr ac yr Hen Bost oddeutu 42 metr yn bellach i ffwrdd oddi wrth adeilad yr ysgol newydd ac wrth ystyried na fydd defnydd y safle'n newid a bod eisoes rhwng-weledd rhwng tir yr ysgol a'r eiddo preifat gerllaw, ni chredir bydd ychwanegiad arwyddocaol at or-edrych o'r tai a gerddi cyfagos yn deillio o'r datblygiad hwn. Yn yr un modd, er y byddai'r adeilad yn fwy o ran swmp na'r adeiladau blaenorol ni chredir y byddai'n arwyddocaol wahanol i'r sefyllfa bresennol o ran dominyddu'r eiddo sydd o flaen y safle. Ni chredir felly bydd niwed ychwanegol arwyddocaol yn deillio i fwynderau trigolion lleol oddi wrth ddatblygiad ysgol newydd ar y safle.
- 5.10 Yn ôl y cais bydd holl offer a pheiriannau sy'n cynhyrchu sŵn sy'n gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig wedi'u dylunio i sicrhau nad yw terfynau allbwn sŵn yn fwy na'r rhai o fewn yr Asesiad Effaith Sŵn cyflwynwyd fel rhan o'r cais a bydd camau lliniaru acwstig priodol yn cael eu hintegreiddio i ddyluniad yr adeilad arfaethedig, offer a pheiriannau gwasanaethau a lleoliadau sy'n destun gweithgaredd gweithredol. Mae'r cais hefyd yn cynnwys strategaeth goleuo. Mae hyn yn cyfyngu goleuo o fewn y safle, gan wynebu i mewn ac i lawr i atal effeithiau gorlifo golau ar eiddo preswyl cyfagos.
- 5.11 Bwriedir annog defnydd ardaloedd chwarae ysgol a maes chwaraeon gan aelodau o'r gymuned y tu allan i'r amserlen arferol ysgol ac mae'r ardaloedd yma wedi cael eu lleoli i'r Dwyrain, gan leihau effaith unrhyw effaith ar eiddo preswyl cyfagos.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

- 5.12 Yn ogystal dywed Gwarchod y Cyhoedd bydd angen cadarnhau oriau defnyddio'r cwrt Ardal Gemau Aml Ddefnydd (AGAD neu MUGA). Mae'r wybodaeth yn awgrymu y bydd y gymuned yn defnyddio'r cwrt, yn ogystal â'r ysgol, a thybir y bydd hyn yn digwydd y tu allan i oriau ysgol. Nid oes goleuadau allanol pwrpasol ar gyfer yr ardal yma, ac felly byddai eu defnydd yn cael ei gyfyngu i oriau golau dydd ac felly yn gyfystyr a defnydd o'r ardal yma yn bresennol fel caeau chwarae. Er mwyn sicrhau mwynderau'r trigolion lleol o ran effaith golau a sŵn ystyrir y byddai'n rhesymol gosod amod i gytuno unrhyw olau ychwanegol ar y safle, gan nodi y byddai golau ar ffurf golau llif angen caniatâd cynllunio ar wahân ac yn destun asesiad pellach.
- 5.13 Cydnabyddir y byddai peth aflonyddwch yn ystod adeg dymchwel ac adeiladu'r bwriad, ac ystyrir y byddai gosod amod i dderbyn Cynllun Rheoli Effaith Amgylcheddol o flaen llaw yn gosod allan mesurau lliniaru ar gyfer unrhyw aflonyddwch ar yr adeg yma, gan nodi mai am gyfnod dros dro byddai hyn.
- 5.14 Ar y cyfan, fel soniwyd eisoes, wrth ystyried nad oes newid defnydd i'r safle, ni chredir bydd y datblygiad hwn yn achosi niwed arwyddocaol i fwynderau'r ardal leol na'i thrigolion yn y tymor hir er, yn anorfod, fydd peth sŵn ac aflonyddwch yn ystod y cyfnod adeiladu. Fe greidir, o osod amodau priodol yn sgil derbyn sylwadau Uned Gwarchod y Cyhoedd, y gellid sicrhau bydd effaith mwynderol y datblygiad yn dderbyniol. O weithredu fel yr uchod, fe greidir bydd y datblygiad yn dderbyniol dan bolisiau PCYFF 2 a PCYFF 3 y CDLL.

Materion trafndiaeth a mynediad

- 5.15 Fe gyflwynwyd Asesiad Trafndiaeth a Datganiad Dyluniad a Mynediad efo'r cais, ac yn ôl y Datganiad er bod y safle yn gweithredu'n flaenorol fel ysgol sydd â threfniant mynediad hanesyddol gyda mynediad cerbydol; oherwydd lleoliad y safle presennol wedi ei gyfyngu i'r gogledd ddwyrain o Ddol Beuno, fe nodwyd o ganlyniad i lecynnau parcio a manau troi cyfyngedig, bod gwrthdaro rhwng cerbydau a cherddwyr, yn enwedig yn ystod uchafbwyntiau prysurdeb sef amseroedd danfon a chasglu, ble mae gordyrru peryglus ar y gyffordd a mynediad y safle. Yn ôl y cais; mae disgyblion yn aml yn cael eu rhyddhau o gerbydau ar hyd ochr y ffordd brysur ble mae risg uchel o wrthdrawiad gyda cherbydau yn troi.
- 5.16 Er mwyn cyfyngu effaith cerbydau ar gyffordd yr A4871, mae llwybr teithio cerbydol newydd yn cael ei gynnig er mwyn galluogi system stacio un ffordd yn ystod amseroedd brig o ran prysurdeb danfon a chodi, fydd hwn wedi ei leoli i ddwyrain y safle trwy ddefnyddio ffordd mynediad presennol i lawr i'r bloc Fictoriaidd, Llwyn Celyn. Fydd hwn yn ffurfio llwybr un ffordd i mewn i'r safle wrth gadw mynediad i'r anheddau preswyl a chyffordd dwy ffordd efo Dol Beuno.
- 5.17 Trwy gael mynediad i'r safle i'r de ddwyrain bydd cerbydau yn cael mynediad i lon gollwng i ffwrdd a/ neu lecynnau parcio staff/ ymwelwyr, byddai'r llwybr un ffordd yn caniatáu i gerbydau stacio o fewn y safle yn hytrach na gordyrru Dol Beuno.
- 5.18 Bydd symudiadau cerddwyr yn cael eu hannog o'r ffiniau gogleddol a dwyreiniol, lle bydd defnyddwyr y safle yn defnyddio llwybrau troed llydan, gan sicrhau bod symudiadau cerddwyr a cherbydau yn cael eu gwahanu cymaint ag sy'n bosib er lleihau'r risg o wrthdaro rhwng cerddwyr a cherbydau o fewn y safle.
- 5.19 Byddai gogledd ddwyrain o'r safle yn cynnwys y ffordd mynediad, parcio a theras mynediad a fydd yn agored i'r cyhoedd. Bydd y cwrt AGAD (MUGA) allanol un cael ei ddylunio efo'r posibilrwydd bydd bosib parcio arno yn anffurfiol dros dro fel darpariaeth ychwanegol o barcio wrth gynnal digwyddiadau cyhoeddus cymunedol er enghraifft, ffeiriau, cyngherddau ayyb.
- 5.20 Cyflwynwyd hefyd Cynllun Teithio gyda'r cais sy'n hyrwyddo dewisiadau teithio gwyrdd, glanach ac yn lleihau'r ddibyniaeth ar y cerbydau preifat.
- 5.21 Derbyniwyd sylwadau gan yr adran drafnidiaeth yn nodi nad oedd ganddynt wrthwynebiad i'r datblygiad.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

- 5.22 Wrth ystyried ei natur canol pentref, a hanes defnydd y safle, ni ystyrir bod unrhyw resymau diogelwch priffyrdd dros wrthod y cais cynllunio. O weithredu'n unol a'r cynlluniau, y Datganiad Dylunio a Mynediad yn ogystal a'r Cynllun Teithio a gyflwynwyd ac yn unol a sylwadau'r Uned Drafnidiaeth fe greidir bod y cais hwn yn cwrdd gyda gofynion polisiâu PS 4, TRA 2 & TRA 4 sy'n anelu at sicrhau darpariaeth ar gyfer trafnidiaeth sy'n gynaliadwy ac yn ddiogel ar gyfer yr holl ddefnyddwyr.

Materion Llifogydd

- 5.23 Mae'r safle wedi ei leoli o fewn Parth B Mapiau Cyngor Datblygu, fel y cyfeiriwyd yn Nodyn Cyngor Technegol (TAN 15): Datblygiad a Risg Llifogydd (2004). Mae'r safle hefyd yn rhannol o fewn parthiau llifogydd 2 a 3 (Afonydd a Mor, a Dwr wyneb a chyrtsiau dwr) a Parth amddiffynnol (Afonydd) yn ôl Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio.

- 5.24 Mae'r mapiau llifogydd ar gyfer cynllunio yn darparu gwybodaeth ddiweddaraf ar y sefyllfa llifogydd, ac ers cyflwyno'r cais, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi NCT 15 diwygiedig ar 31 Mawrth 2025. Teitl y NCT 15 diwygiedig yw 'Datblygu, llifogydd ac erydiad arfordirol' ac mae'n cyd-fynd â Chylchlythyr 002/2025 'Canllawiau ar Gyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Ardaloedd Perygl Llifogydd) (Hysbysiad) (Cymru) 2025' a llythyr eglurhad gan Brif Gynlluniwr Cyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru.

- 5.25 Mae Adran 1 o'r TAN 15 newydd yn nodi

"Mae'r ddogfen hon yn disodli Nodyn Cyngor Technegol 14, a gyhoeddwyd ym 1998 a Nodyn Cyngor Technegol 15, a gyhoeddwyd yn 2004. Ni ddylai Cynlluniau Datblygu a phenderfyniadau cynllunio gyfeirio at y dogfennau hynny mwyach."

Fodd bynnag, mae'r llythyr eglurhad yn nodi "...gall cyhoeddi canllawiau newydd gael effeithiau ar brosesu ceisiadau cynllunio felly bydd cyfnod pontio ar gyfer gweithredu'r NCT. Bydd ceisiadau cynllunio a gyflwynwyd a'u cofrestru cyn cyhoeddi'r NCT newydd yn parhau i gael eu hasesu yn erbyn y fersiwn flaenorol..." Felly, y canllawiau swyddogol gan Lywodraeth Cymru yw ar gyfer ceisiadau cynllunio a gyflwynwyd a'u cofrestru cyn 31 Mawrth 2025 yw ar gyfer asesu risg llifogydd i'w wneud ar gynnwys polisi rhifyn 1af NCT 15 a gyhoeddwyd yn 2004.

- 5.26 Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n cyfeirio'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'r profion a gynhwysir o fewn paragraff 6.2 o NCT 15 (2004) wedi eu nodi isod:

i.

ii Bod rhaid ei leoli ym mharth C er mwyn cyfrannu at amcanion cyflogaeth allweddol sy'n cael eu cefnogi gan yr awdurdod lleol a phartneriaid allweddol eraill er mwyn cynnal anheddiad neu ranbarth sy'n bodoli'n barod.

yn ogystal â,

iii Bod y cais yn cyd-fynd ag amcanion Polisi Cynllunio Cymru ac yn unol â'r diffiniad o dir sydd wedi ei ddatblygu'n barod (Polisi Cynllunio Cymru ffigur 2.1) a,

iv Bod canlyniadau posib unrhyw lifogydd, yng nghyd-destun y math o ddatblygiad, wedi cael eu hystyried a'u bod yn dderbyniol yn ôl y meini prawf a restrir yn adran 5 a 7 ac yn Atodiad 1.

- 5.27 Mae paragraffau 5.1-4 o'r adroddiad yma yn cadarnhau fod y bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion polisiâu'r CDLI o ran ei egwyddor, ac felly ystyrir fod y bwriad yn cydymffurfio gyda maen prawf i) oherwydd ei fod yn darparu gwasanaeth sy'n hybu, neu fod yn rhan o, strategaeth gan yr awdurdod lleol sy'n angenrheidiol er mwyn cynnal anheddiad sy'n bodoli'n barod. Mae'r

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

safle hefyd yn safle wedi ei ddatblygu yn barod, ac nid oes newid yn nefnydd y safle hwnnw ac felly mae'r bwriad yn cydymffurfio gyda maen prawf iii.

- 5.28 Darparwyd fel rhan o'r cais Adroddiad Cyfyngiadau a Chyfleoedd Risg Llifogydd gan Ymgynghoriaeth Cyngor Gwynedd (YGC), sydd hefyd yn gweithredu fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (ALILIA neu LLFA) sy'n dod i gasgliad y byddai'r datblygiad arfaethedig yn golygu bydd y safle yn cadw ei ddefnydd presennol ac o ganlyniad ddim yn cynyddu ei fregusrwydd. Mae'r cynnig ar gyfer ysgol newydd ac mae'r holl elfennau adeiledig sy'n gysylltiedig â'r cynnig wedi'u dangos i fod yn uwch na'r lefelau llifogydd amcangyfrifedig (gyda lwfans ar gyfer effeithiau newid hinsawdd), ar wahân i'r cae pêl-droed a chwaraeon presennol/arfaethedig. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at fodel hydrologig newydd a adeiladwyd gan YGC ar gyfer afon Gwyrffai gyfagos a ffynonellau eraill o risg llifogydd. Nid yw CNC wedi adolygu'r gwaith modelu ac felly mae'r mapiau llifogydd ar gyfer cynllunio yn parhau i fod yn brif ffynhonnell gwybodaeth ofodol ar risg llifogydd at ddibenion cynllunio.
- 5.29 Mae CNC hefyd yn nodi'r argymhellion yn yr adroddiad ynghylch ymestyn wal llifogydd presennol CNC ar hyd Afon Gwyrffai i helpu i reoli llifogydd dŵr wyneb, ac mae trafodaethau yn parhau rhwng CNC a YGC ynghylch hyn er nad oes unrhyw ymrwymadau wedi'u gwneud ynghylch yr estyniad arfaethedig a pha Awdurdod Rheoli Risg fyddai yn y sefyllfa orau i hyrwyddo, adeiladu a chynnal yr estyniad arfaethedig. Fodd bynnag, nid yw hyn yn effeithio ar safbwynt CNC o ran derbynioldeb y cais hwn ar gyfer yr ysgol newydd o ran risg llifogydd, ac nid yw CNC yn gwrthwynebu'r bwriad ac felly ystyrir nad yw'n groes i ofynion maen prawf iv. Ystyrir felly, oherwydd defnydd presennol y safle a'r hyn a gynhwysir o fewn yr Adroddiad Cyfyngiadau a Chyfleoedd Risg Llifogydd fod y bwriad yn dderbyniol ac nad yw'n groes i ofynion NCT 15 (2004).

Materion Draenio

- 5.30 Fel nodir yn y sylwadau uchod, mae cais llawn Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC) wedi ei gymeradwyo yn barod, ar gyfer y datblygiad yma, ac felly nid oes gan yr Uned Draenio unrhyw wrthwynebiad i'r bwriad o ran hyn.
- 5.31 Mae sylwadau Dwr Cymru yn nodi eu bod yn cydnabod bod y datblygiad yn bwriadu rhyddhau dŵr budr a dŵr arwyneb i draeniau cyhoeddus a System Draenio Gynaliadwy, maent wedi ystyried effaith llif dwr budr a fydd yn cael eu creu gan y datblygiad ac yn dod i gasgliad y gallai'r llif cael ei dderbyn o fewn y system garthffosiaeth gyhoeddus uniongyrchol. Maent hefyd yn nodi dim gwrthwynebiad i'r cynnig i waredu llif dwr arwyneb i mewn i System Draenio Gynaliadwy o fewn egwyddor yn destun ymgynghoriad a chytundeb gyda'r corff rheoleiddiol neu berchennog afonol y system hon. Darparwyd cyngor penodol i'r safle a safonol cyffredinol a bwriedir tynnu sylw'r ymgeisydd i'r cyngor ac amodau yma fel nodyn i unrhyw ganiatâd cynllunio.
- 5.32 Mae Polisi PS 6 yn gofyn sicrhau bod tystiolaeth briodol bod ystyriaeth lawn wedi ei roi i ganlyniadau posibl newid hinsawdd ac, yn sgil sylwadau cychwynnol gan Dŵr Cymru, fe dderbyniwyd Cynllun Ddraenio diwygiedig ar gyfer y safle. Mae Dŵr Cymru'n cadarnhau bod y trefniadau hyn yn dderbyniol. Fe gredir felly bod y cynnig yn dderbyniol dan ofynion polisi PS6 a PCYFF 6 o'r CDLI.

Materion bioamrywiaeth

- 5.33 Fel rhan o'r cais cyflwynwyd Datganiad Seilwaith Gwyrdd, Arolygon Ecolegol gan Dr Rod Gritten dyddiedig Mehefin 2024 wedi ei diweddarau 23 Mawrth 2026 a Chynllun Tirlunio diwygiedig Mehefin 2025. Ni ddarganfuwyd unrhyw ystlumod yn adeiladau'r ysgol. Derbyniwyd sylwadau gan yr uned bioamrywiaeth yn nodi nid oedd ganddynt unrhyw bryderon ecolegol ynglŷn â'r datblygiad.
- 5.34 Darparwyd Adroddiad Coed fel rhan o'r cais, a cynigwyd y sylwadau canlynol – bod y plannu coed cynigwyd yn addas ond yn cynghori amnewid rhai o'r opsiynau am rhywbeth sydd mwy addas ar gyfer y coedlin yr ardal er enghraifft Aethnen a Afal Surion Bach.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

- 5.35 Mae ffin y llinell goch ar gyfer y cais yn ffinio ag ACA Afon Gwyrfaï a Llyn Cwellyn (er nad yw'r adeiladau arfaethedig o fewn ôl troed y safle gwarchoddedig). Mae'r gwaith arfaethedig wedi'i gyfyngu i ddisodli'r strwythurau presennol gyda strwythurau newydd ar yr ôl troed presennol. Ni chynigir unrhyw dirlunio gerllaw'r cwrs dŵr a bydd y cysylltiadau allfa bresennol yn cael eu defnyddio, ac mae posib i'r bwriad achosi niwed i'r dynodiadau yma drwy lygredd.
- 5.36 Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod cymwys o dan Reoliad Cynefinoedd 2017 ac mae ganddo ddyl-etswydd i ystyried unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig.

Mae tri llwybr effaith posibl:

1. Bydd carthion o'r ysgol newydd yn cael eu trin gan Waith Trin Dŵr Gwastraff Llanfaglan sy'n gollwng i Afon Gwyrfaï.
2. Llygredd o'r safle adeiladu fel dŵr ffo pridd neu ollyngiadau tanwydd.
3. Unwaith y bydd yr ysgol wedi adeiladu unrhyw ddŵr wyneb llygredig sy'n mynd i mewn i'r afon.

O dan bob llwybr effaith, ystyrir yr effaith sylweddol debygol:

1. Carthion

Bydd yr adeilad newydd arfaethedig ar gyfer yr ysgol yn cysylltu â'r brif garthffos a bydd carthion yn cael eu trin yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanfaglan. Cydnabyddir fod capasiti'r Ysgol newydd yn cynyddu o ganlyniad i'r bwriad (hyd at 240 o blant) ond ni fydd y nifer o blant sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd yn cynyddu (er y gellir newid yn naturiol o flwyddyn i flwyddyn) ac nid oes newid i'r dalgylch. Mae dalgylch yr ysgol yn cyd-fynd gyda'r ardal a phentrefi sy'n cael eu gwasanaethu gan Waith Trin Dŵr Gwastraff Llanfaglan (Bontnewydd, Caethro, Llanfaglan, Saron a Llanwnda), ac felly byddai unrhyw gynnydd mewn plant yn yr ysgol yn dod o'r ardaloedd yma. Mae defnydd cymunedol o'r ysgol yn bodoli'n barod, ac er y byddai'r adeilad newydd yn golygu fwy o ddefnydd cymunedol o bosib, mae hyn o ganlyniad i wella cyfleusterau a fyddai wedi bod yn bosib ar y safle presennol drwy greu gofodau mwy addas o fewn yr adeiladau presennol. Golygai hyn na fydd unrhyw ddefnyddwyr ychwanegol o ganlyniad i'r bwriad yma, a bod y defnyddwyr yn byw o fewn yr ardal a wasanaethir gan Waith Trin Dŵr Gwastraff Llanfaglan yn barod, boed yn eu cartrefi neu yn yr ysgol/canolfan gymunedol. I'r perwyl hyn, mae'r datblygiad yn dangos niwtraliaeth ffosfforws o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol ac felly nid oes unrhyw effaith ychwanegol neu andwyol ar yr ACA sy'n methu â chyrraedd targedau ansawdd dŵr ar gyfer ffosfforws ar hyn o bryd.

2. Llygredd Adeiladu

Ni fydd unrhyw waith yn digwydd o fewn coridor yr afon na'r ACA. Ni chynigir unrhyw dirlunio gerllaw'r cwrs dŵr a bydd y cysylltiadau allfa bresennol yn cael eu defnyddio. Mae'r ymgeisydd wedi darparu Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (Darllenwch Adeiladu, Gorffennaf 2025) ac mae CNC yn fodlon ar y mesurau lliniaru yn y ddogfen hon. Ni ystyrir y byddai ysgol yn arwain at lygru Afon Gwyrfaï yn ddarostyngedig i'r mesurau lliniaru felly.

3. Draenio dŵr wyneb

Ymddengys y byddai draenio dŵr wyneb yn cael ei gyfeirio at allfa bresennol i Afon Gwyrfaï. Bydd hyn yn osgoi'r angen am weithgarwch adeiladu o fewn yr ACA. Mae CNC yn datgan "Disgwylir i'r gollyngiad hwn gael ei wanhau'n well yn y datblygiad newydd a gall fod yn welliant dros y presennol ond rhaid sicrhau bod y dŵr hwn o'r un ansawdd neu well na dŵr derbyn Afon Gwyrfaï ar gyfer y dyfodol." Mae CNC yn gyffredinol fodlon ar y Strategaeth Draenio Dŵr Wyneb (Awst 2024) ar gyfer rheoli dŵr ffo a draenio ar ôl cwblhau'r prosiect.

Ar sail yr uchod felly ni ystyrir fod y llwybrau effaith uchod yn debygol o gael effaith sylweddol ar Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Gwyrfaï.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

- 5.37 O sicrhau bod amod priodol yn cael ei osod ar y datblygiad fe gredir bydd y datblygiad hwn yn cwrdd gyda gofynion Polisiâu PS19, AMG 5 ac AMG 6 y CDLL ynghyd a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'i diwygiwyd) sy'n annog cynhigion i warchod, a lle bo'n briodol, gwella bioamrywiaeth yr ardal ac yn sicrhau nad oes effaith andwyol ar safleoedd wedi eu gwarchod yn rhyngwladol.

Materion Archeolegol/ Treftadaeth

- 5.38 Fel rhan o'r cais darparwyd Argymhelliad ar gyfer Cofnodi ac Astudio Ysgol Bontnewydd gan I. P Brooks dyddiedig Ionawr 2024 sydd yn argymhell cyn i unrhyw ddatblygiad cymryd lle dylai'r adeiladau presennol gael eu cofnodi. Nodai'r Argymhelliad er nad yw'r adeiladau yn rhai cofrestr-edig maent yn amlwg yn bwysig yn natblygiad Bontnewydd yn yr 19eg ganrif, gan ei fod wedi cychwyn fel "Ysgol Genedlaethol" cyn iddo gael ei drosglwyddo i'r system sirol yn 1904, gafodd yr ysgol ei ymestyn yn 1908 ond mae'n cynnwys yr adeilad ysgol wreiddiol yn ei graidd. Mae'r Argymhelliad yn datgan dylai Astudiaeth desg gychwynnol cael ei gwblhau er mwyn dogfennu datblygiad yr Ysgol ac mae'n darparu cyngor a chanllawiau ar gyfer hyn. Dywed hefyd y dylai Cynlluniau cael eu paratoi, cofnod ffotograffig yn ogystal â chofnod ysgrifenedig. Dywed hefyd y dylai Gwerthusiad Archeolegol Gorchwyl Gwyllo cael ei gwblhau.
- 5.39 Yn unol â hynny, ystyrir ei bod yn briodol gwneud cofnod manwl o'r adeilad cyn unrhyw newid-iadau, i liniaru effaith y datblygiad ar ei gyfanrwydd hanesyddol a chymeriad, ac i wasanaethu fel cofnod archif parhaol. Argymhellir felly gosod amod er sicrhau y cwblheir manwl o'r adeilad cyn ei ddymchwel yn unol â'r Argymhelliad Archeolegol. Fe fyddai hyn yn gyson gyda gofynion polisi AT 3 fel y mae'n ymwneud ag amddiffyn treftadaeth sydd o bwysigrwydd lleol.

Materion cynaliadwyedd

- 5.40 Mae'r adeilad bwriedig yn cael ei gynllunio i gyflawni Carbon Net Sero gyda'r bwriad o fod yn allforiwr net o ynni dros ben i'r grid cenedlaethol. Bydd hyn yn cael ei gynhyrchu trwy ddefnyddio paneli ffotofoltäig wedi'u gosod ar yr adeilad a phyrth ceir. Mae'r bwriad hwn hefyd yn ymdrechu i ail ddefnyddio deunyddiau a fyddai fel arall wedi'u bwriadu ar gyfer tirlenwi. Bydd gwresogi yn cael ei ddarparu gan bympiau gwres ffynhonnell ddaear sy'n effeithlon o ran ynni. Ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol yn hyn o beth o ran Polisi PCYFF 5 a Pholisi PS 6 CDLL.

Yr Iaith Gymraeg

- 5.41 Bwriad sydd yma i godi ysgol newydd ar safle'r ysgol bresennol ble byddai iaith y dysgu yn parhau drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn hyn o beth ystyrir mai cyffelyb fyddai'r sefyllfa o ran yr iaith Gymraeg. Byddai posibilrwydd i ddefnyddio'r ysgol newydd i gynnal mwy o weithgareddau add-ysgol a hefyd gweithgareddau y tu allan i oriau'r ysgol a allai gyfrannu yn gadarnhaol tuag at yr iaith Gymraeg. Byddai hefyd yn rhesymol gosod amod er sicrhau bod enw Cymraeg i'r safle a bod holl arwyddion y safle yn y Gymraeg yn unig neu'n ddwyieithog gyda'r flaenoriaeth i'r Gymraeg. Ystyrir y bod y bwriad yn dderbyniol o ran Polisi PS 1 CDLL ynghyd a'r CCA perthnasol.

Yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus

- 5.42 Derbyniwyd nifer o sylwadau gan y cyhoedd o ganlyniad i'r cais yma, ac 'roedd y materion a godwyd yn amrywio. Ystyrir fod y materion i gyd wedi derbyn sylw teilwng yn yr adroddiad, ac nad oes unrhyw un o'r materion a godwyd yn newid yr argymhelliad ar gyfer y cais yn yr achos yma.

6. Casgliadau:

- 6.1 O ystyried y materion cynllunio perthnasol yn yr achos hwn mae'r datblygiad arfaethedig yn cwrdd â llawer o amcanion Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn trwy gynnig datblygiad o ddyluniad safonol, cyfoes a phriodol i'w leoliad, a fydd yn cyfrannu'n sylweddol

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 18/05/2026
ADRODDIAD PENNAETH CYNORTHWYOL YR ADRAN	

tuag at wella'r cyfleusterau addysgol lleol trwy ddefnyddio safle tir a ddatblygwyd o'r blaen. Fe ystyriwyd yr holl ystyriaethau cynllunio materol ac ni chredir bydd y bwriad yn debygol o achosi effeithiau andwyol annerbyniol hirdymor i drigolion gerllaw na'r gymuned yn gyffredinol ac fe fydd modd rheoli unrhyw effeithiau byrdymor trwy osod amodau priodol ar y datblygiad.


7. Argymhelliad:

Caniatáu – amodau

1. Amser (5 mlynedd)
2. Yn unol â'r cynlluniau
3. Cytuno ar ddeunyddiau a lliwiau terfynol
4. Amodau trafnidiaeth
5. Amodau archeolegol.
6. Amod tirlunio a choed.
7. Amod bioamrywiaeth
8. Amodau cytuno golau allanol o flaen llaw
9. Amodau Gwarchod y Cyhoedd
10. Amodau Dŵr Cymru
11. Amodau Cyfoeth Naturiol Cymru
12. Cyfyngiadau oriau gwaith yn ystod y cyfnod adeiladu
13. Enw Cymraeg i'r ysgol.
14. Arwyddion Cymraeg

Nodiadau

1. Dŵr Cymru
2. Cyfoeth Naturiol Cymru
3. Priffyrdd
4. SUDS
5. Nodyn Cais Mawr




- NOTES:
1. Do not scale from this drawing.
 2. Always work to noted dimensions.
 3. All dimensions are in millimetres unless otherwise stated.
 4. All setting out, levels and dimensions to be agreed on site.
 5. The dimensions of all materials must be checked on site before being laid out.
 6. This drawing must be read with the relevant specification clauses and detail drawings.
 7. Order of construction and setting out to be agreed on site.

KEY

 Application Boundary

P01	29/11/24	Stage 3 Issue	KR	TI
Revision	Date	Description	Drawn	Apprvd.

 THIS DRAWING IS COPYRIGHT PROTECTED AND MAY NOT BE REPRODUCED IN WHOLE OR PART WITHOUT WRITTEN AUTHORITY FROM THE OWNER.

Client Gwynedd Council

Project Bontnewydd Community Campus

Drg Title Site Location Plan


Created on 16/09/24 Created by KR Approved by TI

Scale 1:1250 Size A3 Workstage Stage 3

Drg No. BON-LST-XX-XX-DR-L-0010 Suitability S4 Revision P01

land | studio

Tud. 104



Scale Bar 1:1250 @ A3



- NOTES:
1. Do not scale from this drawing.
 2. Always work to noted dimensions.
 3. All dimensions are in millimetres unless otherwise stated.
 4. All setting out, levels and dimensions to be agreed on site.
 5. The dimensions of all materials must be checked on site before being laid out.
 6. This drawing must be read with the relevant specification clauses and detail drawings.
 7. Order of construction and setting out to be agreed on site.

KEY

[Symbol]	Existing Boundary wall
[Symbol]	Proposed Boundary wall
[Symbol]	Existing fence wall
[Symbol]	Existing fence
[Symbol]	Existing 1.2m Chimneys
[Symbol]	Existing Chimneys at Wall
[Symbol]	Existing 7.6m Brickwork
[Symbol]	Existing 2.4m Gable

**Cynllun Diwygiedig
Amended Plan**

DERBYN
Adran Cynllunio - 21.01.2026



PO2	220105	Updated Plan	MN	RK
PO1	201104	Stage 3 Issue	MN	RK

THIS DRAWING IS COPYRIGHT PROTECTED AND MAY NOT BE REPRODUCED IN WHOLE OR PART WITHOUT WRITTEN AUTHORITY FROM THE OWNER.


Client	Gwynedd Council
Project	Bontnewydd Community Campus
Dwg Title	Existing Layout
Created on	01/03/24
Created by	MN
Approved by	MN
Scale	1:200
Size	A1
Workstage	Stage 4
Dwg No.	BON-LST-XX-XX-DR-L-0011
Subsidiary	S3
Revision	PO2

land studio





EDRYCHIAD DDWYREINIOL (B)
EAST ELEVATION (B)



EDRYCHIAD DDE (A)
SOUTH ELEVATION (A)

Tud. 106

CLIENT/CUSTOMER:

NODIADAU/NOTES

**GWYBODAETH YCHWANEGOL
ADDITIONAL INFORMATION**

28-04-26

Cynllunio - Cyngor Gwynedd

REF. NO.	REVISIONAL MODUR/NOTATIONS	DATE	BY



CYFADRAN YR
AMGYLCHEDD
ENVIRONMENT
DIRECTORATE

Cyfarwyddwr Strategol Amgylchedd/
Strategic Director of Environment
Drew V Rowlands
B.Sc. M.Sc. D.H.S. C.Eng F.I.C.E. M.I.H.T.

**YMGYNGHORIAETH GWYNEDD
GWYNEDD CONSULTANCY**


CYNLLUN / SCHEME:
YSGOL GYNRADD BONTNEWYDD
YSTAFELL ANABL NEWYDD

TITL LUNNIAID / DRAWING TITLE:
CYNLLUN A DRYCHIADAU PRESENNOL
EXISTING PLAN AND ELEVATIONS

DARLUNWYD GAN/ DRAWN BY:	GCD	DYDODD DDLUNWYD/ DATE DRAWN:	EBRILL 08
